

# **AWDURDODAU PARCIAU CENEDLAETHOL ARFORDIR PENFRO**

**AC**

**ERYRI**

**Adroddiad gan y Cydbwyllgor Craffu  
ar effaith polisiau a gwaith  
Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol  
ar weithgarwch economaidd y ddau Barc Cenedlaethol**

**Gorffennaf 2015**



## **Rhagair**



**Mrs Gwyneth Hayward**  
**Cadeirydd y Cydbwyllgor Craffu ar effaith polisïau a gwaith Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol ar weithgarwch economaidd y ddau Barc Cenedlaethol sef Arfordir Penfro ac Eryri**

Yr adolygiad craffu hwn oedd y cyntaf i gael ei gynnal ar y cyd gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Er mai hwn oedd y pedwerydd i Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ymgymryd ag o, hon oedd y fenter gyntaf graffu gyntaf i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Bu'n broses ddiddorol a hoffwn ddiolch i Aelodau'r ddau Awdurdod am gymryd rhan ac am eu cymorth wrth ffurfioli'r adroddiad hwn.

Wrth ddatblygu'r casgliadau a'r argymhellion a geir yn yr adroddiad hwn rydym wedi ystyried y dystiolaeth a roddwyd i ni gan nifer o unigolion a sefydliadau sydd wedi bod yn barod i ddod i siarad â ni neu gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig. Ar ran y Cydbwyllgor Archwilio, hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu ac rydym yn gobeithio y bydd cynnwys yr adroddiad yn adlewyrchu'r cyfraniadau a wnaed.

A handwritten signature in black ink that reads "G. Hayward". The signature is written in a cursive, flowing style.

## 1. Crynodeb Gweithredo

Cytunodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP) ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE) i ymgymryd â phrosiect Craffu ar y Cyd er mwyn sefydlu pa mor llwyddiannus yw polisïau a gwaith y Parc Cenedlaethol o ran cefnogi gweithgarwch economaidd. Ffurfiwyd pwyllgor o Aelodau o bob Awdurdod a chafwyd y cyfarfod cyntaf ym mis Chwefror 2014. Casglwyd tystiolaeth o amrywiaeth eang o ffynonellau a oedd yn galluogi'r Cydbwyllgor Craffu i gael gwell gwerthfawrogiad o weithgarwch economaidd ac i werthuso rôl Awdurdodau'r Parc Cenedlaethol a'u polisïau. Roedd hefyd yn rhoi mewnwelediad i ganfyddiad busnesau ar y mater o p'un a yw'r Parciau Cenedlaethol yn hwyluso amgylchedd economaidd gadarnhaol.

Yn gynnar yn nhrafodaethau'r Pwyllgor daeth yn amlwg bod agweddau busnes tuag at a dealltwriaeth o Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn wahanol iawn gan ddibynnu yn helaeth ar faint y busnes a'r sector y maent yn gweithredu ynddi. Yr oedd hefyd yn dibynnu ar gyda pha rai o'r gwasanaethau neu adrannau o Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yr oeddynt wedi bod mewn cysylltiad / neu wedi ymglymu â hwy. Er enghraifft yr oedd busnesau yn aml yn canmol y gwaith a wnaed gan Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol wrth hyrwyddo twristiaeth, ecoleg ac ansawdd bywyd tra'n mynegi amheuon ynghylch y broses gynllunio.

Yn gyffredinol mynegwyd y farn y dylai cael gwell ymwybyddiaeth mewn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ynghylch anghenion y gymuned fusnes a mwy o oddefgarwch mewn polisïau APC yn enwedig wrth wynebu newid mewn amgylchiadau economaidd. Ym marn rhai sectorau mae angen i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol gael gwell dealltwriaeth o'r pwysau ar y gymuned fusnes, a bod angen i Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol fod yn fwy rhagweithiol wrth gynnig atebion i broblemau busnes. Yn yr un modd roedd yn aml yn glir nad yw busnesau yn deall yn glir y gorchmynion sy'n llywio polisïau'r Parciau Cenedlaethol. Byddai canllawiau cliriach a mwy o ymgysylltu gan Awdurdodau â busnes ac i'r gwrthwyneb yn fanteisiol ond mewn cyfnod anodd cyllidebol a llwythi gwaith trwm, mae'n anodd gweld sut y gellid cyflawni hyn. (Cyf. 2.1, 2.5, 2.6)

Cyfeiriwyd yn arbennig gan fusnesau a gwleidyddion at bolisïau fel Polisi Tai Fforddiadwy APCAP ac at eu polisi hygyrchedd fel enghraifft o anhyblygrwydd tybiedig a pherthnasedd hen ffasiwn. (Cyf. 2.8)

Yr oedd y rhan fwyaf o ymatebwyr naill ai'n annibynnol neu pan ofynnwyd iddynt yn datgan eu cefnogaeth i ddyrchafu'r ddyletswydd economaidd bresennol fel ei fod yn bwrpas. O ystyried yr Adolygiad parhaus o Dirweddau Dynodedig mae hyn yn arwyddocaol. Roedd hefyd yn amlwg lle'r oedd gwrthdaro yn digwydd rhwng y dirwedd a'r economi mai Egwyddor Sandford sydd drechaf. (Cyf. 2.2, 2.3)

Er bod dyrchafu'r ddyletswydd economaidd yn dal i fod yn y dyfodol mae'r cylch gwaith economaidd yn parhau i fod gyda thimau datblygu economaidd Awdurdodau Lleol. Roedd yn amlwg y dylai cysylltiadau agosach gael eu meithrin i

roi mwy o wybodaeth am economi'r Parc Cenedlaethol er mwyn hwyluso gwell ffocws ar gyfer polisiâu newydd, yn enwedig mewn perthynas â'r adolygiad arfaethedig o Gynlluniau Datblygu Lleol (CDLI) a Chynlluniau Rheoli Parciau Cenedlaethol (CRhPC) . (Cyf. 2.6, 2.7, 2.8)

Er bod rhai o'r sylwadau uchod yn awgrymu bod angen newidiadau a byddai'n adlewyrchiad anghywir o'r dystiolaeth os nad oedd yn glir bod y rhan fwyaf o ymatebwyr yn ystyried yr APCau mewn ffordd bositif a gyda brwdfrydedd. Mae'n aml yn ymddangos ein bod yn methu i farchnata ein hunain yn ddigonol ac y dylai'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol atgoffa busnesau o'n llwyddiannau lu. Mae brand y Parc Cenedlaethol yn boblogaidd gyda busnes ac roedd yn sicr yn arwyddocaol yn y sector twristiaeth ac mae angen gwneud mwy i hyrwyddo hyn. (Cyf. 2.3, 2.9)

Mae'n amlwg y dylai mwy o baratoi manwl gywir gael ei wneud cyn dechrau ymarfer craffu ac fe ddylid glynu'n gaeth at yr amserlenni y cytunwyd arnynt. Serch hynny, daeth llawer o wybodaeth a dealltwriaeth o ganfyddiadau defnyddiol i'r amlwg o ganlyniad i ymdrechion y Pwyllgor a fydd yn helpu i lywio polisiâu ddau Awdurdod y Parciau Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru yn y dyfodol. (Cyf. 2.4, 2.7)

Yn ystod yr astudiaeth amlygodd rhai busnesau'r angen i hyrwyddo busnesau cynaliadwy lleol fel gyrfa ar gyfer yr ifanc. Gwelwyd hyn fel elfen bwysig wrth atal y llif o bobl ifanc allan o ardaloedd gwledig mewn cyfnod pan mae'r demograffig yn yr ardaloedd hyn yn dod yn fwyfwy oeddrannus. Byddai hefyd o bwys mawr wrth hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Er nad oeddem yn ymchwilio i'r mater hwn yn fanwl yr ydym yn ystyried ei fod yn fater sy'n haeddu sylw ac yn faes lle y gall Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol ddymuno cynorthwyo sefydliadau eraill yn y dyfodol.

## 2. Argymhellion

- 2.1 Mae angen mynd ati i lunio polisïau Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol â rhywfaint o oddefgarwch a digon o hyblygrwydd fel y gellid ystyried amgylchiadau newidiol yr economi a'r farchnad ynghyd â gwahanol anghenion busnesau, neu fod mewn lle am gyfnod byrrach a fyddai'n golygu y gellid eu hadnewyddu a'u diweddarau yn fwy rheolaidd.
- 2.2 Gan adlewyrchu'r farn a fynegwyd gan fusnesau, roedd y Pwyllgor wedi rhoi cefnogaeth gref i'r cynnig yn yr adroddiad Rhan 1 o'r Adolygiad o Dirweddau Dynodedig sef y dylid datblygu pwrpas economaidd gymdeithasol ar gyfer Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol ac y dylid gwneud y newid hwn cyn gynted ag y bo modd. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o bryder y gallai'r geiriad a awgrymwyd gan y Panel gael ei ddehongli fel rhywbeth sy'n berthnasol i dreftadaeth ddiwylliannol yn unig. Lle bo gwrthdaro rhwng y ddyletswydd economaidd a'r ddau bwrpas cyntaf, rhoddir blaenoriaeth i'r pwrpas cyntaf (Egwyddor Sandford).
- 2.3 Dylai gwerth brand y Parc Cenedlaethol gael ei gydnabod yn ehangach ac fe ddylai Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol adeiladu ar y perthnasau presennol a gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau fel Croeso Cymru i ddod o hyd i adnoddau ychwanegol i adeiladu a hyrwyddo brand y Parc Cenedlaethol.
- 2.4 Dylai Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol ystyried darparu cyfleoedd i'w staff ac Aelodau wella eu dealltwriaeth o anghenion ac ysgogwyr busnesau lleol a dod yn fwy gweithgar mewn fforymau busnes ac economaidd perthnasol.
- 2.5 Dylai Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol ddarparu mwy o arweiniad i fusnesau am eu gwaith a'r effaith y gall ei chael ar yr economi leol mewn Parc Cenedlaethol. Gallai hyn fod ar faterion cynllunio megis paratoi ceisiadau cynllunio o ansawdd a gall fod rôl ar gyfer sefydliadau megis y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol neu Gymorth Cynllunio i ddarparu hyfforddiant ar gyfer busnesau bach.
- 2.6 Dylai Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol geisio datblygu perthynas waith agosach â thimau datblygu economaidd yr Awdurdodau Lleol. Dylid sefydlu cynllun gweithredu a ffocws i fynd i'r afael â'r anghenion a bennwyd ar y cyd. Yn yr un modd, dylai adrannau datblygu economaidd Awdurdodau Lleol groesawu potensial ardaloedd gwarchodedig yn llawn wrth ysgogi buddion economaidd. Byddai hyn yn rhoi ffocws i asesu effaith polisïau a chymau gweithredu'r dyfodol gan gyfeirio'n benodol at yr adolygiad o'r Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLI).
- 2.7 Dylai Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol chwilio am gyfleoedd i ddod o hyd i ddata er mwyn darparu mwy o wybodaeth sylfaenol am economi'r Parc Cenedlaethol.
- 2.8 Dylid cydnabod cyfraniad ac effaith gwaith ehangach Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol ar y gymuned fusnes. Dylai polisïau fel y rhai i ddarparu tai fforddiadwy a hygyrchedd gael eu monitro, eu hadolygu a'u diwygio, lle bo angen, i

ystyried y realiti o fyw yng nghefn gwlad Cymru, gydag argaeledd cludiant cyhoeddus cyfyngedig.

- 2.9 Dylid paratoi a chyflwyno ymgyrch i hyrwyddo effaith gadarnhaol y Parc Cenedlaethol a gwaith Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol ar y gymuned fusnes er mwyn atgoffa a hyrwyddo i fusnesau ac eraill y pethau niferus y mae Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn cael eu gweld yn ei wneud yn dda.
- 2.10 Wrth fynd ati i ystyried y broses, roedd yr Aelodau o'r farn bod angen i brosiectau craffu'r dyfodol gael amserlen sydd wedi'i diffinio'n glir a'i chytuno ynghyd ag ymrwymiad gan bawb sy'n ymwneud â'r mater i gyflawni yn unol â'r terfynau amser y cytunwyd arnynt.

### 3. Cyflwyniad

Yn draddodiadol, nid yw Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol wedi cael arfer craffu ar y cyd, er bod gan sawl APC y Deyrnas Unedig bwyllgorau archwilio. Mae cyfansoddiad yr APCau, gydag absenoldeb gweithrediaeth, yn darparu her am mai'r Aelodau i gyd yw 'yr Awdurdod', ac mae pob penderfyniad yn cael ei wneud drwyddo. Nid oes gofyniad cyfreithiol ar yr APCau i ymgorffori craffu yn eu swyddogaethau, mae ei botensial wedi'i gydnabod fel yr amlygwyd yn yr adroddiad *Ar Draws Ffiniau (Gwasanaethau Lleol sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd)* gan Lywodraeth Cymru:

“Dylai'r holl sefydliadau cyhoeddus groesawu proses graffu fel modd o wella a dysgu.” (Paragraff 3.23)

“Dylid anelu at roi heriau effeithiol i ddiwylliant sefydliadol ac archwilio a yw gwasanaethau cyhoeddus gyda'i gilydd yn cyflawni'r canlyniadau dymunol. Gellid gwella'n sylweddol ar y broses graffu drwy gynnwys defnyddwyr gwasanaethau, eiriolwyr a chynghorwyr arbenigol.” (Paragraff 3.24)

“Gall cynnal trosolwg o bolisïau a chraffu arnynt cyn gwneud penderfyniadau yn eu cylch wella ansawdd y broses o wneud penderfyniadau.” (Paragraff 3.25)

Gyda hyn mewn golwg, cytunodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP) ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE) i gynnal adolygiad craffu ar y cyd i ganfod pa mor effeithiol yw polisïau a champau gweithredu Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol o ran cefnogi'r broses o greu swyddi ac economi sy'n ffynnu.

Cafodd Aelodau o bob APC eu neilltuo i'r Cyd-Bwyllgor Craffu ac fe gynhaliwyd ei gyfarfod cyntaf ym mis Chwefror 2014. Mae amlinelliad o'r gweithgareddau a'r prosesau a wnaed yn ymddangos isod ac mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi fel crynodeb â'r nod o'i gyflwyno, ynghyd â'i argymhellion, i'r ddau APC i'w hystyried a phenderfynu ar unrhyw gamau gweithredu sy'n cael eu hystyried yn ddymunol.

Wrth gyflwyno'r adroddiad hwn, dymuna'r Cyd-Bwyllgor Craffu gydnabod a diolch i'r nifer fawr o bobl a sefydliadau sydd wedi cyfrannu at ei waith gan gynnwys swyddogion o'r ddau APC ac yn enwedig y nifer fawr o randdeiliaid sydd wedi rhannu eu barn ac sydd wedi cyflwyno eu tystiolaeth. Mae gwerth yr adroddiad yn ddibynol iawn ar ansawdd a thrylwyredd y cyflwyniadau ac er bod y Pwyllgor yn cydnabod nad oedd modd cynnal arolygon meintiol ystadegol gadarn mae lefel y ddealltwriaeth o sylwadau'r sampl ar draws sbectwm eang wedi, rydym yn credu, ein galluogi i gael gwell dealltwriaeth o'r safbwynt a'r casgliadau cadarn a'r argymhellion y gellir eu cefnogi gan yr hyn rydym wedi'i sefydlu – ac mae llawer ohono wedi'i amlinellu'n fanwl yn yr atodiadau.

#### 4. Amcanion

Prif amcan yr ymarfer hon oedd canfod pa mor llwyddiannus yw polisiau a gwaith Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol o ran cefnogi gweithgarwch economaidd yn y Parciau Cenedlaethol.

Amcan cyntaf y prosiect oedd canfod pa mor effeithiol yw polisiau'r Parc Cenedlaethol o ran cefnogi busnesau micro h.y. y rhai â llai na 10 o weithwyr. Penderfynwyd yn ddiweddarach i gynnwys busnesau bach a chanolig (BBaCh) oherwydd teimlwyd na fyddai'r cylch gorchwyl gwreiddiol yn llunio adlewyrchiad clir o raddau llawn y gweithgarwch economaidd yn y Parciau Cenedlaethol.

Ar ôl sefydlu'r cylch gwaith, penderfynwyd y dylai'r Aelodau ymgymryd ag ymchwiliad â ffocws ar raddfa fach i weithgarwch busnes. Byddai hyn yn cynnwys cael tystiolaeth, ar lafar ac yn ysgrifenedig, gan fusnesau o wahanol sectorau ac o amrywiol feintiau a champau datblygu, awdurdodau lleol, gwleidyddion, cyrff sy'n cynrychioli busnesau, Llywodraeth Cymru ac adrannau perthnasol Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol. Fodd bynnag, dylid nodi, er bod y busnesau wedi'u dewis yn fwriadol i gwmpasu ystod eang o sectorau, dim ond sampl ydyn nhw.

Amcan yr ymchwiliadau hyn oedd:

- Darparu mewnwelediad i'r amrywiaeth o weithgarwch economaidd yn y ddau Barc Cenedlaethol;
- Gwerthuso effaith polisiau'r Parciau Cenedlaethol ar weithgarwch economaidd;
- Gwneud casgliadau perthnasol yn seiliedig ar y cyflwyniadau a ddaeth i law;
- Cyflwyno ein casgliadau ac argymhellion i Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol.



## 5. Cyfrifoldebau Cyfredol

### **Cylch Gwaith a Chyfrifoldebau Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol**

Mae pwrpasau Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol wedi'u diffinio fel a ganlyn yn Neddf yr Amgylchedd, 1995:

1. Gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol.
2. Hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd fwynhau a deall nodweddion arbennig y Parc.

Mae gan Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol hefyd ddyletswydd i feithrin lles economaidd a chymdeithasol y cymunedau lleol yn y Parc.

### **Cyfrifoldebau Datblygu Economaidd Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol:**

Mae gan yr APCau ddyletswydd i "*feithrin lles economaidd a chymdeithasol y cymunedau lleol yn y Parc Cenedlaethol...*" wrth gyflawni'r pwrpasau hyn. Mae'r ddyletswydd hon wedi'i nodi yn Neddf yr Amgylchedd 1995 Rhan III – Erthygl 62(1)<sup>1</sup> y Parciau Cenedlaethol. Wrth gyflawni eu swyddogaethau mae'n rhaid i'r APCau hefyd gynhyrchu Cynllun Rheolaeth y Parc Cenedlaethol<sup>2</sup>; hwn ynghyd â'r gofyniad i gynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol (Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004) ynghyd â'i arfarniadau amgylcheddol a chynaliadwyedd cysylltiedig yw'r strategaethau statudol a ddefnyddir i gyflawni'r pwrpasau a'r ddyletswydd economaidd.

### **Cyfrifoldebau Datblygu Economaidd yr Awdurdodau Lleol:**

Mae gan Awdurdodau Lleol "rym statudol i hyrwyddo lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol eu hardaloedd sy'n cael ei fynegi drwy'r Strategaeth Gymunedol fel arfer". Mae gan yr Awdurdod Lleol hefyd "ddyletswydd i baratoi Strategaeth Gymunedol a ddylai ddod â phob partner ynghyd a rhoi gweledigaeth a chyfeiriad hirdymor i bob rhan o'r ardal leol. Mae'r (*Awdurdod Lleol*) hefyd yn paratoi nifer o strategaethau pwysig eraill gan gynnwys Cynllun Datblygu Lleol (*ar gyfer yr ardal ddaearyddol berthnasol*), Strategaeth ar gyfer Plant a Phobl Ifainc yn ogystal â Strategaeth Iechyd a Lles."<sup>3</sup>

Mae'r grym a'r ddyletswydd a ddisgrifir uchod wedi'u nodi yn Neddf Llywodraeth Leol 2000 yn erthyglau 2(1)<sup>4</sup> a 4(1)<sup>5</sup> – Rhan 1: Hyrwyddo lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ac ati.

---

<sup>1</sup> Erthygl 62(1) "Duty of certain bodies and persons to have regard to the purposes for which National Parks are designated" Deddf yr Amgylchedd 1995 <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1995/25/section/62>

<sup>2</sup> Erthygl 66(1) "National Park Management Plans" <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1995/25/section/66>

<sup>3</sup> (CLILC. (dyddiad creu'r dudalen yn anhysbys). Llywodraeth leol yng Nghymru. Ar gael: <http://www.wlga.gov.uk/local-government-in-wales>. Agorwyd ddiwethaf 10 Ebrill 2015.)

<sup>4</sup> Erthygl 2 "Promotion of well-being" Deddf Llywodraeth Leol 2000: <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/22/section/2>

Ym mis Mehefin 2012 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ganllaw newydd o'r enw "Cydamcanu – Cydymdrechu"<sup>6</sup> sy'n manylu ar y gofynion i'r Byrddau Gwasanaethau Lleol gynhyrchu Cynlluniau Integredig Sengl (CIS) ar gyfer eu hardaloedd (erbyn mis Ebrill 2013). Mae CISau yn cyfuno'r gofyniad deddfwriaethol ar gyfer y canlynol: Strategaethau Cymunedol, Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc, Cynlluniau Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Lles a Strategaethau Diogelwch Cymunedol.

Ar hyn o bryd mae'r cylch gwaith datblygu economaidd yn cael ei gadw gan yr Awdurdodau Lleol cyfansoddol perthnasol ac mae pob un ohonynt yn rheoli'r adnoddau sy'n angenrheidiol i feithrin gweithgarwch economaidd.

### **Yr Adolygiad o Dirweddau Dynodedig**

Cyhoeddodd yr Adolygiad o Dirweddau Dynodedig a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ei adroddiad Rhan 1 ym mis Mawrth 2015. Argymhellodd yr adroddiad adolygu Pwrpasau Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol ac awgrymodd y canlynol:

- Gwarchod a gwella rhinweddau tirwedd a morwedd unigryw'r ardal.
- Hybu lles ffisegol a meddyliol drwy fwynhau tirwedd yr ardal.
- Hybu ffurfiau cynaliadwy o reoli adnoddau naturiol a datblygiad economaidd a chymunedol sy'n cefnogi treftadaeth ddiwylliannol yr ardal.

Bydd yn rhaid i Lywodraeth Cymru benderfynu a ddylid derbyn yr argymhellion hyn ai peidio. Disgwylir y bydd angen deddfwriaeth sylfaenol ar gyfer unrhyw newidiadau yn y Pwrpasau.

Dechreuodd ein gwaith fel Cyd-Bwyllgor Craffu o fewn y cyd-destun hwn.

---

<sup>5</sup> Erthygl 4 "Strategies for promoting well-being" Deddf Llywodraeth Leol 2000:  
<http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/22/section/4>

<sup>6</sup> Cydamcanu – Cydymdrechu (Llywodraeth Cymru 2012)  
<http://gov.wales/topics/improving-services/local-service-boards/key-docs/shared-purpdel/?lang=en>

## 6. Proses

Mae Cyd-bwyllgor Craffu Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn dilyn patrwm Craffu a sefydlwyd gan Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r rhain wedi cynnwys dau adolygiad craffu ar y cyd a gynhaliwyd gan APCAP ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ar y Gronfa Datblygu Cynaliadwy ac ar Reoli Hawliau Tramwy. Roedd yna hefyd adolygiad craffu yn seiliedig ar "Darparu polisïau Tai Fforddiadwy" a gynhaliwyd gan APCAP, a gwblhawyd ym mis Medi 2013.

Gwnaed y penderfyniad i ymgymryd â gwaith Craffu ar y Cyd ar yr economi yng nghyfarfodydd APCAP ar 24 Ebrill 2013 ac APCE ar 17 Gorffennaf 2013. Roedd disgwyl i'r Pwyllgor gasglu tystiolaeth ac adrodd am eu canfyddiadau, gydag argymhellion, i Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol perthnasol eu hystyried.

Cyfarfu'r Cyd-bwyllgor Craffu ar 21 Chwefror 2014 pan gynhaliwyd yr ymarfer cwmpasu cychwynnol. Nodwyd mai hwn oedd profiad cyntaf Aelodau APCE o'r broses graffu, a darparwyd amlinelliad cryno o'r fethodoleg craffu. Yn ystod y cyfarfod hwn, penderfynwyd cynnal adolygiad i ganfod pa mor llwyddiannus yw polisïau Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol o ran cefnogi'r broses o greu swyddi mewn busnesau micro (busnesau sy'n cyflogi llai na 10 o bobl). Cafodd nifer o sefydliadau busnes, sefydliadau ac unigolion perthnasol eu pennu a byddir yn casglu tystiolaeth am yr economi ganddynt hefyd.

Cynhaliwyd yr ail gyfarfod ar 17eg Medi 2014, pan benderfynwyd ehangu cylch gorchwyl y Pwyllgor Craffu i gynnwys Mentrau Bach a Chanolig eu Maint (BBaCh) a nifer fach o fusnesau mwy i ddangos cyd-destun ehangach gweithgaredd economaidd.

Cytunwyd ar Fframwaith Cyfweliad a fyddai'n cael ei ddefnyddio fel sail ar gyfer pob Aelod o'r Pwyllgor i gyfweld tri busnes. Er bod hwn yn ddata ansoddol, ystyriwyd, o ystyried yr ystod a'r math o fusnesau a ddewiswyd, y bydd y wybodaeth yn rhoi cipolwg ddilys ar economi'r Parc Cenedlaethol.

Cynhaliwyd y trydydd cyfarfod ar 20 Ionawr, 2015 a thrafodwyd canlyniadau cyfweliadau'r Aelodau a oedd ar gael yn awr, ac fe ddechreuodd nifer o themâu a oedd yn ymwneud â gweithgarwch economaidd a Pharciau Cenedlaethol ddod i'r amlwg:

- Effaith y broses cynllunio;
- Y ffaith bod cysylltiadau da gyda staff a phrosesau clir a gweithdrefnau Parc Cenedlaethol yn bwysig o ran hyder busnesau yn yr Awdurdodau
- Yr oedd yn ymddangos fod gan fusnesau bach iawn ddiffyg capasiti, dealltwriaeth o / neu anhawster wrth ymgysylltu ag Awdurdodau Parc Cenedlaethol;

- Cymeradwyaeth glir, a chefnogaeth tuag at waith yr APCau wrth warchod y dirwedd ac elfennau o'l hunaniaeth diwylliannol.

Fel modd o ddeall cyd-destun gweithgarwch economaidd ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro, mae cyfarfod wedi'i gynnal rhwng yr Aelodau APCAP y Cyd-Bwyllgor Craffu a Swyddogion ac Aelodau'r Cyngor Sir Penfro er mwyn trafod eu dulliau gweithredu tuag at yr economi a gweithgarwch busnes. Cytunwyd y byddai APCE yn cynnal cyfarfod tebyg gyda Chyngor Sir Gwynedd.

Gwnaed trefniadau i gynnal dwy sesiwn tystiolaeth lafar, un yn Sir Benfro ac un arall yn Eryri. Mae'r sefydliadau a'r unigolion a gafodd eu cyfweld yn cynnwys nifer o sectorau megis twristiaeth, amaethyddiaeth, manwerthu / siambrau masnach a gweithgareddau awyr agored. Byddai Aelodau Seneddol Lleol ac Aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol hefyd yn cael eu gwahodd i roi eu barn ar eu canfyddiad o effaith polisïau Parc Cenedlaethol ar weithgarwch economaidd eu hetholwyr.

Pedwerydd cyfarfod o'r Pwyllgor oedd sesiwn dystiolaeth lafar a fynychwyd gan Aelodau APCAP ac un Aelod APCE ar 11 Mawrth 2015. Yr oedd y rhai oedd yn cyflwyno tystiolaeth wedi cael manylion y materion y mae'r Pwyllgor yn dymuno mynd i'r afael â hwy ymlaen llaw. Cafwyd tystiolaeth gan nifer o sefydliadau (gweler Atodiad B1).

Roedd y pumed cyfarfod ar 25 Mawrth 2015 yn cynnwys sesiwn arall o dystiolaeth lafar, y tro hwn yn Eryri, pan gyflwynwyd tystiolaeth mewn dau gategori; Y Sector Defnydd Tir a'r Sector Hamdden Awyr Agored (gweler Atodiad B2).

Cynhaliwyd y chweched cyfarfod ar y 17 Ebrill 2015 pan gyfarfu aelodau o APCAP ac APCE Aelodau i ystyried y dystiolaeth hyd yn hyn ac i drafod casgliadau ac argymhellion posibl.

Cyfarfu'r Cyd-Bwyllgor Craffu ar 6 Mai Erbyn 2015 pan gafodd yr adroddiad drafft ei ystyried a chytunwyd y dylid y camau olaf ohono gael ei gwblhau drwy e-bost a thrafodaeth bellach.

Cynhaliwyd cyfarfod olaf ar 8 Gorffennaf 2015, lle dirprwywyd y ddau Brif Weithredwyr o'r ddau APC i wneud newidiadau terfynol i'r adroddiad yn unol â'r farn a fynegwyd gan Aelodau yn y cyfarfod.

## 7. Canfyddiadau

Cynhaliwyd nifer o gyfweiliadau wyneb yn wyneb gyda busnesau unigol neu gyda sefydliadau neu unigolion sy'n eu cynrychioli neu'n eu cefnogi. Paratowyd y fframwaith cyfweld a oedd yn arwain y trafodaethau hyn ymlaen llaw er mwyn asesu a chasglu gwybodaeth a barn ar draws nifer o themâu penodol. Mae'r canlynol yn crynhoi'r prif ganfyddiadau.

### 7.1 Ystod a mathau o fusnesau yn y Parciau Cenedlaethol

Roedd y mathau o fusnesau a oedd wedi cymryd rhan yn yr ymarfer hwn yn amrywiol ac yn cynnwys nifer o fusnesau twristiaeth neu dwristiaeth uchelgeisiol, cwmnïau peirianeg, cwmni ynni byd-eang, gweithrediadau amaethyddol a mentrau cymdeithasol. Roedd cyfanswm o 27 o fusnesau, 10 sefydliad cynrychiadol, dau awdurdod lleol, un Aelod Cynulliad Cenedlaethol Cymru a dau Aelod Seneddol wedi cyflwyno tystiolaeth. Er bod hyn, o ystyried natur yr ymarfer, yn cynrychioli canran fach iawn o'r busnesau sy'n gweithredu yn y Parciau Cenedlaethol, cafodd y busnesau eu dewis yn fwriadol er mwyn adlewyrchu'r amrywiaeth o weithgarwch economaidd ledled y Parciau. I roi persbectif ehangach mae *Adroddiad Gwerthfawrogi Parciau Cenedlaethol Cymru* (Medi 2013) yn nodi bod oddeutu 1,390 o unedau busnes ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro sy'n cyflogi 7,000 o bobl, gydag amgylchedd y Parc Cenedlaethol yn cefnogi 3,532 o'r swyddi hyn yn uniongyrchol a 529 arall yn anuniongyrchol. Yn Eryri amcangyfrifir bod 1,830 o unedau busnes yn cyflogi 8,800 o bobl, â 3,700 o'r rheiny'n cael eu cefnogi'n uniongyrchol a 700 arall yn anuniongyrchol.

Er bod y proffil economaidd yn y ddau Barc Cenedlaethol wedi'i anelu'n bendant tuag at fusnesau bach a micro yn enwedig yn y sector twristiaeth, nid yw hyn bob amser yn wir. Mae rhai o'r busnesau mwy yn arweinwyr dosbarth sy'n cystadlu'n llwyddiannus â chwmnïau adnabyddus iawn yn y Deyrnas Unedig. Er enghraifft, mae un ymatebydd yn gyrchfan egwyl fer gyda dros 500 o staff, nifer o leoedd gwely o 1,350 (i ehangu i 1,800 cyn bo hir) a deiliadaeth gydol y flwyddyn o 95%. Mae'r budd economaidd i'r ardal leol a ddarperir gan y busnes hwn ar ei ben ei hun drwy wariant ymwelwyr a'i gadwyn gyflenwi ei hun (i gyd yn lleol neu yng Nghymru) yn hynod arwyddocaol.

Ar wahân i'r uchod roedd maint y cwmnïau a gafodd eu harchwilio'n amrywio o fusnesau micro sy'n cyflogi dim ond un neu ddau i BBaCh mwy o faint gyda hyd at 100 o staff. Mae amrywiad tymhorol yn gyffredin ac mae nifer ohonynt yn bendant yn fusnesau teulu. Roedd llawer wedi bod mewn busnes yn y Parc Cenedlaethol am rai blynyddoedd.

Roedd nifer o fusnesau'n ymlafnio â'r dirywiad yr economi ac felly roedd rhai yn ceisio arallgyfeirio fel ymateb strategol a symud i feysydd menter newydd.

## 7.2 Cymorth gan y sector cyhoeddus

Mae nifer o fusnesau wedi derbyn rhyw fath o gymorth gan y sector cyhoeddus, sy'n cynnwys cymorth gan Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol gyda grant Cronfa Arbrofol Eryri (CAE). Er eu bod yn ddefnyddiol ac yn gefnogol ar y cyfan, roedd y busnesau lleiaf yn aml yn darganfod nad yw eu hanghenion datblygu busnes yn cael eu deall yn llwyr neu'n cael eu diwallu gan sefydliadau sector cyhoeddus a chymorth busnes eraill.

Roedd y newidiadau a oedd yn digwydd ym mholisiâu caffael y sector cyhoeddus ehangach, ac yn wir mewn rhai achosion ymysg cwmnïau mwy yn y sector preifat yn ei gwneud hi'n anodd neu hyd yn oed yn amhosibl i rai busnesau bach gynnal eu perthnasau cyflenwi lleol gan fod gwasanaethau'n cael eu rhyddfrefinio neu gontractau'n cael eu cyfuno â gofynion tendro mwy, lle nad oedd modd i fusnesau bach iawn fodloni'r amodau.

## 7.3 Sylfaen Cwsmeriaid

Er bod yr holl fusnesau lle cafwyd sylwadau ohonynt wedi eu lleoli mewn Parc Cenedlaethol, roedd gan y mwyafrif sylfaen cwsmeriaid a oedd yn ymestyn y tu hwnt i ffiniau'r Parc, yn aml ar draws Cymru a'r DU.

Ychydig iawn oedd yn dibynnu ar eu lleoliad mewn Parc Cenedlaethol fel rhan o'u model busnes ac roedd y rhai a wnaeth yn gweld eu leoliad mewn Parc Cenedlaethol fel rhyw fath o fantais ac efallai yn gwneud defnydd o'r ffaith worth farchnata. Fodd bynnag, yr oedd hyn yn cael ei orbwyso gan eraill, a oedd yn teimlo ei fod yn anfantais canfyddedig i gael eu lleoli yn ac yn rhedeg eu busnes mewn Parc Cenedlaethol. Er mewn rhai achosion (busnesau bach iawn) yr oedd hyn yn cael ei dymheru gan y manteision personol a ffordd o fyw a ddaw gyda'r lleoliad. Roedd rhai diwydiannau yn seiliedig ar y tir naill ai'n niwtral, neu â manteision tybiedig o gael eu lleoli o fewn Parc Cenedlaethol.

## 7.4 Trafodion ffurfiol gyda Pharciau Cenedlaethol

Yr oedd barn ymatebwyr yn amrywio yn ôl y cymorth neu'r ymgysylltiad gydag Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol. Gall hyn yn fras gael ei grynhoi fel cadarnhaol o ran ymgysylltu â Wardeiniaid, Ceidwaid a Swyddogion Cadwraeth, tra roedd y sylwadau yn fwy negyddol mewn perthynas â chynllunio. Mae hyn yn wahanol i adborth boddhad defnyddwyr yn y ddau Awdurdod, fel y dangosir gan arolygon defnyddwyr yn Eryri lle, dros y 3 blynedd ddiwethaf, yr oedd rhwng 90% a 95% o ddefnyddwyr yn dangos eu bod naill ai'n fodlon neu'n fodlon iawn ar y gwasanaeth cynllunio a dderbyniwyd ganddynt. Anfonir holiaduron boddhad cwsmeriaid at bob defnyddiwr, waeth beth yw canlyniad eu ceisiadau.

Mae'r sylwadau sy'n ymwneud â chynllunio hefyd yn cael eu dylanwadu gan ganlyniadau, gyda phrofiadau cadarnhaol yn haeddu dim ond sylw wrth basio, er bod beirniadaeth gryf ac, ar adegau, emosiynol pan oedd y canlyniad yn llai ffafriol i'r ymgeisydd. Mae hyn yn gyson â'r canfyddiad gan ddefnyddwyr ynghylch

gwasanaethau Awdurdodau Cynllunio Lleol(Cyf: Cymdeithas Cymru Swyddogion Cynllunio 2014/15).

Un sector benodol lle mae cyswllt rheolaidd gydag Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yw ffermio. Ar lefel weithredol, mae cefnogaeth a chyd-ddealltwriaeth rhwng, er enghraifft Ceidwaid, swyddogion perthnasol a ffermwyr. Ar lefel polisi mae llawer o gytundebau rheoli yn arddangos y ddau yn ôl eu cynnwys, y ffaith eu bod yn cael ymrwymo iddynt yn barod yn aml gan eu hirhoedledd sy'n dangos eu bod yn darparu gwerth gwirioneddol i'r ddwy ochr.

Mae cysylltiadau anffurfiol yn aml yn gweithio'n dda iawn rhwng staff y Parc Cenedlaethol ar lawr gwlad a busnesau sy'n gweithredu o fewn y Parciau. Enghraifft o lawer o sylwadau tebyg yw:

*“Mae'r Tîm Wardeinio yn ardderchog gyda pherthynas dda iawn. Ecolegydd da iawn.”*

Nododd nifer o ymatebwyr (gan gynnwys gwleidyddion) eu bod wedi canfod bod y Prif Weithredwyr ac Uwch Swyddogion wedi mabwysiadu ymagwedd bragmataidd iawn ac ymagwedd synnwyr cyffredin. Roedd hwn yn ddull llawer yn fynegi y dylai'r Awdurdod cyfan ei arddel, fodd bynnag, ar rai achlysuron ystyriwyd bod rhai aelodau o staff yn anhyblyg. Awgrymwyd y dylai staff gael eu hannog i fabwysiadu safbwynt mwy adeiladol drwy awgrymu opsiynau eraill lle bo'n briodol yn hytrach na gwrthod ceisiadau.

#### 7.5 Ffyrdd y gall Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol wneud mwy i helpu busnesau yn y Parc i ffynnu ac ehangu

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn ymwneud â'r angen i wella sut mae busnesau'n cael eu cefnogi i ymgysylltu â'r broses gynllunio.

##### 7.5.1 Gweithio drwy'r System Gynllunio

Clywsom fod rhai o'r busnesau lleiaf a / neu'r rhai sy'n dod i gysylltiad â'r broses gynllunio heb gymorth proffesiynol, ac yn aml am y tro cyntaf, yn teimlo eu bod o dan anfantais wrth gysylltu â swyddogion cynllunio o ystyried eu diffyg profiad yn y fath bethau a'r cyngor cyfyngedig sydd ar gael. Er y bydd llawer yn ceisio goresgyn hyn drwy ddefnyddio asiant, nid yw hyn bob amser yn llwyddiannus gan nad yw asiantau bob amser yn ddigon gwybodus ychwaith. Dylid nodi bod y ddau APC yn cynnig gwasanaeth cyn ymgeisio yn rhad ac am ddim. Nodwyd bod materion capasiti gan fusnesau bach o ran ymgysylltu â chynllunio yn broblem.

Lleisiwyd rhywfaint o bryderon ynghylch annigonolrwydd canfyddedig y broses gynllunio. Er eu bod yn derbyn bod angen “*polisiâu*”, ym marn rhai maent yn rhy anhyblyg, ac yn cael eu gorfodi'n rhy lym. Mae yna hefyd farn gyffredinol nad yw polisiâu o'r fath bob amser yn cael eu dehongli'n gyson. Roedd gan fusnesau bach y canfyddiad mai ychydig iawn o ddylanwad sydd ganddynt ar y system gynllunio tra bo busnesau mawr eraill yn fwy effeithiol ac yn cael sylw a chwarae teg.

Clywsom bryderon fod diffyg tryloywder yn y broses a bod parhad swyddogion yn ffactor arwyddocaol.

Er y gwnaed cymariaethau anffafriol ag awdurdodau cynllunio eraill, cyflwynodd y swyddogion enghreifftiau o sut maent wedi cefnogi busnesau i fynd drwy'r broses gynllunio a sicrhau canlyniadau llwyddiannus. Mae'r ffaith bod dros 90% o geisiadau a gyflwynir i'r ddau APC yn cael eu cymeradwyo yn cefnogi'r farn hon. Ar ben hynny, cydnabyddir bod y ddau APC wedi gwella ansawdd eu gwasanaethau cynllunio yn sylweddol dros y tair blynedd diwethaf, tra bo nifer o'r enghreifftiau negyddol a gyflwynwyd, ond nid pob un, wedi digwydd cyn y dyddiad hwn. Mae Arolwg Boddhad Cwsmeriaid Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru 2014-15 a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn dangos bod y cyfraddau bodlonrwydd ar gyfer APCAP ac APCE yn llawer uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Efallai mai'r broblem go iawn yma yw'r bwch rhwng canfyddiad a realiti. Fodd bynnag, ni all yr un o'r APC fod yn hunanfodlon o ran ei berfformiad yn y gwasanaeth ac awgrymodd rhai busnesau fod angen i'r APCau ystyried ffyrdd gwahanol o ymgysylltu.

Roedd rhai o'r cyfranogwyr wedi dweud bod y broses gynllunio ei hun yn aml yn ddryslyd a "*ddim yn brofiad da*". Fodd bynnag, mae angen cydnabod bod prif elfennau'r system gynllunio, sef y broses a'r polisiau, yn cael eu gosod ar lefel genedlaethol ac yn berthnasol i bob Awdurdod Cynllunio. Felly, byddai nifer o'r pryderon hyn yn gymwys i bob Awdurdod Cynllunio ac nid yr APCau yn unig. Er bod rhai cymariaethau anffafriol ag Awdurdodau Cynllunio eraill, mae ystadegau Llywodraeth Cymru yn dangos bod y ddau APC yn perfformio'n well o lawer na'r Awdurdodau Cynllunio agosaf atynt; serch hynny, mae angen ymgymryd â rhagor o waith i weld a oes gwahaniaethau sylweddol yn ansawdd y gwasanaethau wrth gymharu'r gwasanaeth presennol a ddarperir gan y ddau APC ag eraill. Mae'r ystadegau perfformiad cynllunio a gyhoeddwyd yn fwyaf diweddar gan Lywodraeth Cymru yn dangos bod y ddau Awdurdod ymhlith chwarterl uchaf yr Awdurdodau sy'n perfformio yng Nghymru.

I grynhoi, mae llawer o'r rhai a fu'n ymwneud â'r broses gynllunio yn credu bod angen i'r APCau fod yn fwy hyblyg a chynhwysol yn y ffordd maent yn delio â busnesau bach iawn er mwyn eu meithrin a sicrhau eu bod yn goroesi yn y Parc Cenedlaethol.

Dylid nodi, fodd bynnag, nad yw rhai o'r anhawster a brofir â'r broses gynllunio yn Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol bob amser i lawr i'r APC ei hun ond gydag asiantaethau eraill y mae'n rhaid i'r ymgeisydd ddelio â hwy er mwyn cydymffurfio â gofynion y broses gynllunio, er enghraifft yr ymgylgoreion statudol. Yr oedd aelodau APCAP yn cydsynio â hyn oherwydd yr oedd ganddynt gais cynllunio a gafodd ei ohirio yn ddiweddar oherwydd y diffyg gwybodaeth gan ddau o ymgylgoreion statudol. Mynegodd yr Aelodau y gobaith y bydd y newidiadau a



gyflwynwyd yn sgil y Ddeddf Cynllunio ddiweddar yn cael effaith gadarnhaol ar wybodaeth a ddarparwyd gan ymgylgoreion statudol.

Soniwyd hefyd y gall polisiâu cynllunio Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol effeithio ar effeithiolrwydd rhannau eraill o'r sector cyhoeddus o ran cefnogi'r economi. Er enghraifft, dywedodd un ymatebwr:

*“O ran twristiaeth, mae'n bwysig iawn bod y ffyrdd yn cael eu gwella a'u hadnewyddu gan y Cyngor heb anhawster cynllunio o'r Parc.”*

Gan nad yw Awdurdod Parc Cenedlaethol yn awdurdod priffyrdd, mae gwelliannau ffyrdd yn cael eu darparu drwy gyfrwng camau gweithredu a pholisïâu cynlluniau eraill a gynhyrchir gan eraill megis Llywodraeth Cymru er fe all Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol roi sylwadau a cheisio dylanwadu ar ddatblygiadau isadeiledd o'r fath. Yn fwy uniongyrchol gall seilwaith rheoledig er enghraifft, gael ei weld fel tir yr effeithir arno gan gynlluniau ffyrdd a beicio Llywodraeth Cymru a'r Cyngor Sir ac maent yn cael eu diogelu yng Nghynllun Datblygu Lleol yr Awdurdod rhag datblygiadau eraill a fyddai'n debygol o amharu ar eu gweithrediad. Mae nifer o enghreifftiau lle mae APCau wedi gweithio mewn modd gadarnhaol â'r Awdurdodau perthnasol i sicrhau seilwaith priodol ar gyfer yr ardaloedd ee gwelliannau i'r A470, A40 a Openreach - er mwyn cyflwyno band eang.

Oddi wrth gynllunio roedd yna nifer o awgrymiadau ynghylch sut y gallai Awdurdodau Parciau Cenedlaethol wella eu cefnogaeth i fusnesau trwy gyfrwng gwahanol ddulliau. Mae APCau yn cefnogi prosiectau strategol ar lefel leol ee drwy gyllid y Cynllun Datblygu Gwledig. Yn Eryri fe gafodd y cysgyniad o gael "Canolfannau Rhagoriaeth Eryri" ei gefnogi gan APC, ac mae Arfordir Penfro wedi cymryd rôl arweiniol o ran hyrwyddo'r ardal fel cyrchfan dwristiaeth.

Mae busnesau gweithgaredd twristiaeth yn dibynnu ar fynediad at, a chynnal a chadw, yr isadeiledd hanfodol y maent yn dibynnu arno - yn y bôn y tirweddau deniadol, heriol a hygyrch. Felly mae cynnal a chadw llwybrau, yn enwedig Llwybr Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro yn wasanaeth hanfodol a ddisgwyllir ac, yn wir, fe gydnabyddir yn gyffredinol fel un a ddarperir yn arbennig o dda gan yr Awdurdod. Mae pryderon ynghylch y siltio sy'n digwydd yn Llyn Tegid a allai effeithio ar y gweithgareddau dŵr sy'n seiliedig ar y safle.

Barn a ddelir gan nifer sylweddol o fusnesau oedd y dylai staff mewn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol geisio dod i adnabod y busnesau lleol yn well a deall eu hanghenion a sut y maent yn gweithredu a'r pwysau sydd arnynt ac i'r gwrthwyneb. Cafwyd awgrymiadau hyd yn oed y dylai staff gyfnewid swyddi gyda, neu gysgodi dynion busnes a merched i gynorthwyo cyd-ddealltwriaeth.

Mae llawer o'r busnesau y buom ni'n siarad â nhw, yn enwedig y rhai mwy yn y sector dwristiaeth a lletygarwch wedi myengi y byddent yn croesawu cael cyswllt

uniongyrchol gyda swyddogion APC er mwyn iddynt ddeall eu gofynion busnes yn fwy effeithiol.

#### 7.6 A oes unrhyw fantais busnes o fod mewn Parc Cenedlaethol?

Mae'r fantais o fod mewn Parc Cenedlaethol yn dibynnu ar natur y busnes. Fel y nodwyd uchod, mae lleoliad yn y Parc Cenedlaethol yn bwysig iawn ar gyfer y rhan fwyaf o fusnesau twristiaeth yr ymgynghorwyd â hwy, tra bo nifer o'r busnesau sy'n llai dibynnol ar y dirwedd yn ystyried bod lleoliad mewn Parc Cenedlaethol yn rhywbeth niwtral neu'n anfanteisiol. Pryderon ynghylch canlyniad delio â'r APC mewn cyd-destun cynllunio a nodwyd fel y prif reswm gan rai busnesau o beidio â gweld budd o fod mewn Parc Cenedlaethol.

Roedd dau fusnes mawr gyda safleoedd ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro a'r tu allan iddo wedi datgan, â phopeth yn gyfartal, y byddent yn penderfynu lleoli eu busnesau y tu allan i'r Parc Cenedlaethol. Ond, yn y ddau achos dan sylw fe ddylid nodi er eu bod wedi nodi hynny fel ffafriaeth, y gwir amdani yw eu bod wedi penderfynu lleoli eu busnesau yn rhannol o fewn y Parc Cenedlaethol.

Ar ben hynny, mae nifer o ymatebwyr yn cydnabod er nad yw eu busnes o bosibl yn elwa mewn unrhyw ffordd, maent hwy a'u teuluoedd yn elwa ar fyw yn y Parc Cenedlaethol oherwydd y dirwedd a'r amgylchedd ac ansawdd bywyd yn gyffredinol. Yn wir, â mynd yn ôl i safbwynt busnes, mae'r buddion ansawdd bywyd yn cael eu gweld yn gadarnhaol gan rai fel modd o helpu i ddenu a chadw staff medrus a gwerthfawr.

#### 7.7 Y ffactorau yr oedd y cyfweleion yn ystyried yw'r rhai pwysicaf i'w busnesau

Roedd y fframwaith cyfweld yn disgwyl i'r ymatebwyr nodi pa rai o'r ffactorau isod oedd y pwysicaf i'w busnes. Y ffactorau a restrwyd oedd:

- Tirwedd
- Natur
- Statws / brand y Parc Cenedlaethol
- Cyfleoedd hamdden
- Iaith a diwylliant Cymru
- Ardal a ddiogelir gan gynllunio
- Ansawdd bywyd
- Arall

Gan gyfran fawr barnwyd mai'r ffactorau pwysicaf oedd tirwedd, natur ac ansawdd bywyd:

*“mae'r dirwedd a natur yn denu twristiaid ac mae ansawdd bywyd yn arwyddocaol i gadw staff tymor hir” (D.3.11)*

Tirwedd yw:

*“yr hyn sy'n gosod y lleoliad ar wahân ac yn rhoi iddo fantais yn y farchnad” ac mae ansawdd bywyd “yn fudd aruthrol” (D.3.13)*

Roedd brand y Parc Cenedlaethol hefyd yn cael ei ystyried gan y rhan fwyaf o ymatebwyr fel mantais arbennig i fusnesau sy'n gweithredu yn y sector twristiaeth. Ystyriwyd ei fod:

*“yn sail i atyniad ac ansawdd yr ardal sy'n bwysig ar gyfer busnes” (D.3.13)*

Mae hysbysebu'r Parc Cenedlaethol yn codi ymwybyddiaeth o harddwch y Parciau Cenedlaethol sy'n helpu i hyrwyddo busnesau:

*“mae'r ffaith ein bod mewn Parc Cenedlaethol yn bwysig i'r busnes (gwesty) hwn oherwydd ei fod yn yr unig Parc Cenedlaethol arfordirol ym Mhrydain” (D.3.9)*

Er mawr syndod, nodwyd hamdden yn llawer iawn is na'r uchod fel ffactor o ran llwyddiant busnes. Ar lefel bersonol mae'r rhan fwyaf o'r rhai a gafodd eu cyfweld yn ei weld fel un o'r atyniadau o fyw mewn Parc Cenedlaethol.

Cafwyd ymateb cadarnhaol i rôl y Gymraeg fel ffactor mewn gweithgarwch busnes, yn enwedig yn Eryri. Mewn un o'r ymatebion yn Sir Benfro, nodwyd bod:

*“iaith a diwylliant Cymru yn arwyddocaol o ran denu busnes” (D.3.9)*

Fodd bynnag, nid oedd pob ymateb yn gadarnhaol:

*“mae polisïau'r iaith Gymraeg yn andwyol... ..ac yn ychwanegu costau ac yn atal cystadleurwydd” i rai busnesau (D.3.13)*

Roedd yr ymateb i'r cwestiwn ynghylch y Parciau Cenedlaethol yn ardaloedd a ddiogelir gan gynllunio yn gymysg hefyd, gyda safbwyntiau cryf yn cael eu mynegi o'r ddwy ochr:

*“Mae gwerth mewn gwarchod y nodweddion diffiniol ardal” (D.3.13)*

a:

*“mae cynllunio o bwys mawr gan ei fod yn amddiffyn y dirwedd ac ansawdd uchel bywyd” (D.3.13)*

Ond fe gydbwyswyd hynny gyda'r honiad fod:

*“cynllunio ddim yn brofiad gret” (D.3.10)*

a

*“bod dehongli gwael gan swyddogion cynllunio yn gallu atal neu ddifwyno yr hyn a fyddai fel arall yn ddatblygiadau cadarnhaol.”*

fe wnaeth un safle cais proses prosiect mawr ddenu nifer o sylwadau cadarnhaol iawn am eu profiad o gynllunio yn y Parc Cenedlaethol ond pwysleisiwyd yr angen i ddatblygu arbenigedd wrth ymdrin â cheisiadau cynllunio mawr o'r fath. (D.3.3)

Y ffactorau eraill a gafodd eu cynnwys oedd argaeledd cyfleusterau manwerthu a hamdden amrywiol sy'n gwella prydferthwch ardal i drigolion a thwristiaid. Ystyriwyd yr angen i gefnogi gweithgaredd busnes lleol hefyd fel ffactor ac roedd sylwadau eraill yn cyfeirio at yr angen am:

*"ddatblygiad economaidd a sicrhau swyddi"* (D.3.3)

## 7.8 Marchnata – Y Brand

Un thema gyffredin ymhlith y busnesau hynny sy'n ymwneud â lletygarwch a thwristiaeth oedd bod brand y Parc Cenedlaethol yn fecanwaith pwerus a chefnogol iawn ac yn un lle maent yn rhoi gwerth uchel iddo. Mae llawer o'u cwsmeriaid yn dod o'r tu allan i'r ardal leol ac fel y dywedodd un:

*"Mae brand y Parc yn bwysig wrth farchnata"*

Mae'r ymgyrch poster 'nostalgia' sydd wedi ennill gwobrau ac sydd wedi cael ei redeg gan APCAP dros y ddwy flynedd ddiwethaf wedi cael canmoliaeth uchel hyd yn oed gan rai o feirniaid llymaf Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol ac mae llawer yn gweld y dylai'r awdurdodau fod yn neilltuo hyd yn oed mwy o ymdrech ac adnoddau i farchnata o'r cefnogol fath.

Mae un busnes mawr sy'n gwneud defnydd da o'r brand wrth farchnata eu hunain fel "Resort y Parc Cenedlaethol" yn gwario dros £1.5 miliwn y flwyddyn ar farchnata ledled y DU ac lwerddon ac awgrymodd bod yna botensial ar gyfer effeithiolrwydd marchnata eu gwaith hwy a'r Parc Cenedlaethol er mwyn cael neges gydlynol well, yn ogystal ag amseru a chyflwyno. Byddent yn croesawu perthynas waith agosach gyda'r APC i'r perwyl hwn.

## 7.9 Maint busnes

Mae sylw eisoes wedi cael ei wneud ynghylch yr anawsterau, gwirioneddol neu ganfyddedig, bod busnesau bach iawn yn eu cael wrth ymdrin â materion cynllunio. Mae ganddynt faterion capasiti o ran amser, adnoddau a gwybodaeth ac felly nid oes ganddynt y cysylltiadau o fewn y Parciau Cenedlaethol a all eu harwain neu roi'r hyder iddynt ac yn aml maent wedi eu clymu yn eu gwaith dydd i ddydd o oroesi fel busnes nad ydynt yn rhoi'r sylw y dylent i faterion o'r fath. Mae hyn yn syndod o ystyried y ffaith fod y ddau APCau wedi llawer o gyhoeddusrwydd i'w prosesau "cyn gwneud cais" rhad am ddim sy'n cynnig cymorth a chyngor i bob ymgeisydd. Gall hyn hefyd awgrymu nad yw busnesau bach yn defnyddio Asiantau Cynllunio i gynorthwyo gyda'r gwaith o gyflwyno ceisiadau cynllunio.

Mae busnesau mwy o faint a'r rheini sydd wedi cael profiad o weithio gyda swyddogion APC ac wedi adeiladu perthynas gyda nhw wedi profi llawer llai o

rwystrau. Efallai eu bod yn dal i fethu a deall yn llawn rhai polisïau cynllunio a gall hyn arwain at anafodlonrwydd a chanfyddiad o diffyg hyblygrwydd, ond eu bod yn gwybod sut i drafod y system gynllunio.

Er ei fod yn eu galluogi i ddod o hyd i ffordd ymlaen ar gyfer eu busnesau eu hunain yr hyn a welir yn rhannol gan bobl o'r tu allan yw bod yr Awdurdod yn gallu bod yn bleidgar i rai sectorau, megis busnesau mwy. Nid yw hyn bob amser yn ddefnyddiol iawn, serch hynny, gan ein bod wedi cael cwynion gan ffermwyr bod yr APCau yn rhy gefnogol o dwristiaeth, a chwynion gan dwristiaeth bod yr Awdurdodau yn rhy gefnogol o ffermwyr!

Gall y cwmnïau mwyaf weld bod polisïau Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol, yn enwedig yn ôl tystiolaeth y broses gynllunio, ddim ond yn un rhwystr arall i'w oresgyn. Maent yn ei thrin fel tasg syml, yn darparu pa bynnag adnoddau sy'n angenrheidiol i ymdrin â'r mater, ac yn eithaf diduedd a gwrthrychol yn eu trafodion. Caiff Prosiectau Seilwaith Cenedlaethol eu hystyried gan yr Arolygiaeth Gynllunio ac nid yr awdurdodau cynllunio yr effeithir arnynt sy'n derbyn y ffioedd ymgeisio. Gall hyn gael effaith sylweddol ar adnoddau'r Awdurdod. Codwyd y mater hwn eisoes a bydd yr Awdurdod yn ailedrych arno fel ymateb i'r ymgynghoriad cyfredol ar sefydlu system newydd ar gyfer Gweinidogion Cymru i brosesu 'Datblygiadau o Bwys Cenedlaethol'.

Mae gan gwmnïau o'r fath y dull a'r adnoddau i ymgysylltu â swyddogion ar lefel polisi uchel iawn ac yn fanwl ar lefel y ddaear. Pan fydd datblygiadau mor fawr fel nad ydynt y math y'u gwelir fel arfer gan Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol, neu nifer o awdurdodau cynllunio eraill, yna gall ansawdd a dealltwriaeth y swyddogion a'r Aelodau dan sylw fod yn eithriadol o bwysig er mwyn sicrhau canlyniad boddhaol. Mae'r APCau yn ffodus o gael swyddogion o'r fath ond pan gydnabyddir bod yna angen, yna caiff cymorth allanol ei brynu i mewn.

Pryder a godwyd gan un sylwebydd oedd rôl Aelodau'r Pwyllgor yn y broses o wneud penderfyniadau. Roedd canfyddiad y gall fod perygl y gallai cynnig sydd wedi cael ei hasesu'n ofalus a'i argymhell i'w gymeradwyo gan swyddogion gael ei wrydroi am reswm a all ymddangos yn ddi-sail neu'n ddi-nod. Ar ben hynny, nodwyd bod rhai Aelodau yn meddu ar ychydig iawn o ddealltwriaeth o gostau ymgymryd â newidiadau ac amodau penodol, gyda chost ychwanegol sylweddol yn cael ei ychwanegu at ddatblygiad o ganlyniad i sylwadau gan Aelodau unigol. Gwnaed sylwadau hefyd ar y cyfle i siarad yn y Pwyllgor ac ystyriwyd bod y slot 5 munud a'r anallu i ymateb i honiadau neu sylwadau a wnaed gan eraill (gan gynnwys Aelodau) wrth ystyried y cais yn annigonol i'r ymgeisydd gael datgan ei achos, yn enwedig ar gyfer datblygiadau mawr a chymhleth a allai fod wedi cymryd rhai misoedd a llawer o gostau i'r ymgeisydd drafod gyda swyddogion a dilyn y prosesau angenrheidiol.

## 7.10 Pwrpasau'r Parc

Mae'r ffaith bod yr ymchwiliad craffu yn canolbwyntio ar effaith Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol ar eu heconomi leol yn dod â sylw i'r cwestiwn o sut mae pwrpasau'r Awdurdodau yn eistedd ochr yn ochr â'u dyletswyddau. Mae hyn hyd yn oed yn fwy perthnasol yn sgil yr Adolygiad o Dirweddau Dynodedig lle cyfeirir at y posibilrwydd o roi mwy o bwyslais i'r economi ac mae'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru wedi lleisio eu cefnogaeth.

Roedd yn rhan naturiol o ymchwiliadau y Pwyllgor, felly, i geisio barn ar y mater hwn gan bawb y cysylltwyd â hwy. Yn ddi eithriad fe wnaeth yr holl fusnes a gysylltwyd â hwy am y cwestiwn hwn roi eu cefnogaeth lwyr ar gyfer newid y dull presennol i un o roi cydraddoldeb i'r effeithiau economaidd-gymdeithasol o ran polisïau a gweithgareddau'r Awdurdodau ochr yn ochr â'r dibenion amgylcheddol a'r pwrpasau profiad - yn wir mynegodd nifer syndod nad felly mae hi eisoes. Cyfeiriodd un arall at y penderfyniad par Bluestone a gymeradwyodd yr Awdurdod ond fe gafodd ei herio yn ddiweddarach yn yr Uchel Lys. Dyfarnodd Barnwr yr Uchel Lys fod penderfyniad APCAP i roi caniatâd cynllunio ar gyfer y rhan honno o ddatblygiad Bluestone o fewn y Parc Cenedlaethol yn gyfreithlon. Roedd rhan o'r rhesymeg ynghylch pam fod y penderfyniad yn gyfreithlon yn dibynnu ar y ffaith bod Aelodau wedi dod i'r casgliad bod y manteision economaidd i'r ardal wrth ganiatáu'r datblygiad hwn yn gorbwyso'r ystyriaethau polisi neu ofnau niwed i'r rhan hon o'r Parc Cenedlaethol, ond am bod ganddynt y wybodaeth lawn ger eu bron yr oedd gan yr aelodau hawl i ymarfer eu barn yn y modd hwn. Cadarnhaodd y Llys Apêl a Thŷ'r Arglwyddi dyfarniad yr Uchel Lys.

Dylid dweud hefyd, er bod yna farn eang bod angen rhoi ystyriaeth i effaith Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ar yr economi, mae hefyd yn cael ei dderbyn gan y mwyafrif pan ddaw i wrthdaro anghymodlon rhwng yr amgylchedd a'r economi. Egwyddor Sandford ddylai fod drechaf. Fodd bynnag, fe ddylai'r elfen cydraddoldeb rhwng y gwahanol elfennau, ym marn llawer o bobl, arwain at fwy o ymdrech i ddod o hyd i atebion ymarferol na'r hyn sydd yn digwydd ar hyn o bryd.

Teimlai'r Pwyllgor fod yr Adolygiad o Dirweddau Dynodedig yn gyfle i unioni'r fantol a nododd bod y dystiolaeth a ddarparwyd gan y Parciau Cenedlaethol Cymru ac eraill i'r Adolygiad yn gwneud yr achos dros bwrpas economaidd-gymdeithasol. Roedd pryder bod yr adroddiad o'r cam cyntaf o'r Adolygiad yn ymddangos i gysylltu'r pwrpas economaidd i dreftadaeth ddiwylliannol yn unig, yn hytrach nag anghenion cyffredinol yr economi y mae'r dreftadaeth ddiwylliannol yn rhan ohono - er ei fod yn bwysig. Y gobaith yw y bydd y mater hwn yn cael ei datrys yn ystod y broses o basio unrhyw ddeddfwriaeth i newid pwrpasau Awdurdod y Parciau Cenedlaethol. Os nad yw, fe ellir colli'r cyfle i fynd i'r afael â'r mater hwn am ugain mlynedd arall.

#### 7.11 Darpariaeth Tai a Fforddiadwyedd Tai

Codwyd sylwadau a phryderon am dai ar nifer o achlysuron yn enwedig yn APCAP, gan gynnwys y mater penodol o fforddiadwyedd tai. O ran tai yn gyffredinol, dywedwyd wrthym fod polisïau APC yn Sir Benfro yn ei gwneud yn

anodd iawn i gael caniatâd ar gyfer tai marchnad yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac mae hyn yn cael effaith ar fusnesau mewn nifer o ffyrdd.

Mae'r rhai sy'n ymwneud â'r sector lletygarwch a thwristiaeth sy'n dibynnu ar fewnlifiad tymhorol o staff yn nodi diffyg llety fel un o'r anawsterau maent yn eu hwynebu wrth recriwtio staff addas. Yn benodol mewn perthynas ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro mae busnesau bach mewn lleoliadau gwledig, yn aml yn seiliedig ar deulu, yn cael problemau pan fyddant yn ceisio addasu neu adeiladu tai newydd ar gyfer nhw eu hunain i gefnogi ehangiad eu busnes neu gadw staff yn y busnes a'r ardal.

Mynegodd gwleidyddion yn arbennig annifyrrwch gyda polisi'r APCAP wrth weithredu ar dai fforddiadwy ac maent hwy ac eraill wedi nodi pryder ynglyn â pholisïau eraill megis Polisi Hygyrchedd APCAP.

#### 7.12 Cydnabyddiaeth gadarnhaol

Mae natur adolygiad craffu yn cael ei dynnu i mewn i nodi a gwneud argymhellion ar yr hyn y gellid ei wneud yn well. Felly, mae rhai o'r cyflwyniadau a gasglwyd wedi bod yn feirniadol ac mewn rhai achosion yn negyddol - fel y cyfeirir atynt yn rhai o'r dadansoddiad uchod.

Fodd bynnag, dywedwyd wrthym hefyd ynghylch llawer o bethau da, yn wir ardderchog, y mae Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn eu gwneud a'r effaith gadarnhaol iawn y gall y rhain, ac y mae'r rhain yn ei gael ar yr economi. Mae cyrff twristiaeth er enghraifft yn moliannu'r Awdurdodau am y ffordd y maent wedi perfformio yn erbyn y nodau economaidd a nodwyd yng Nghynllun Rheolaeth y Parc Cenedlaethol a'r Cynllun Datblygu Lleol o greu a chynnal economi leol amrywiol, hyfyw a chynaliadwy, a hefyd yn denu nifer cynaliadwy o pobl ar bob adeg o'r flwyddyn i fwynhau rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol - yn gwbl unol â'n dibenion. Yn aml, mae'r gydnabyddiaeth a'r ganmoliaeth fwyaf yn dod o'r cyswllt personol gyda swyddogion unigol ar lawr gwlad a chawsom sawl enghraifft o'r berthynas agos a gwerthfawr sydd gan llawer o'n staff gydag unigolion a busnesau yn ein Parciau Cenedlaethol a'r ffaith eu bod yn cael eu gweld fel llysgenhadon gwych ac yn angerddol am yr hyn a ddelir yn annwyl am y Parciau Cenedlaethol - tirweddau wedi eu cynnal yn dda, amgylcheddau a ddiogelir, mynediad a mwynhad.

#### 7.13 Cyfleoedd cyflogaeth

Mynegodd nifer o fusnesau, ac yn sicr y gwleidyddion, bryder am y diffyg cyfleoedd gwaith yn y sir a oedd yn annog pobl ifanc i symud i rywle arall ar gyfer cyflogaeth a gyrfa. Ochr yn ochr â hyn mae enghreifftiau o'r anawsterau y mae rhai busnesau yn eu cael wrth recriwtio staff addas sydd wedyn yn cael effaith uniongyrchol ar eu busnes. Nid yw Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn unigryw yn hyn o beth ac mae'n ymddangos i fod yn broblem ar gyfer ardaloedd gwledig.

Darparwyd ystadegau i ni hefyd a oedd yn dangos, er bod y boblogaeth gyffredinol yn Sir Benfro yn dangos cynnydd bach, mae'r proffil demograffig yn dangos poblogaeth sy'n heneiddio wrth i bobl ifanc symud i ffwrdd a bobl hŷn, efallai wedi ymddeol, yn symud i mewn.

Nid ydym ar ein pennau ein hunain, fodd bynnag; oherwydd mae'n broblem i gyfan. Mae adroddiad diweddar gan y Sefydliad Materion Cymreig ("Yr Agenda Cymreig": Gwanwyn / Haf 2015 t20) yn nodi yng nghyd-destun GYC Cymru y pen yn 72% yn unig ar gyfartaledd y DU, ac nid yw wedi newid yn hynny o beth ers 1999 ; yn 2012-13 cafwyd allfudo net o Gymru o 3,980 o bobl 15 oed i 29 a mewn fudo net o 2,430 o bobl dros 45 oed. Nid oedd yr awdur yn gweld unrhyw ateb yn dod o gyfeiriad y farchnad rydd i wella hyn ac, felly, gofynnwyd y cwestiwn ynghylch beth ddylai gael ei wneud gan y sector cyhoeddus i feithrin datblygiad economaidd.

## 8. Materion Eraill

Yn ystod yr adolygiad soniwyd am nifer o themâu nad oedd yn berthnasol i faes yr astudiaeth. Yr ydym yn derbyn nad ydym yn casglu tystiolaeth gan yr holl randdeiliaid perthnasol er mwyn ein galluogi i basio sylwadau awdurdodol ar y materion hyn, fodd bynnag, rydym yn eu nodi fel a ganlyn, gan fod ganddynt werth wrth arwain Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol wrth iddynt ymwneud â chyrff eraill a allai fod yn mynd i'r afael â rhain yn fwy uniongyrchol.

### 8.1 Sgiliau Arbenigol

Un thema a ddaeth i'r amlwg gyda rhai o'r busnesau twristiaeth a'r sector lletygarwch ymlledol mwy o faint oedd yr anawsterau o ran cael staff gyda'r setiau sgiliau a'r agweddau cywir. Yn benodol, mae'n ymddangos i fod yn broblem, o leiaf yn Sir Benfro, gallu recriwtio cogyddion yn lleol neu yn wir o Gymru. Er gwaethaf fod busnesau yn ymgysylltu â'r colegau lleol nad yw eu hanghenion yn hyn o beth yn cael eu bodloni - sy'n golygu fod staff yn cael eu ffynonellu o fannau eraill yn y DU neu yn wir o Ewrop - a phan maent yn cael eu recriwtio does ganddynt fawr o deyrngarwch i'r cyflogwr nac i'r ardal felly gall y trosiant fod yn uchel.

### 8.2 Canfyddiadau o Yrfaeod yn y diwydiant twristiaeth

Problem gysylltiedig arall yw mai agwedd ymadawyr o'r ysgol yw nad ydynt yn gweld bod twristiaeth a lletygarwch yn yrfa gyffrous na gwerth chweil a arweiniodd un ymatebydd i arsylwi bod yr ysgolion lleol wedi cyflenwi "cenedlaeth goll" o bobl ifanc i mewn i'r farchnad swyddi; sydd ag agwedd lugoer ac anfedrus tuag at y swyddi sydd ar gael - ac sydd eu hangen - yn economi twristiaeth y Parciau Cenedlaethol.

Roedd rhai cyflogwyr hefyd yn teimlo bod y system addysg hefyd yn methu â darparu graddedigion o ansawdd da ac yn rhy aml nad oes ganddynt y lefel o sgiliau llythrennedd a chyfathrebu sy'n angenrheidiol yn y sector gwasanaeth.



## Casgliadau

- 9.1 Er nad oedd llawer o dystiolaeth i awgrymu bod bodolaeth y Parciau Cenedlaethol ac yn arbennig brand y Parc Cenedlaethol yn gwneud llawer i wella rhai sectorau o'r economi yn enwedig twristiaeth a hamdden, mae a rhai rhannau o'r gymuned fusnes a oedd yn dal i deimlo bod rhai polisïau cynllunio y Parc Cenedlaethol yn tynnu'n groes i ddatblygu economaidd.
- 9.2 O'r holl bolisïau a champau gweithredu a gyflawnwyd gan Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol mae'r Pwyllgor o'r farn mai cynllunio defnydd tir sy'n cael yr effaith fwyaf ar yr economi yn y Parciau Cenedlaethol. Mae ganddo hefyd y canfyddiad negyddol mwyaf, sy'n cael ei weld fel rhwystr posibl i dwf economaidd; fodd bynnag, gellid dadlau bod y broses gynllunio yn hwyluso datblygiadau sy'n gynaliadwy yn y dirwedd.
- 9.3 Mae gan fusnesau bach iawn ddiffyg capasiti, dealltwriaeth a / neu anhawster wrth gysylltu ag Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol.
- 9.4 Mae cymeradwyaeth gan bawb bron o'r gwerth y mae Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn ei ychwanegu at y dirwedd yn y Parciau Cenedlaethol ac i ansawdd bywyd y rhai sy'n byw ynddynt.
- 9.5 Mae perthynas waith agos a chadarnhaol ar y cyfan rhwng ffermwyr ac Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol.
- 9.6 Mae busnesau'n newid naill ai o ddewis neu mewn ymateb i bwysau'r farchnad ac effaith yr economi. Ar brydiau gall y newidiadau ymddangos fel petaent yn gwrthdaro â pholisïau'r Parc Cenedlaethol yn ogystal â pholisïau cynllunio cenedlaethol. Lle bo gwrthdaro o'r fath ar lefel sylfaenol sy'n ymwneud â phwrpasau'r Parc Cenedlaethol, yna mae'n rhaid i fusnesau fod yn hyblyg yn y ffordd y maent yn ceisio newid. Fodd bynnag, mae amgylchiadau lle cafodd rhai polisïau eu llunio mewn marchnad ac amseroedd economaidd gwahanol iawn a heb adolygu a chydabod bod amgylchiadau wedi newid mae'r polisïau yn methu eu pwrpasau gwreiddiol i gefnogi twf a datblygiad economaidd priodol. Efallai nad yw'r hyn a oedd yn briodol 5 neu 7 mlynedd yn ôl bellach yn briodol.
- 9.7 Mae brand y Parc Cenedlaethol yn cael ei gydnabod yn fyd-eang fel un o werth uchel ac mae'n hwb sylweddol i ymdrechion marchnata a pherfformiad llawer o fusnesau yn enwedig y rhai yn y sector lletygarwch a thwristiaeth.
- 9.8 Mae cefnogaeth gref iawn i gydnabod rôl gefnogi economi Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol ochr yn ochr, ac o statws cyfartal (yn amodol ar Egwyddor Sandford), i ddau Bwrpas presennol y Parciau Cenedlaethol.

- 9.9 Bydd angen paru unrhyw newid o'r fath ym Mhwrpasau'r Parciau Cenedlaethol gydag ail-flaenoriaethu adnoddau a newid mewn ffocws corfforaethol i groesawu'r newid yn effeithiol.
- 9.10 Mae busnesau, yn enwedig y rhai nad oes ganddynt berthynas waith agos gyda swyddogion y Parc Cenedlaethol, yn teimlo nad yw staff ac Aelodau'r Parciau Cenedlaethol yn deall yr amgylchedd busnes yn ddigonol, ac felly mae llunio polisiau ac yn fwy penodol eu rhoi ar waith yn aml yn cael eu gwneud heb roi ystyriaeth briodol i anghenion busnesau.
- 9.11 Ar hyn o bryd, yr Awdurdodau Lleol sy'n gyfrifol am ddatblygiad economaidd yn y Parciau Cenedlaethol, a hynny o ran adnoddau a swyddogaeth statudol. Fodd bynnag, mae'r APCau yn cyfrannu at les economaidd y Parciau Cenedlaethol ac mae angen i adrannau datblygu economaidd Awdurdodau Lleol ac APCau weithio'n agosach â'i gilydd. O ystyried dyfodiad tebygol pwrpas newydd i gynnwys yr economi mae'n bwysig dod o hyd i ffyrdd o wneud hynny a dangos sut y darperir adnoddau a champau digonol i roi hwb i ddatblygiad economaidd.
- 9.12 Ystyrir bod ansawdd, gradd a lefel y cyswllt yn ogystal â'r pwnc a phwrpas y cyswllt yn bwysig. Dylid annog dull pragmatig i ddatblygu a gweithredu polisiau yn gyffredinol mewn APCau o lefel Aelodau i swyddogion achos.
- 9.13 Yn APC Arfordir Penfro, ystyrir bod y polisi hygyrchedd presennol yn milwrio yn erbyn datblygu tai'r farchnad gyffredin (fel yn erbyn rhentu twristiaeth neu fforddiadwy) a gall ei wneud yn anodd i fusnesau bach, sy'n aml yn rhai teuluol, mewn ardaloedd gwledig i gadw a darparu ar gyfer staff.
- 9.14 Mae canfyddiad cyffredin a chryf nad yw polisi tai fforddiadwy APCAP yn darparu cyflenwad digonol o dai fforddiadwy, sy'n ei gwneud yn fwy anodd i gadw pobl mewn cymunedau lleol, sy'n aml yn wledig iawn. Fodd bynnag, addaswyd y polisi y llynedd a gall y bwlch amser rhwng newid a deall a gweithredu olygu bod y canfyddiad y tu ôl i'r hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd (o ystyried y ffaith ei fod yn ymddangos bod cynnydd a nifer cynyddol o geisiadau sy'n cynnwys tai fforddiadwy yn cael eu cyflwyno).
- 9.15 Edau sy'n rhedeg drwy'r holl sylwadau a wnaed i ni yw y gwerthfawrogir Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn fawr iawn am lawer o'r pethau maent yn ei wneud yn dda iawn – â llawer o hynny'n dod o gysylltiadau personol â staff sy'n cael eu gweld fel ymgorffori popeth sy'n dda ac yn gadarnhaol am Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol.

## Rhestr o Atodiadau

- A. Rhestr o Aelodau'r Cyd-Bwyllgor Craffu
  
- B. Dyddiadau a chyfranogwyr yn y sesiynau tystiolaeth:
  - B.1 Sesiwn Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
  - B.2 Sesiwn Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
  
- C. Rhestr o unigolion a busnesau a gafodd eu cyfweld yn unigol gan yr Aelodau:
  - C.1 Y Fframwaith Cyfweld
  - C.2 Rhestr o'r cwmnïau a gafodd eu cyfweld
  - C.3 Ymatebion y cyfweiliad
  
- D. Cofnodion cyfarfodydd y Cyd-Bwyllgor Craffu:
  - D.1 21 Chwefror 2014
  - D.2 17 Medi 2014
  - D.3 30 Ionawr 2015
  - D.4 11 Mawrth 2015
  - D.5 25 Mawrth 2015
  - D.6 17 Ebrill 2015
  - D.7 6 Mai 2015
  - D.8 8 Gorffennaf 2015
  
- E. Adroddiadau cyfweiliadau eraill a gynhaliwyd / ymatebion ysgrifenedig a ddaeth i law
  - E.1 Paul Davies, AC a Chynghorydd Sir Penfro David Howlett

E.2 Simon Hart, AS

E.3 Stephen Crabb, AS

E.4 Twristiaeth Sir Benfro

E.5 CLA

E.6 NFU Cymru

E.7 Adran Datblygu Economaidd Cyngor Sir Gwynedd

E.7 Llefarydd Cabinet Cyngor Sir Penfro dros Gymunedau a'r Sector  
Gwirfoddol a swyddogion Cyngor Sir Penfro

F. Dogfennau perthnasol eraill

# ATODIAD A

## Aelodau'r Cyd-Bwyllgor Craffu

### **Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro:**

Mrs Gwyneth Hayward (Cadeirydd)

Cynghorydd Mike James

Cynghorydd Bob Kilmister

Cynghorydd Rob Lewis

Mr Ted Sangster

### **Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

Cynghorydd Elwyn Edwards

Cynghorydd Alwyn Gruffydd

Cynghorydd Sion W. Jones

Cynghorydd John MacLennan

Cynghorydd Caerwyn Roberts

Cynghorydd Mrs Elizabeth Roberts

Dr I ap Gwynn (Dirprwy Gadeirydd)

## ATODIAD B1

Sefydliadau / unigolion a gafodd eu cyfweld yn swyddfeydd Awdurdod Parc  
Cenedlaethol Arfordir Penfro ym Mharc Llanion, Doc Penfro ar 11 Mawrth 2015

<b>Sefydliad</b>	<b>Cynrychiolydd / Cynrychiolwyr</b>
APC Arfordir Penfro	Ms M Dunne, Pennaeth Cyfeiriad y Parc, a Mr G Meopham, Swyddog Stadau
The Real Seed Catalogue, Trefdraeth, Sir Benfro	Ms K McEvoy
Hean Castle Estate, Saundersfoot	Mr D Lewis
Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartrefi Prydain	Mr H Pendleton
Cynghrair Twristiaeth Cymru	Mr C Osborne
Fforwm Solva Business	Ms B Prickett a Ms A Grimes
Ffederasiwn Busnesau Bach	Mr T Baron a Mr N Blockley

## ATODIAD B2

Sefydliadau a gafodd eu cyfweld yn swyddfeydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ym Mhlas Tan y Bwlch, Maentwrog ar 25 Mawrth 2015

<b>Sefydliad</b>	<b>Cynrychiolydd / Cynrychiolwyr</b>
George & Tomos - Penseiri	Mr D Tomos
Undeb Amaethwyr Cymru	Mr G Watkin
Undeb Amaethwyr Meirionnydd	Mr OG Thomas
Ffermwr, Llanfrothen	Mr E Roberts
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol	Mr R Evans
Canolfan Fynydd Genedlaethol Plas y Brenin	Mr M Doyle
Yr Urdd, Glan-Llyn	Mr HA Edwards
Y Bartneriaeth Awyr Agored	Ms T Evans

## ATODIAD C1

### Prosiect Craffu – Effaith polisiâu'r Parc Cenedlaethol a'r camau gweithredu a gymerir gan y Parc ar Fusnesau Bach a Chanolig

#### Fframwaith ar gyfer Cyfweld

1.	A fydddech gystal â disgrifio'ch busnes - beth ydych yn ei ddarparu, pa fath o farchnad yr ydych yn gweithio ynddi, faint o staff sydd gennych, beth yw eich trosiant, am ba hyd yr ydych wedi bod mewn busnes, am ba hyd ar y safle hwn, beth yw'r prif ffactorau sy'n dylanwadu ar eich llwyddiant....?
2.	A yw eich busnes wedi derbyn cymorth oddi wrth y sector gyhoeddus yn ystod y pum mlynedd diwethaf, e.e. grantiau neu gymorth di-gyllid?
3.	Mae eich busnes wedi'i leoli mewn Parc Cenedlaethol, ym mha le y mae eich cwsmeriaid? A oes gennych fusnes a / neu cwsmeriaid mewn mwy nag un Parc Cenedlaethol?



4.	A ydych erioed wedi delio'n ffurfiol ag Awdurdod y Parc Cenedlaethol? Os ydych, rhowch ddisgrifiad byr i ni a beth oedd y canlyniad.
5.	Sut gallai Awdurdod y Parc Cenedlaethol, o ran ei bolisïau, wneud mwy i helpu busnesau yn y Parc i ffynnu ac ehangu?
6.	Yn eich barn chi a'ch profiad chi, a yw'r ffaith bod eich busnes wedi'i leoli mewn Parc Cenedlaethol wedi bod o fudd i'ch busnes neu beidio?

7.	Pa un o'r canlynol sydd fwyaf pwysig i'ch busnes?:	
	Tirwedd	
	Natur	
	Statws Parc Cenedlaethol / brand	
	Cyfleoedd hamdden	
	Iaith a diwylliant Cymraeg	
	Ardal wedi ddiogelu gan gynllunio	
	Safon byw	
	Eraill?	

## ATODIAD C2

### Rhestr o gwmnïau a gafodd eu cyfweld yn unigol gan yr Aelodau

Anrhegion Gelert, Beddgelert  
Siop y Pentref, Beddgelert  
Bluestone Resort  
Brumwell Garden Machinery, Badgers Holt, Jameston  
Cae Du Designs, Harlech  
Cross Foxes, Brithdir, Dolgellau  
Fferm Porthtreuddyn, Pren-teg, Porthmadog  
Gwesty'r Golden Lion, East Street, Trefdraeth  
Harlech Toyota  
Gorsaf Cychod Hwyllo Lawrenni  
Parc Cartrefi Gwyliau Min y Don, Ffordd Glan Môr, Harlech  
Gwasanaeth Sefydliad Seilwaith Amddiffyn (Canolfan Cyflenwi) Y Weinyddiaeth  
Amddiffyn  
Pathfinders  
Fferm Penrallt Ddu, Dinas Cross  
Cwmni Bysiau'r Brodyr Richards, Trefdraeth  
South Hook, CHP  
St Brides Spa Hotel, Saundersfoot  
The Real Seed Catalogue, Trefdraeth  
Fferm Trewern, Nanhyfer  
Urdd Gobaith Cymru, Glan y Llyn

## ATODIAD C3

	Disgrifiad o'r busnes	Cefnogaeth Sector cyhoeddus?	Lle mae'r cwsmeriaid wedi'u lleoli?	Unrhyw drafodion ffurfiol gydag Awdurdod y Parc Cenedlaethol?	Sut allai Awdurdod y Parc Cenedlaethol gefnogi busnesau yn y Parc yn well?	A yw'r ffaith eich bod wedi eich lleoli mewn Parc Cenedlaethol o fudd i'ch busnes ai peidio?
1.	<p>Sefydliad Amddiffyn a Seilwaith Y Weinyddiaeth Amddiffyn (MOD)– Safle Hyfforddi Busnes/Antur.</p> <p>Sefydlwyd yn 1974.</p> <p>Nifer staff: 57.</p> <p>Ffactorau allweddol ar gyfer y llwyddiant y busnes yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Y gallu i hyfforddi yn y Parc Cenedlaethol;</li> <li>• Perthynas gymunedol dda;</li> <li>• Amrywiaeth o dywydd a thirwedd sy'n cynnig ei hun i hyfforddiant y tri gwasanaeth</li> </ul>	Na	Ydy, mae'r tri gwasanaeth yn defnyddio'r adnoddau hyfforddi mewn Parciau Cenedlaethol eraill. Mae'r cwsmeriaid yn dod o bob rhan o'r DU.	Do, bu sawl cais cynllunio ac arolygon amgylcheddol. Bu'r canlyniadau yn llwyddiannus. Ar hyn o bryd mae 2 gais arall yn yr arfaeth.	<p>Fel cwsmer, er mwyn hwyluso anghenion hyfforddiant yn llawnach drwy geisiadau priodol a rhoi chaniatâd e.e.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Yr angen am ragor o drafodaeth yngh. caniatáu'r. defnydd o wisg filwrol at ddibenion hyfforddi ar dir preifat ac ar gyfer hyfforddiant mwy arbenigol.</li> <li>• Y posibilrwydd o'r APC yn llofnodi datganiad o fwriad gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn, yn yr un modd ag awdurdodau Parciau eraill.</li> <li>• Ar hyn o bryd, gweithio mewn partneriaeth gyda Wardeiniaid y Parc, Rheolwr Eiddo, Cefn Gwlad a Mynediad.</li> </ul>	<p>Ydy,</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mewn safle allweddol yn ddaearyddol felly'n hawdd i gael gafael ar bob un o'r disgyblaethau angenrheidiol i anghenion Hyfforddiant y Weinyddiaeth Amddiffyn.</li> <li>• Mae Cymru yn fwy o ganolbwynt ar gyfer y Weinyddiaeth Amddiffyn, gan ei bod yn agosach na Dartmoor neu'r Alban.</li> <li>• Aml-ddefnydd o dir, o fynyddoedd i iseldir, yr arfordir a llynnoedd.</li> <li>• Mynediad a thirwedd hawdd yn arbennig gyda</li> </ul>

	Disgrifiad o'r busnes	Cefnogaeth Sector cyhoeddus?	Lle mae'r cwsmeriaid wedi'u lleoli?	Unrhyw drafodion ffurfiol gydag Awdurdod y Parc Cenedlaethol?	Sut allai Awdurdod y Parc Cenedlaethol gefnogi busnesau yn y Parc yn well?	A yw'r ffaith eich bod wedi eich lleoli mewn Parc Cenedlaethol o fudd i'ch busnes ai peidio?
						<p>nifer o gyfleoedd hyfforddi.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae mynediad yn bwysig iawn, 'hawl i hyfforddi', fel cyfleuster hyfforddi byddem yn gwneud unrhyw beth i warchod yr hawl hwn.</li> <li>• Gallai cau canolfan yn yr Almaen, a'r ail-leoli staff dilynol i'r DU fod yn fuddiol.</li> </ul>
2.	<p>Busnes teuluol ers tua 11 mlynedd yn gwerthu peiriannau gardd. Trosiant wedi gostwng o 50% dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, yn bennaf oherwydd colli gwerthiant peiriannau newydd oherwydd y rhyngryd. Y rhan fwyaf o'r cwsmeriaid yn unigolion ond mae rhai contractau i gyflenwi a chynnal a chadw offer ar gyfer safleoedd, e.e. PCC a safleoedd carafannau.</p> <p>Wedi'i leoli mewn ardal wledig ar gyrion pentref bach - dim masnach yn pasio heibio.</p>	Dim cymorth ariannol ar wahân i ryddhad ardrethi busnes. Wedi mynychu rhai cyrsiau hyfforddi a noddir gan Lywodraeth Cymru ar TG a oedd yn ddefnyddiol a chwrs rheoli busnes a oedd	Sylfaen cwsmeriaid yn cynnwys Sir Benfro gyfan a Gorllewin Sir Gaerfyrddin.	3 o drafodion ffurfiol gyda'r broses gynllunio, yn ceisio ehangu ac amrywio'r busnes. Cafodd cais cychwynnol i ddatblygu safle glamping ei wrthod gan swyddogion. Yna addaswyd i ystyried y rhesymau a nodwyd dros wrthod ac roedd hyn yn llwyddiannus.	Mae busnesau bach o dan anfantais oherwydd diffyg profiad ac argaeledd cyngor yn gyfyngedig. Nid oedd yr asiant bob amser yn ddigon gwybodus. Roedd yn derbyn yr angen am reolau ond teimlai eu bod yn rhy anhyblyg ac gorfodi'n rhy gaeth, hefyd nid oeddynt bob amser yn cael eu defnyddio'n deg gyda busnesau bach o gymharu â datblygiadau	Na oherwydd yr anawsterau a wynebwyd i gael caniatâd cynllunio er mwyn bod yn gynaliadwy.

	<b>Disgrifiad o'r busnes</b>	<b>Cefnogaeth Sector cyhoeddus?</b>	<b>Lle mae'r cwsmeriaid wedi'u lleoli?</b>	<b>Unrhyw drafodion ffurfiol gydag Awdurdod y Parc Cenedlaethol?</b>	<b>Sut allai Awdurdod y Parc Cenedlaethol gefnogi busnesau yn y Parc yn well?</b>	<b>A yw'r ffaith eich bod wedi eich lleoli mewn Parc Cenedlaethol o fudd i'ch busnes ai peidio?</b>
	<p>Busnes yn cyflogi dau fab y perchennog, un llawn amser, un rhan amser, ond ar lefelau isel o dâl. Nid yw'r busnes yn gynaliadwy a chyfyngedig yw ei gyfle i ehangu. Cais i greu safle gwyliau 'glamping' ansawdd uchel fel ffynhonnell arall o refeniw i ategu'r busnes presennol.</p>	<p>yn llai felly.</p>		<p>Achoswyd rhan o'i anhawster oherwydd ei anallu i gael ateb clir gan ymgynghorwyr statudol e.e. Asiantaeth yr Amgylchedd (ANC erbyn hyn) gan fod y safle mewn parth a ddiogelir ar gyfer dŵr. Swyddog Coed APCAP yn fwy cynorthwyol a oedd yn golygu ei fod yn deall y rhesymau dros bryderon ac roedd hynny'n ei alluogi i'w cynnwys.</p>	<p>mwy a oedd yn cael mwy o wrandawriad. Yn wreiddiol gwrthodwyd ei gais oherwydd fod y safle yn weladwy o rannau o'r ardal o gwmpas, fodd bynnag, mae yna nifer o dyrbinau gwynt sy'n llawer mwy ymwithiol yn weledol - yn ymddangos yn annheg.</p> <p>Angen i'r Parc fod yn fwy hyblyg. Byddai'n ddefnyddiol pe bai swyddogion yn gallu treulio amser yn gweithio mewn busnes bach i ddeall y pwysau.</p>	
3.	<p>Prosiect i adeiladu a gweithredu gorsaf bŵer nwy 500MW gyda chysylltiadau i'r Grid Cenedlaethol. Cost y prosiect tua £600m. Unwaith y bydd yn gweithredu yn cyflogi tua 30 amser llawn a 90 yn y gadwyn gyflenwi.</p>	<p>Na.</p>	<p>Trydan yn cael ei gyflenwi i'r Grid Cenedlaethol trwy Orsaf Bŵer Penfro, posiblirwydd o gyflenwad preifat i ddefnyddwyr diwydiannol yn yr ardal.</p>	<p>Gweithio'n agos gyda'r Parc drwy gais cynllunio ar gyfer y prosiect er bod y penderfyniad gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid yn yr Hinsawdd. Proses newydd, na ddefnyddiwyd yng Nghymru o'r blaen. Cynghorodd APCAP ymgysylltu yn nes, a chafwyd perthynas</p>	<p>Profiad cadarnhaol, Pennaeth DM yn gysylltiedig iawn ac yn chwarae rhan ddylanwadol a chadarnhaol. Enillodd yr Awdurdod lawer o gredyd gan ddatblygwyr a'r llywodraeth o ganlyniad.</p> <p>Gwendid: Awdurdod yn brin o arbenigedd mewn dyfnder a phan adawodd y</p>	<p>Dim yn berthnasol.</p>

	Disgrifiad o'r busnes	Cefnogaeth Sector cyhoeddus?	Lle mae'r cwsmeriaid wedi'u lleoli?	Unrhyw drafodion ffurfiol gydag Awdurdod y Parc Cenedlaethol?	Sut allai Awdurdod y Parc Cenedlaethol gefnogi busnesau yn y Parc yn well?	A yw'r ffaith eich bod wedi eich lleoli mewn Parc Cenedlaethol o fudd i'ch busnes ai peidio?
				<p>weithgar rhwng swyddogion, yr ymgeisydd, eu cynghorwyr ac ymgynghoreion statudol. Datblygodd lefel yr arbenigedd, a ddefnyddiwyd gan Awdurdodau eraill ac mae hyn wedi ennill llawer iawn o hygredd gyda'r ymgeisydd. Bu swyddogion hefyd yn gadarn wrth ddelio â gwrthwynebwyr.</p> <p>Wedi derbyn caniatâd, cyhoeddwyd bod y prosiect yn cael ei ddal yn ôl am y tro oherwydd cyflwr y farchnad. Felly roedd y tîm datblygu wedi cael ei docio, ond roedd dal angen rhywfaint o waith ar rai o'r amodau fel y gallent fod yn fodlon petai buddsoddiad yn cael ei awdurdodi yn y dyfodol.</p>	<p>swyddog yr Awdurdod ni allai neb llenwi'r bwlch hwnnw, ac felly nid oes yr un lefel o ddealltwriaeth nawr.</p> <p>Hefyd teimlir bod hawlio dros £4m ar gyfer tai i weithwyr adeiladu, ochr yn ochr â galw CSP am £2.3m ar gyfer gwelliannau i ffyrdd a llwybrau yn anghyfiawn ac ecsbloetiol. Teimlid fod yr alwad yn naif ac y byddai'r Awdurdod wedi cael ei wasanaethu'n well trwy gyflogi trafodwyr masnachol. Teimlwyd bod hon yn broblem gyda'r ffordd o feddwl y sector cyhoeddus.</p>	
4.	Fferm cynhyrchu llaeth yn cyflenwi menter gydweithredol. Cyflogi 1 llawn amser a 2	Y Taliad Sengl. Hefyd ffens	Gobeithio y bydd trigolion y Parc yn	Fel y nodwyd – ffens wedi'i chodi.	Cymorth ar gyfer cynnal a chadw waliau ac adeiladau	Do ar y cyfan

	<b>Disgrifiad o'r busnes</b>	<b>Cefnogaeth Sector cyhoeddus?</b>	<b>Lle mae'r cwsmeriaid wedi'u lleoli?</b>	<b>Unrhyw drafodion ffurfiol gydag Awdurdod y Parc Cenedlaethol?</b>	<b>Sut allai Awdurdod y Parc Cenedlaethol gefnogi busnesau yn y Parc yn well?</b>	<b>A yw'r ffaith eich bod wedi eich lleoli mewn Parc Cenedlaethol o fudd i'ch busnes ai peidio?</b>
	rhan amser, gan ddibynnu ar contractio. Ffermio ers 45 mlynedd, mae llwyddiant yn dibynnu ar y tywydd a prisiau'r farchnad.	barhaol wedi ei chodi ar hyd pen y clogwyn ar y cyd â'r Parc Cenedlaethol a Chlwb Dringo Prydain.	archebu cynnyrch. Ffermwyr lleol yn prynu lloi fel stoc bridio.		traddodiadol	
5.	Siop sy'n gwerthu bwyd, alcohol, tybaco a manion domestig. Ei phrynu yn 2012 ac ers hynny cafwyd cytundeb i gynnig gwasanaethau swyddfa'r post, papurau newydd a loteri yn y siop. Cynyddodd y trosiant o 40%. Cyflogi 5 aelod o staff, 3 llawn amser, 2 rhan amser. Siop yn cael cefnogaeth leol, hefyd y pentref yn atyniad i dwristiaid.	Cefnogaeth anariannol i gychwyn busnes e.e. cymorth i lunio cynllun busnes a cheisiadau am gyllid.  Grant Gronfa Datblygu Swyddfeydd Post i arallgyfeirio busnes ar ôl sicrhau cytundeb gyda Swyddfa'r Post.	Mae cwsmeriaid yn bobl leol, twristiaid ac ymwelwyr sy'n aros mewn tai ar rent. Hefyd yn pasio heibio - y gallu i barcio tu allan i'r siop am gyfnod byr yn fantais.	Cais cynllunio am addasiadau i'r adeilad. Y gwasanaeth cyngori cyn gwneud cais yn wastraff amser. Cais yn cael ei wrthod i ddechrau ond cymeradwyo yn y pen draw mewn cyfarfod o'r Awdurdod.  Cefnogi'r Ganolfan ymwelwyr yn y pentref, ond siomi gan doriadau'r Awdurdod i farchnata a'r posibilrwydd o gau/llai o oriau agor i'r Ganolfan.	Teimlo nad yw busnesau bach yn cael yr un lefel o gefnogaeth a chymorth gan Swyddogion.  Mae angen cyhoeddi polisiau clir i helpu i ddeall beth sydd ei angen. Mae angen gweithio gyda busnesau bach a gwrando arnynt.	Dim o gwbl. Yn flin ac yn rhwystredig â'r broses. Costio miloedd o bunnoedd a disgwyliad cyson yn disgwyl i gyfaddawdu ar gynlluniau. Dim hyblygrwydd heb ceisiadau pellach = cost.  Mae twristiaid yn hanfodol, felly byddai cau'r Ganolfan Ymwelwyr yn cael effaith negyddol.
6.	Canolfan Gweithgareddau Preswyl - gweithgareddau dan do ac yn yr awyr agored. 60 o staff (tua 40 FTE).	Ystafell fwyta a ailadeiladwyd gydag arian Ewrop a	Mae cwsmeriaid yn dod o Gymru yn bennaf. Mae canolfan lai yn	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Perthynas dda gyda Wardeiniaid;</li> <li>• Peth arian gan yr Awdurdod drwy Gronfa</li> </ul>	Dim sylwadau i'w gwneud.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Manteision clir mewn perthynas ag amgylchedd awyr agored;</li> </ul>



	<b>Disgrifiad o'r busnes</b>	<b>Cefnogaeth Sector cyhoeddus?</b>	<b>Lle mae'r cwsmeriaid wedi'u lleoli?</b>	<b>Unrhyw drafodion ffurfiol gydag Awdurdod y Parc Cenedlaethol?</b>	<b>Sut allai Awdurdod y Parc Cenedlaethol gefnogi busnesau yn y Parc yn well?</b>	<b>A yw'r ffaith eich bod wedi eich lleoli mewn Parc Cenedlaethol o fudd i'ch busnes ai peidio?</b>
	Sefydlwyd 1950. Llwyddiant oherwydd lleoliad a chyswllt ag Urdd Gobaith Cymru	Llywodraeth Cymru. Hefyd yn adnewyddu Plas o Gronfa Cyfartar.	gweithredu yn Sir Benfro.	Ragoriaeth Eryri; <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae rhai problemau ymestyn Llwybr Tegid oherwydd Archaeoleg;</li> <li>Angen gweithredu yn Llyn y Bala gan ei fod yn llenwi â llaid, ac mae hyn yn bygwth gweithgareddau'r Ganolfan.</li> </ul>		<ul style="list-style-type: none"> <li>Manteision o allu marchnata lleoliad o fewn y Parc.</li> </ul>
7.	<p>Safle carafán gyda lle i 112 statig a 100 teithiol.</p> <p>Cyflogi 10 o staff ac 1 Prentis - mae'r rhan fwyaf wedi mynychu cwrs hyfforddi World Host Tourism.</p> <p>Prynwyd y safle yn 2002 a'i ailddatblygu gydag arwyddion newydd, system garthffosiaeth, trydan, tirlunio ayb.</p> <p>Perthynas dda gyda staff o'r adran gynllunio, a'r Cynghorydd lleol yn chwarae rhan bwysig yn y llwyddiant</p>	Na.	Oherwydd ei ansawdd, yn denu pobl o bob rhan y DU (y gogledd-orllewin, canolbarth a chanolbarth Cymru) a thramor. Mae chwaer Barciau hefyd o fewn y Parc Cenedlaethol sy'n cael eu hadnewyddu ar hyn o bryd.			
8.	Gwesty sy'n anelu at ddarparu ar gyfer pawb, gan ddarparu ansawdd uchel o fwyd	Na.	Mae'r cwsmeriaid yn dod o bob rhan	Prif gyswllt drwy'r system gynllunio. Pabell a godwyd heb ganiatâd	Dylid rhoi mwy o bwyslais ar ffyrdd y gallai'r sector	Ydy, sonnir amdani yn y wybodaeth

	<b>Disgrifiad o'r busnes</b>	<b>Cefnogaeth Sector cyhoeddus?</b>	<b>Lle mae'r cwsmeriaid wedi'u lleoli?</b>	<b>Unrhyw drafodion ffurfiol gydag Awdurdod y Parc Cenedlaethol?</b>	<b>Sut allai Awdurdod y Parc Cenedlaethol gefnogi busnesau yn y Parc yn well?</b>	<b>A yw'r ffaith eich bod wedi eich lleoli mewn Parc Cenedlaethol o fudd i'ch busnes ai peidio?</b>
	<p>a gynhyrchwyd yn lleol. Llety modern o ansawdd da. Staff croesawgar. Enw da yng Nghymru.</p> <p>Cyflogi 25-40 staff, gan ddibynnu ar y tymor. Prynodd y perchennog y busnes yn 2000 pan oedd wedi'i sefydlu'n dda ond yn hen ffaswn.</p> <p>Mae llwyddiant y busnes oherwydd ei fod yn cydnabod anghenion y farchnad bresennol, yn lleol ac ymwelwyr, drwy staff o ansawdd uchel, awyrgylch da, cydbwysedd rhwng tafarn draddodiadol a bwyty modern a bwyd o safon, cwrw, a llety.</p>	<p>Canolfannau Croeso lleol yn darparu manylion o westai a bwyty lleol.</p>	<p>o Sir Benfro a'r DU. Mae nifer sylweddol o Barciau Cenedlaethol eraill yng Nghymru.</p>	<p>cynllunio - gwrthdaro rhwng angen busnes i ddenu cwsmeriaid a gwarchod yr Ardal Gadwraeth. Canfu'r perchennog fod y swyddogion yn realistig ac yn ddefnyddiol a daethpwyd i gyfaddawd, fodd bynnag, mae'r broses yn ddruod ac mae'r sefydliad yn ymddangos yn anodd mynd ato i ddechrau. Felly'n ddefnyddiol cael gwybodaeth mwy hygyrch a chyswllt â swyddog.</p>	<p>preifat helpu ffyniant yr ardal. Diwydiant lletygarwch yn hanfodol i hyn a dylai polisïau geisio gwell dealltwriaeth. Mae angen i bolisïau fod yn fwy agored i newid.</p> <p>Hefyd dylid darparu mwy o wybodaeth am yr hyn sy'n dderbyniol yn ogystal â chyfluoedd i Aelodau gael gwell dealltwriaeth o'r diwydiant a'r materion sy'n ei wynebu.</p>	<p>gyhoedduswydd.</p>
9.	<p>Cwmni sy'n gwerthu hadau i arddwyr cartref. Cyflogi 5-6 o staff. Yn bodoli ers 1998 pan oedd wedi'i leoli yn Sbaen ac yna mae'n symudodd i Gaergrawnt. Gweithredu o'i leoliad presennol ers 2002.</p> <p>Tyfu hanner yr hadau, prynu'r gweddill i mewn. Ychydig o effaith a gafodd y problemau diweddar gyda'r economi - a briodolir i farchnad hŷn, cwsmeriaid sefydlog a chynnyrch yn gymharol rhad a fforddiadwy. Wedi gweld twf mewn gwerthu ar y rhyngwyd.</p>	<p>Dim grant na chymhorthdal uniongyrchol. Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir wedi bod yn ddefnyddiol iawn</p>	<p>Mae'r busnes ar draws y DU gyfan, gan gynnwys Parciau Cenedlaethol eraill.</p>	<p>Prif gyswllt drwy gynllunio nad oedd yn brofiad gwych. Teimlo fod diffyg tryloywder, dim parhad swyddogion yn y broses. Teimlo'n anffafriol o'i gymharu â cheisiadau tebyg yng Nghaergrawnt, ond gwnaeth gyfaddef ei fod yn Barc Cenedlaethol.</p>	<p>Dylai'r Parc Cenedlaethol fod â barn mwy agored o'r hyn sydd ei angen i fusnesau. Gormod o bwyslais ar fusnesau ar raddfa fawr, pan fo busnesau bach yn gyffredinol yn cyflogi nifer sylweddol o bobl.</p>	<p>Ychydig o effaith ar fusnes.</p>

	<b>Disgrifiad o'r busnes</b>	<b>Cefnogaeth Sector cyhoeddus?</b>	<b>Lle mae'r cwsmeriaid wedi'u lleoli?</b>	<b>Unrhyw drafodion ffurfiol gydag Awdurdod y Parc Cenedlaethol?</b>	<b>Sut allai Awdurdod y Parc Cenedlaethol gefnogi busnesau yn y Parc yn well?</b>	<b>A yw'r ffaith eich bod wedi eich lleoli mewn Parc Cenedlaethol o fudd i'ch busnes ai peidio?</b>
	Cynnig gwasanaeth personol, ac wedi cyrraedd y maint gorau posibl, gan anelu yn awr i atgyfnerthu eu busnes.					
10.	<p>Cwmni bysiau a choetsis sy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau e.e. gwasanaethau bws lleol, contractau ysgol, teithiau (yn y DU a thramor), llogi preifat a gwasanaeth maes awyr.</p> <p>Cyflogi 100 o staff parhaol gyda gweithwyr rhan-amser yn achlysurol, ond yr olaf hwn yn cael ei gymhlethu gan ofnyion Llywodraeth Cymru o ran hyfforddiant.</p> <p>Cwmni wedi'i sefydlu yn yr 1930au gan y daid y cyfarwyddwyr presennol ac yn gwbl deuluol o hyd. Priodoli Llwyddiant i amrywiaeth y gwasanaeth, gwasanaeth dibynadwy, rhagweladwy ac effeithlon.</p>	Dim grantiau, ond yn elwa o gymorthdaliadau Llywodraeth Cymru a'r Cyngor Sir yn ogystal â chefnogaeth ar gyfer gwasanaeth bws arfordirol lleol. Defnyddio Canolfannau Croeso lleol ar gyfer hysbysebu.	Wedi'i leoli'n bennaf yn Sir Benfro, de Ceredigion a Sir Gaerfyrddin, ond mae gennym hefyd sylfaen o gwsmeriaid daearyddol eang gan gynnwys contract wythnosol rheolaidd i gasglu plant o Lundain i fynd i atyniad lleol. Mae rhai teithiau yn ymweld â Pharciau Cenedlaethol eraill.	Trafodion ffurfiol yn gyfyngedig, y tu hwnt i'r Ganolfan Groeso a bysiau arfordirol. Yn hanesyddol adran gynllunio wedi bod yn ymwneud â moderneiddio'r safle presennol, a chofir hwn fel profiad cadarnhaol.	Twristiaeth o bwys sylweddol i lwyddiant y cwmni, felly mae polisïau i warchod y Parc Cenedlaethol ac atal gorddatblygu drwy'r system gynllunio yn cael eu hystyried yn bwysig.	Parc Cenedlaethol o bwys sylweddol i'r sector twristiaeth yn yr ardal.
11.	Gorsaf Cychod Hwyllo yn darparu llety (80 o garafanau sefydlog, lleiniau ar gyfer 10 o bebyll, 4 fflat gwyliau a chalets), llithrfa, dau bontŵn yn caniatáu mynediad i ddyfrffordd, 85 o angorfeydd siglo, 100 bae ar y tir ar gyfer storio cychod, tŷ tafarn, caffi a chyfleoedd hamdden. Wedi bod yn	Na.	Mae'r rhan fwyaf o gwsmeriaid o'r Cymoedd, Caerdydd, Casnewydd a Henffordd, hefyd nifer fach o Loegr.	Yn bennaf ar faterion cynllunio. Materion syml yn cael eu datrys yn gyflym ac yn llwyddiannus, ond ni fu ceisiadau mwy uchelgeisiol ar gyfer	Dylai polisïau fod yn fwy cefnogol i fusnesau. Maent yn iawn yn rhoi pwysau i warchod yr amgylchedd, ond gall hyn fod yn niweidiol i fusnesau sydd angen tyfu. Dylid rhoi mwy	Yn bendant yn fuddiol wrth hysbysebu.

	<b>Disgrifiad o'r busnes</b>	<b>Cefnogaeth Sector cyhoeddus?</b>	<b>Lle mae'r cwsmeriaid wedi'u lleoli?</b>	<b>Unrhyw drafodion ffurfiol gydag Awdurdod y Parc Cenedlaethol?</b>	<b>Sut allai Awdurdod y Parc Cenedlaethol gefnogi busnesau yn y Parc yn well?</b>	<b>A yw'r ffaith eich bod wedi eich lleoli mewn Parc Cenedlaethol o fudd i'ch busnes ai peidio?</b>
	berchen safle ers dros 25 mlynedd, yn darparu gwasanaeth o ansawdd da gyda mynediad hawdd at y dŵr.			ehangu ac arallgyfeirio bob amser yn llwyddiannus.	o bwysau i gynyddu cyfleoedd cyflogaeth mewn lleoliadau gwledig wrth asesu ceisiadau. Busnesau sydd am wario arian yn y Parciau yn cael eu cyfyngu yn rhy aml.	
12.	<p>Gwesty a busnes cysylltiedig - perchnogion â chefnidir yn y sector lletygarwch fel hyfforddeion a rheolwyr mewn cadwyni gwestai mawr ac wedi gweithio ar draws y byd. Prynu gwesty glan môr hen ffasiwn yn 2000 gyda gweledigaeth i'w ddatblygu. Adnewyddwyd yn wreiddiol ar gyfer priodasau a digwyddiadau, wedyn ei ddatblygu fel gwesty sba boutique 4* a oedd yn cyflenwi 5*. Ar hyn o bryd 34 o ystafelloedd a 6 o fflatiau dwy ystafell wely.</p> <p>Y farchnad wedi newid ac maent wedi gorfod bod yn hyblyg - mwy o archebion ar-lein, yn hytrach nag asiantau teithio. Ddim yn gwneud partïon Nadolig na llawer briodasau gan fod y rhain yn amharu ar gwsmeriaid craidd.</p> <p>Ar hyn o bryd yn cyflogi tua 60 o staff gydol y flwyddyn, yn codi i 90 yn yr haf yn eu tri busnes. Darparu llety gweithiwr allweddol gan fod prinder llety ar gyfer staff o'r tu allan i'r ardal. Wedi ceisio cyflogi'n lleol,</p>	<p>Cymorth ariannol sylweddol yn y camau cynnar o brynu a datblygu gwesty.</p> <p>Cefnogaeth hefyd gan Siambr Dwristiaeth y Pentref a Chomisiynwyr yr Harbwr.</p> <p>Cefnogaeth gadarnhaol a gweithredol gan y Cyngor Sir sydd â strategaeth datblygu economaidd clir. Disgrifiwyd</p>	Gallai cwsmeriaid gael eu categoreiddio fel corfforaethol (cyfarfodydd a chynadleddau), hamdden a theithwyr busnes.	Ymwneud â swyddogion cynllunio drwy bob cam o ddatblygiad. Yn eu gweld yn gefnogol ac yn ffrind da i'r prosiect. Y cyngor oedd i ymgysylltu â'r cynllunwyr gynnar iawn. Ar hyn o bryd mewn trafodaethau gyda'r adran gynllunio ar faterion eraill.	<p>Gall mwy o gysondeb o ran dehongli polisiau gan swyddogion wneud pethau'n anodd i fusnesau. Mae rhai swyddogion yn deall ac yn bendant, mae eraill i'r gwrthwyneb. Mae'n well gan fusnesau wybod ble maent yn sefyll ac yna gweithio gyda'i gilydd i geisio dod o hyd i ateb, yn hytrach na disgwyl ymateb.</p> <p>Mae angen i'r APC gymryd mwy o ran mewn datblygiad economaidd. Dylai fod yn weithgar a chefnogol fel y Cyngor Sir. Dylid ystyried anghenion economaidd ochr yn ochr â'r amgylchedd a chadwraeth.</p>	Yn sicr. Mae cerdded yn y Parc Cenedlaethol yn atyniad i lawer o gwsmeriaid. Mae digwyddiadau fel Ironman yn bwysig a rhoir credyd i'r Awdurdodau am eu cefnogaeth ar gyfer digwyddiadau o'r fath.

	<b>Disgrifiad o'r busnes</b>	<b>Cefnogaeth Sector cyhoeddus?</b>	<b>Lle mae'r cwsmeriaid wedi'u lleoli?</b>	<b>Unrhyw drafodion ffurfiol gydag Awdurdod y Parc Cenedlaethol?</b>	<b>Sut allai Awdurdod y Parc Cenedlaethol gefnogi busnesau yn y Parc yn well?</b>	<b>A yw'r ffaith eich bod wedi eich lleoli mewn Parc Cenedlaethol o fudd i'ch busnes ai peidio?</b>
	gan weithio gyda Cholegau Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin sy'n cynnig hyfforddiant prentisiaeth ond nid yw pobl ifanc Prydain yn meddwl fod Sir Benfro yn ddeniadol, gan ddewis goleuadau llachar y dinasoedd. Hefyd graddedigion y DU eisiau symud yn syth i mewn swyddi rheoli, fel maent wedi bod yn recriwtio myfyrwyr ar leoliad o Awstria a Ffrainc.	y Awdurdod y Parc Cenedlaethol fel adweithiol gyda ychydig o ddealltwriaeth na gweledigaeth o'r hyn y mae busnesau ei angen a sut y gellid eu cefnogi.				
13.	<p>Cyrchfan gwyliau byr - capasiti presennol yw 1350 ond bydd cyfnodau newydd o ddatblygiad yn cynyddu'r capasiti i 1800-1900. Targed lleoedd llawn yw 97%. Yn yr 8<sup>fed</sup> flwyddyn o weithredu, gyda 500 + o weithwyr fel cymysgedd o amser llawn a rhan-amser. Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn lleol - De Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion.</p> <p>Ffactorau allweddol ar gyfer llwyddiant: perchennog a'r tîm, y lleoliad, dyfalbarhad. Mae'r staff yn glodwiw. Hefyd safon y llety. 44% o ymwelwyr yn dod ar gyfer 'iechyd da a lles'. Marchnata wedi i ganolbwyntio ar deuluoedd oedran cyn-ysgol. Pwll nofio yn ffactor pwysig.</p>	Derbyn grantiau gan sefydliadau amrywiol. Gweithio'n agos gyda Chroeso Cymru.	Y farchnad bresennol o fewn 4 awr o amser gyrru car. Dim busnes mewn Parc Cenedlaethol arall eto.	<p>Y rhan fwyaf o drafodion ar faterion cynllunio. Perthynas wedi gwella. Ystyrir bod y broses cyn-cais yn dda.</p> <p>Byddai'n ddefnyddiol petai'r berthynas yn fwy rhagweithiol o ran yr hyn y gallai busnesau ei wneud a ble y gallent ehangu.</p> <p>Darparwyd rhywfaint o hyfforddiant i ddechrau ar beth oedd y Parc Cenedlaethol – dylid ailymweld â hyn. Hefyd yn hoffi ei wneud</p>	<p>Mae angen i'r APC gael pwrpas economaidd.</p> <p>Angen cael mwy o feddwl cydgysylltiedig rhwng sefydliadau.</p>	Ydy.

	<b>Disgrifiad o'r busnes</b>	<b>Cefnogaeth Sector cyhoeddus?</b>	<b>Lle mae'r cwsmeriaid wedi'u lleoli?</b>	<b>Unrhyw drafodion ffurfiol gydag Awdurdod y Parc Cenedlaethol?</b>	<b>Sut allai Awdurdod y Parc Cenedlaethol gefnogi busnesau yn y Parc yn well?</b>	<b>A yw'r ffaith eich bod wedi eich lleoli mewn Parc Cenedlaethol o fudd i'ch busnes ai peidio?</b>
	<p>Mae ymwelwyr yn ymweld â chyrchfannau y tu allan i'r parc gwyliau.</p> <p>Yn adeiladu cabanau mwy a phedwar caban corfforaethol 12 gwely i ganolbwyntio ar brofiad adeiladu tîm rhyngweithiol. Bydd y datblygiad newydd yn dod yn â 200 o geir ychwanegol i mewn ac yn arwain at fwy o swyddi. Trosiant uchel o weithwyr cadw tŷ.</p>			gwirfoddoli i lanhau traethau.		
14.	<p>Tafarn gydag Ystafelloedd. Tafarn 5* <i>Croeso Cymru</i>.</p> <p>Lle cyfforddus i aros, Ystafelloedd cyfarfod.</p> <p>15 o staff (20 yn yr haf).</p> <p>6<sup>ed</sup> blwyddyn ers ailagor.</p> <p>Dylanwadau: Lleoliad ger cefnffyrdd, ac atyniadau i ymwelwyr gerllaw y maent yn cydweithio â hwy.</p>	Cymorth gan <i>Croeso Cymru</i> tuag at y gwaith adnewyddu.	70% o gwsmeriaid yn dod o tu allan i'r Parc Cenedlaethol. Mae'r brand Parc yn bwysig wrth farchnata.	<p>Ie, wrth gynllunio'r ail-ddatblygu.</p> <p>Materion cydymffurfio wedi codi, ond nid oes unrhyw broblem gyda'r ffordd y mae'r swyddogion wedi ymdrin â'r mater hwn.</p> <p>Hoffai ddatblygu perthynas waith mwy rhagweithiol gyda Wardeiniaid.</p>	Dim sylwadau penodol.	Budd sylweddol. Eu pecyn cerddwyr yn dod yn fwy poblogaidd. Mae'r lleoliad yn allweddol i hynny.
15.	Fferm laeth 600 erw gyda tua 600 o wartheg. Mae'r fferm yn gwerthu llaeth crai ar gyfer llaeth hylif ac mae hyn yn cael ei gludo i Lundain gan danceri lleol. Mae'r fferm yn cyflogi 11 o bobl, 7 ohonynt yn llawn amser. Mae'r teulu wedi bod yn	Mae'r busnes yn derbyn cymhorthdal yr UE, Cynllun y Taliad Sengl ac yn derbyn	Ar draws y DU	Yn bennaf gyda'r Adran Gynllunio. Mae'r rhain wedi bod yn llwyddiannus ac roeddynt yn gweld y profiad yn gadarnhaol oherwydd trafodaeth cyn-	<p>O ran cymorth i fusnesau eu prif bryderon oedd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Tai fforddiadwy ar gyfer eu gweithwyr</li> <li>Yr angen am Wasanaeth Cysylltu</li> </ul>	Dim yn fudd na rhwystr.

	<b>Disgrifiad o'r busnes</b>	<b>Cefnogaeth Sector cyhoeddus?</b>	<b>Lle mae'r cwsmeriaid wedi'u lleoli?</b>	<b>Unrhyw drafodion ffurfiol gydag Awdurdod y Parc Cenedlaethol?</b>	<b>Sut allai Awdurdod y Parc Cenedlaethol gefnogi busnesau yn y Parc yn well?</b>	<b>A yw'r ffaith eich bod wedi eich lleoli mewn Parc Cenedlaethol o fudd i'ch busnes ai peidio?</b>
	<p>berchen y fferm ers 1984 ac mae wedi cael ei moderneiddio yn y blynyddoedd diwethaf.</p> <p>Mae'r fferm yn priodoli ei llwyddiant i ddull laissez faire tuag at amodau'r farchnad sy'n caniatáu mwy o hyblygrwydd iddynt wrth ymateb i newidiadau yn yr economi.</p> <p>Maent yn gwneud cyfraniad pwysig at yr economi leol ac yn amcangyfrif eu bod yn ymwneud â thua 80 o fusnesau lleol.</p>	cyngor gan Lywodraeth Cymru ar ffurf cynlluniau cymorth.		cais dda a arweiniodd at ddealltwriaeth glir o'r prif faterion dan sylw. Maent yn cyflogi Ymgynghorwyr Amaethyddol i'w cynghori ar faterion cynllunio.	<p>Fferm a fyddai'n rhoi gwybodaeth glir ar faterion allweddol sy'n ymwneud â busnesau amaethyddol o fewn y Parciau Cenedlaethol, e.e. gwaredu slyri, defnydd o adeiladau fferm segur a datblygiadau newydd mewn dulliau ffermio.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Diffyg eglurder ar bolisi Parc Cenedlaethol ar gynlluniau ynni adnewyddadwy.</li> </ul>	
16.	<p>Cwmni yn gwerthu a gwasanaethu ceir gan anelu at gyflwyno'r gwasanaeth gorau posibl.</p> <p>Cyflogir deg o staff.</p> <p>16 mlynedd ar y safle presennol</p>	Na.	Y rhan fwyaf o'r sir, yn ogystal ag ymwelwyr yn ystod tymor yr haf. Dim cwsmeriaid mewn Parciau Cenedlaethol eraill.	Cais cynllunio i adeiladu safle newydd ar gyfer y busnes, a gyflawnwyd yn llwyddiannus.	Gofyn i fusnesau beth yw eu problemau, ac a yw'n bosibl darparu cefnogaeth.	Na.
17.	<p>Busnes dylunio mewnol yn gweithio rhan fwyaf gyda chwsmeriaid preifat, ond hefyd rhai gwestai a gwely a brechwast.</p> <p>Perchennog yn rheoli busnesau gyda thîm o weithwyr allanol sydd hefyd yn gweithio iddynt eu hunain.</p>	Na.	Mae cwsmeriaid yn dod o ddalgylch eang. Efallai y bod rhai wedi'u lleoli mewn Parciau Cenedlaethol eraill, ond nid yn	Cyn symud i'r lleoliad presennol, cael caniatâd cynllunio i drosi dau adeilad allanol ar gyfer siop.	Anghyfarwydd â pholisïau APC penodol, ond yn teimlo y dylai busnesau gael eu cefnogi lle bo'n bosibl, e.e. cymorth gyda marchnata i'w gwneud yn gyrchfan drwy gydol y	Dim gwahaniaeth.

	<b>Disgrifiad o'r busnes</b>	<b>Cefnogaeth Sector cyhoeddus?</b>	<b>Lle mae'r cwsmeriaid wedi'u lleoli?</b>	<b>Unrhyw drafodion ffurfiol gydag Awdurdod y Parc Cenedlaethol?</b>	<b>Sut allai Awdurdod y Parc Cenedlaethol gefnogi busnesau yn y Parc yn well?</b>	<b>A yw'r ffaith eich bod wedi eich lleoli mewn Parc Cenedlaethol o fudd i'ch busnes ai peidio?</b>
	<p>Wedi bod mewn busnes ers 20 mlynedd, gyda'r 4 blynedd ddiwethaf ar y safle presennol.</p> <p>Busnes yn darparu ar gyfer marchnad arbenigol, gyda gwasanaeth cwsmeriaid da a chynnyrch o safon.</p>		benodol.		flwyddyn. Byddai hefyd yn helpu petai Canolfannau Croeso ar agor gydol y flwyddyn.	
18.	Gwasanaeth cynghori rheoli cefn gwlad/ mynediad i'r cyhoedd, yn cyflogi 10-12 o staff yn dibynnu ar y galw ac mewn bodolaeth ers 28 mlynedd. Llwyddiant oherwydd ansawdd a dibynadwyedd.	Na.				Na.
19.	Siop rhoddion, melysion a theganau gyda dau fflat uwchben i ymwelwyr. Gŵr a gwraig yn rhedeg y siop ac yn cyflogi staff rhan-amser pan yn brysur. Mewn busnes ers 2003. Mae llwyddiant yn dibynnu ar y tywydd, a hefyd amgylchedd y pentref.	Na.	Na.	Cais cynllunio i newid y tŷ i fflat ac fe ganiatawyd.	Gwelliannau ffyrdd gan y Cyngor heb rwystr yr APC. Cysondeb yn y system gynllunio.	Ydy.
20.	Fferm 600 erw yn cyflogi 6 staff ll-a (gan gynnwys teulu) a 6 staff rh-a. 700 o dda byw - llaeth a chig eidion. Perchennog presennol yw 5 <sup>ed</sup> genhedlaeth ac wedi bod yn ffermio ers 1982. Llwyddiant o ganlyniad i laswelltir da.	Taliad sengl a chytundeb rheoli gydag APC ers 25 mlynedd.	Busnes y tu allan i'r Parc Cenedlaethol	Perthynas dda gyda'r Tîm Wardeniaid a'r ecolegydd. Profiad negyddol o wasanaeth cynllunio - gwrthodwyd ceisiadau. Hefyd cyngor cyn-cais gwael. Teimlo fod yr awdurdod yn cael ei ddychryn gan ddiddordebau allanol ac	Mwy o bwyslais ar ffermio, llai ar dwristiaeth. Llwybrau Ceffyl yn cael eu defnyddio lai nag erioed erbyn hyn.	Dim budd, negyddol oherwydd cynllunio.



	<b>Disgrifiad o'r busnes</b>	<b>Cefnogaeth Sector cyhoeddus?</b>	<b>Lle mae'r cwsmeriaid wedi'u lleoli?</b>	<b>Unrhyw drafodion ffurfiol gydag Awdurdod y Parc Cenedlaethol?</b>	<b>Sut allai Awdurdod y Parc Cenedlaethol gefnogi busnesau yn y Parc yn well?</b>	<b>A yw'r ffaith eich bod wedi eich lleoli mewn Parc Cenedlaethol o fudd i'ch busnes ai peidio?</b>
				yn rhy agos at Gyfeillion y Parc Cenedlaethol.		

## ATODIAD D1

### CYD BWYLLGOR CRAFFU 21ain o Chwefror 2014

Presennol:

Cynrychiolwyr o Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro:

Aelodau: Mrs G Hayward, Cynghorydd DGM James a'r Cynghorydd B Kilmister.

Swyddogion: Mr T Jones, Prif Weithredwr a Mrs J Evans, Rheolwr Gweinyddol a Gwasanaethau Democrataidd.

Cynrychiolwyr o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri:

Aelodau: Cynghorydd A Gruffydd, Dr I ap Gwynn, Cynghorydd S Jones (yn lle'r Cynghorydd E Edwards), Cynghorydd C Roberts a Mrs E Roberts.

Swyddogion: Mr A Phillips, Prif Weithredwr, Mr I Jones, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol, Mr J Cawley, Cyfarwyddwr Cynllunio a Threftadaeth Ddiwylliannol, a Mr E Williams, Cyfarwyddwr Rheoli Tir (Prif Weithredwr etholedig).

(Canolfan Rheidol, Aberystwyth: 10.00a.m. – 12.45p.m.  
a 1.15p.m. – 1.50yp)

#### 1. Ethol Cadeirydd

**CYTUNWYD YN UNFRYDOL** y dylai Mrs G Hayward gael ei hethol fel Cadeirydd y Cyd Bwyllgor Craffu.

#### 2. Ethol Is Gadeirydd

**CYTUNWYD YN UNFRYDOL** y dylai Dr Iolo ap Gwynn gael ei ethol fel Is Gadeirydd y Cyd Bwyllgor Craffu.

#### 3. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldebau gan y Cynghorydd RM Lewis a Mr AE Sangster (Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro), a'r Cynghorydd E Edwards (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri).

#### 4. Datganiadau diddordeb

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau diddordeb.

#### 5. Craffu yn Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol

Dywedodd Mr T Jones fel y byddai yr Aelodau'n ymwybodol, mae Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol (APCau) yn gweithredu gwahanol

fodelau o lywodraethu i'r cyngorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol ac, fel y cyfryw, ni allai'r broses graffu sy'n cael ei chyflawni gan yr awdurdodau hynny gael ei mabwysiadu gan Awdurdodau y Parciau Cenedlaethol.

Yng ngoleuni hyn, ac mewn ymdrech i ganfod proses graffu effeithiol y gellid eu cyflwyno i waith Awdurdodau y Parciau Cenedlaethol, dechreuodd Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Arfordir Penfro a'r Bannau Brycheiniog ill dau ar brosiect craffu ar y cyd, gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn cymryd golwg ar sut mae'r prosiect yn mynd yn ei flaen. Roedd y Ganolfan ar gyfer Craffu Cyhoeddus hefyd yn chwarae rhan ac fe wnaethant ddarparu nifer o sesiynau hyfforddi wedi'u hanelu at ddatblygu sgiliau craffu yr Aelodau hynny sy'n cymryd rhan. Cynhaliwyd dau adolygiad craffu hefyd yn ystod oes y prosiect, un ohonynt ar effeithiolrwydd y Gronfa Datblygu Cynaliadwy wrth helpu i sefydlu cymunedau carbon isel, tra bo'r ail yn canolbwyntio ar werth ac effeithiolrwydd hawliau tramwy cyhoeddus.

Amlinellodd Mr Jones i'r Aelodau sut y mae'r broses wedi cael ei datblygu ac wedi esblygu o ganlyniad i'r prosiect, gan bwysleisio'r angen i gynllunio'n ofalus, er mwyn sicrhau bod yr holl wybodaeth sydd ar gael wrth law cyn cyfweld tystion arbenigol ac, yn bwysicaf oll, er mwyn sicrhau bod yr adolygiad yn hydrin o fewn amserlen resymol.

Gofynnwyd cwestiynau i Aelodau Arfordir Penfro a oedd yn chwarae rhan yn y prosiect craffu gyda Bannau'r Brycheiniog a gofynnwyd am eglurhad gan swyddogion ar nifer o bwyntiau.

Yn dilyn trafodaeth, **CYTUNWYD** bod y broses a amlinellwyd gan Mr Jones yn cael ei ddefnyddio i gynnal yr adolygiad craffu ar y cyd ar y gweill.

## 6. Ymarfer cwmpasu

Atgoffodd Mr T Jones yr Aelodau eu bod wedi cael y cyfrifoldeb gan eu Hawdurdodau eu hunain i gynnal adolygiad craffu ar y cyd mewn perthynas â dyletswydd economaidd-gymdeithasol Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (APCau). Mae union gylch gwaith yr adolygiad i'w benderfynu gan y Cyd-bwyllgor y diwrnod hwnnw.

Er mwyn helpu yr Aelodau i benderfynu ar y pwnc ar gyfer yr adolygiad, awgrymodd Mr Jones eu bod yn defnyddio'r Ffurflen Cwmpasu a oedd wedi ei dyfeisio yn ystod y prosiect craffu ar y cyd blaenorol rhwng Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro a'r Bannau Brycheiniog. Cytunodd yr Aelodau y byddai'n arf defnyddiol ac yna aeth ati i gytuno ar y maes testun penodol a'r ffordd gyffredinol ymlaen.

Cafwyd trafodaeth hir lle daeth yr Aelodau i'r casgliad y byddai'n fuddiol dros ben i gasglu tystiolaeth ynghylch a yw polisïau presennol yn cefnogi cymunedau cynaliadwy. Fodd bynnag, er mwyn cadw'r adolygiad yn hylaw, teimlwyd y dylai'r gwaith gael ei gyfyngu i un maes pwnc penodol - busnesau micro. Ystyriwyd hefyd bod angen sicrhau data llinell sylfaen o'r cychwyn cyntaf ac y gallai hyn gael ei wneud gan barti annibynnol, ee Prifysgol Bangor.

Fe GYTUNWYD :

- (a) bod adolygiad yn cael ei gynnal i ganfod pa mor llwyddiannus yw polisïau a gwaith Awdurdod y Parc Cenedlaethol o ran cefnogi creu swyddi mewn busnesau micro;
- (b) bod Dr I ap Gwynn, Mr T Jones a Mr A Phillips yn cytuno ar friff i gael ei gyflwyno i barti annibynnol (ee Prifysgol Bangor) ar gyfer sicrhau data sylfaenol ar fusnesau micro o fewn ac yn union gerllaw tri Awdurdod Parciau Cenedlaethol Cymru;
- (c) bod Mr A Phillips yn cysylltu â'r Ymgynghorwyr Arup mewn perthynas â gwybodaeth sydd eisoes wedi'i chasglu yn ymwneud â busnesau micro o fewn ac yn union gyfagos i'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru;
- (d) bod cynrychiolwyr o'r sefydliadau / cyrff a grybwyllir isod, ynghyd â detholiad o unigolion o'r sectorau y cyfeirir atynt isod, yn cael eu gwahodd naill ai i gyflwyno neu roi tystiolaeth ysgrifenedig i'r Cyd Bwyllgor Craffu:

Cynghorau Sir Cyfansoddol (Gwasanaethau Cynghorol Busnes Awdurdodau Lleol);

Busnesau yn y Parciau Cenedlaethol sydd â phrofiad o'r broses gynllunio;

Ffermwyr yn y Parciau Cenedlaethol, yn enwedig y rhai sydd wedi arallgyfeirio eu busnes;

Ffederasiwn Busnesau Bach;

Undeb Amaethwyr Cymru, Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr a'r Gymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad;

Cynghorau Tref a Chymuned;

Siambrau Masnach;

Asiantau Cynllunio

Partneriaethau Datblygu / Twristiaeth Wledig, gan gynnwys Croeso Cymru;

Licensed Victuallers' Association;

Grwpiau Awyr Agored Siartredig;

Clybiau Ffermwyr Ifanc a Chynghorau Ieunectid;

Grwpiau Cymunedol, a

Llywodraeth Cymru (mewn perthynas ag isadeiledd bandllydan)

- (e) bod y cyfarfod nesaf yn cael ei drefnu ar gyfer Ebrill 2014, a
- (f) bod yr adolygiad craffu yn cael ei gwblhau erbyn yr hydref 2014.

**CYD BWYLLGOR CRAFFU  
17 Medi 2014**

Presennol:

Cynrychiolwyr o Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro:

Aelodau: Mrs G Hayward (Cadeirydd), y Cynghorydd DGM James,  
Cynghorydd RM Lewis a Mr AE Sangster

Swyddogion: Mr T Jones, Prif Weithredwr

Cynrychiolwyr o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri:

Aelodau: Cynghorydd A Gruffydd, Cynghorydd S W Jones, Cynghorydd J  
MacLennan a'r Cynghorydd C Roberts.

Swyddogion: Mr E Williams, Prif Weithredwr, Mr J Cawley, Cyfarwyddwr  
Cynllunio a Threftadaeth Ddiwylliannol a Mr G I Jones,  
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol.

(Cyfarfod trwy gyfrwng cynhadledd fideo 2.00yp – 3.00yp)

**1. Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldebau gan y Cynghorydd B  
Kilmister (Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro), a'r Cynghorydd  
E Edwards a Dr I ap Gwynn, (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri).

**2. Datganiadau diddordeb**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau diddordeb.

**3. Cofnodion**

Cyflwynwyd y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y 21ain o Chwefror 2014  
i'w cadarnhau a'u llofnodi.

**Penderfynwyd** y dylai'r cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y 21ain o  
Chwefror 2014 gael eu cadarnhau a'u llofnodi.

**4. Cadarnhau Cwmpas yr Adolygiad** - atgoffodd y Cadeirydd y Pwyllgor, yn y  
cyfarfod blaenorol, fe gytunwyd "y dylid cynnal adolygiad i ganfod pa mor  
lwyddiannus yw polisiâu a gwaith Awdurdod y Parc Cenedlaethol wrth cefnogi'r  
gwaith o greu swyddi mewn busnesau micro". Ers y cyfarfod roedd nifer o  
Aelodau wedi meddwl ynghylch y mater hwn ac wedi mynegi'r farn iddi fod hyn  
yn rhy gyfyngedig o ran cwmpas; felly gofynnodd am farn y Pwyllgor ynghylch a  
ddylai cwmpas yr adolygiad gael ei ledaenu.

I ddechrau roedd rhai Aelodau yn pryderu y byddai ehangu'r prosiect yn ei wneud yn rhy fawr i'w weithredu, yn enwedig o ystyried bod llithriant wedi digwydd eisoes, ac y dylai'r briff aros fel y cytunwyd yn flaenorol. Roeddent yn awyddus i bwysleisio pa mor bwysig yw busnesau bach i'r Parc Cenedlaethol a bod yr Awdurdod yn croesawu eu ehangiad i mewn i fusnesau mwy. Fodd bynnag, roedd Aelodau eraill o'r farn y gallai canolbwyntio ar fusnesau micro roi darlun gwyrngam, er y cytunwyd eu bod yn elfennau bwysig yn y Parc Cenedlaethol, gallai busnesau canolig eu maint gael effaith economaidd fwy. Felly, byddai sampl gwell ar gael pe bai amrywiaeth ehangach o fusnesau yn cael eu hystyried.

Awgrymwyd y gallai fod yn ddefnyddiol i ddiffinio beth oedd ystyr bach, canolig a mawr o ran niferoedd y gweithwyr a chytunwyd y dylai bach (micro) fod o dan 10, tra oedd MBCh (Menter Bach a Chanolig) i fyny i hyd at 250. Nodwyd bod yna ychydig o fusnesau gyda dros 250 o weithwyr yn y Parc Cenedlaethol, fodd bynnag, roedd cryn nifer gyda mwy na 10, yn enwedig y rhai a oedd yn cyflogi staff rhan amser.

**CYTUNWYD** y dylai cwmpas yr adolygiad craffu gael ei ehangu i gynnwys yr holl fentrau bach a chanolig eu maint.

Nododd y Cadeirydd nad oedd teitl i'r Pwyllgor wedi ei gytuno yn y cyfarfod blaenorol. Fe awgrymwyd "Grŵp Cyd Craffu ar Economi y Parciau Cenedlaethol" a chytunwyd y dylai Prif Weithredwyr y ddau Awdurdod gwblhau teitl derbyniol o'r ddwy ochr.

## 5. Fframwaith Cyfweliad Posibl

Awgrymodd y Cadeirydd y dylai Fframwaith y Cyfweliad a ddosbarthwyd gyda'r agenda gael ei ddefnyddio fel sail ar gyfer pob Aelod i gyfweld 3 o fusnesau, a bod y data a gesglir yn cael ei ddefnyddio fel sail o dystiolaeth ar gyfer yr adolygiad craffu.

Holodd un Aelod a fyddai hyn yn darparu digon o ddata, fodd bynnag, tynnwyd sylw at y ffaith gan mai data ansoddol, yn hytrach nag ystadegau caled, byddai gwybodaeth o 30 o fusnesau yn resymol. Y gobaith oedd y byddai amrywiaeth eang o sectorau busnes yn cael eu cynnwys, yn ogystal â'r rhai a sefydlwyd 10 mlynedd neu fwy yn ôl, gan gynnwys yn fwy diweddar, a **CHYTUNWYD** y byddai'r Aelodau yn rhoi eu rhestrau o'r rhai a holwyd arfaethedig i'w Prif Weithredwyr perthnasol fel gellir hyn ei sicrhau.

**CYTUNWYD** hefyd y bydd rhai newidiadau yn cael eu gwneud i'r rhestr o gwestiynau, gyda chynnwys cwestiwn ychwanegol ynghylch effeithiau'r

busnesau ar yr iaith Gymraeg, gyda hyn yn cael eu llunio gan y Prif Weithredwyr yn yr ymgynghoriad; hefyd newidir y cwestiwn cyntaf i weld a yw'r busnesau wedi derbyn unrhyw gymorth, ac o ba ffynonellau ac i ofyn am eu mynediad at fand eang.

## 6. **Darparwyr Tystiolaeth**

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd y Pwyllgor yn fodlon ar y rhestr o ddarparwyr tystiolaeth a drafodwyd yn y cyfarfod diwethaf a nodwyd yn y cofnodion. Cytunwyd bod pob dim yn parhau i fod yn berthnasol, fodd bynnag, cynigiwyd y gallai Cynghorydd S a oedd gyda Wardiau yn y Parc Cenedlaethol gael eu cynnwys ac er mwyn archwilio materion sy'n ymwneud a darpariaeth band eang ymhellach, gellid gofyn am wybodaeth gan Swyddogion BT neu Lywodraeth Cymru. Awgrymwyd hefyd y gallai fod yn ddiddorol i gyfarfod â Gweinidog i'r Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth. Teimlai'r Aelodau eraill nad oedd yn briodol gwahodd y Gweinidog i beth oedd yn Bwyllgor Craffu, a CHYTUNWYD bod Cynghorydd Sir S, BT a Llywodraeth Cymru i'w cael eu cynnwys yn y rhestr, ond y byddai cyflwyniad i'r Gweinidog yn cael ei ystyried unwaith y byddai'r adroddiad craffu yn cael ei gwblhau.

Yna gofynnod y Cadeirydd am farn yr Aelodau ynghylch pa sefydliadau byddai'n cael eu gwahodd i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor ac y byddai'n gofyn am ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig. **CYTUNWYD** y byddai Aelodau yn cyflawni eu cyfweiliadau gyda busnesau lleol yn gyntaf, a bod hyn yn digwydd cyn diwedd mis Hydref, cyn i'r Pwyllgor gwrdd unwaith eto yn Aberystwyth i fynd trwy'r dystiolaeth a gasglwyd a phenderfynu ar y ffordd ymlaen.

## 7. **Dyddiad y cyfarfod nesaf CYTUNWYD** y byddai'r swyddogion yn cytuno ar ddyddiad ar gyfer y cyfarfod nesaf, gobeithio ym mis Tachwedd, unwaith y byddai'r holl faterion sy'n weddill yn cael eu datrys ac y byddai'r Aelodau yn cyflawni eu cyfweiliadau casglu tystiolaeth.

Gan nad oedd unrhyw fater arall, diolchodd y Cadeirydd i bawb am gymryd rhan yn y cyfarfod.



## ATODIAD D3

### CYDWEITHGOR CRAFFU Y PARCIAU CENEDLAETHOL AR YR ECONOMI 30 Ionawr 2015

Presennol:

Cynrychiolwyr o Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro:

Aelodau: Mrs G Hayward (Cadeirydd), Cynghorydd DGM James a Mr AE Sangster.

Swyddogion: Mr T Jones, Prif Weithredwr.

Cynrychiolwyr o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri:

Aelodau: Cynghorydd A Gruffydd, Dr I ap Gwynn, a'r Cynghorydd s C a Mrs E Roberts.

Swyddogion: Mr E Williams, Prif Weithredwr, Mr J Cawley, Cyfarwyddwr Cynllunio a Threftadaeth Ddiwylliannol a Mr GI Jones, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol.

(Cyfarfod trwy gyfrwng cynhadledd fideo 2.00yp – 3.10yp)

#### 1. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldebau gan y Cynghorwyr B Kilmister ac RM Lewis (Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro), a Cynghorydd E Edwards, SW Jones a J MacLennan (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri).

#### 2. Datganiadau diddordeb

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau diddordeb.

#### 3. Cofnodion

Cyflwynwyd y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y 17 Medi 2014 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

CYTUNWYD y dylai'r cofnodion a gyflwynwyd o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y 17 Medi 2014 gael eu cadarnhau a'u llofnodi.

#### 4. Trafodaethu wyneb i wyneb: canlyniadau

Cyfeiriodd y Cadeirydd at ganlyniadau'r y trafodaethau wyneb-yn-wyneb a oedd wedi digwydd hyd yn hyn, a diolchodd i'r Aelodau dan sylw am gymryd yr amser i'w cyflawni. Roedd o'r farn y gallai cryn dipyn o

wybodaeth ddefnyddiol gael ei chymryd o'r 'cyfweliadau'. Cytunodd Mr AE Sangster, gan ddweud y gallai rhai themâu gael eu nodi, sef:

- Ymlgywiad y broses gynllunio;
- y ffaith bod cysylltiadau a phrosesau yn bwysig i bobl
- roedd yn ymddangos fod diffyg dealltwriaeth o, a / neu anhawster wrth ymgysylltu ag Awdurdodau Parc Cenedlaetholbusnesau ymysg busnesau bach iawn;
- cefnogaeth / cymeradwyaeth gan bawb bron tuag at y gwerth y mae'r Parciau Cenedlaethol yn ei ychwanegu i'r dirwedd a'r rhai sy'n byw yn y Parciau.

Codwyd y cwestiwn gan Dr I ap Gwynn ynghylch sut oedd y wybodaeth a gesglir yn mynd i gael ei ddefnyddio; boed hynny ar gyfer defnydd mewnlol neu i'w ddsbarthu'n allanol yn ehangach. Roedd yn dadlau nad yw'r nifer cyfyngedig o fusnesau / meysydd diwydiant a gyfwelwyd yn ddigon eang, a fe ellid ystyried eu bod yn rhy oddrychol - neu hyd yn oed yn rhagfarnlyd - yn eu dull gweithredu, a allai arwain at feirniadaeth o unrhyw ganfyddiadau yn y pen draw.

Ymatebodd Mr T Jones trwy ddweud mai bwriad yr ymarfer craffu oedd rhoi mewnwleidiad i'r Awdurdodau ynghylch pa mor lwyddiannus yw polisiau'r Parciau Cenedlaethol ar hyn o bryd yn, ac a yw'r rhain angen cael eu hailddiffinio mewn unrhyw ffordd. Adroddodd bod adolygiad Craffu blaenorol a gynhaliwyd gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (p'un ai mewn partneriaeth ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog neu ar ei ben ei hun) wedi dilyn yr un fformat, ac nid yw peth o'r dystiolaeth a gasglwyd yn ganmoladwy. Fodd bynnag, yr oedd y canlyniadau yr adolygiadau hynny wedi arwain at wneud newidiadau, a fyddai'n gwella ffordd yr Awdurdod o weithio. Ni ddylai'r ffaith mai dim ond sampl fach o fusnesau sy'n cael eu targedu gael ei daflu o'r neilltu (ei ddi-ystyrru) fel rhyw beth nad yw o unrhyw werth i'r broses adolygu sy'n digwydd ar hyn o bryd.

Hefyd, fe atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau fod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn edrych yn barhaus arno ef ei hun a'r ffordd y mae'n gweithredu. Oherwydd bod yr Awdurdodau yn ymgymryd â'r adolygiad hwn eu hunain doedd hynny ddim yn golygu bod yr adolygiad yn annilys. Roeddent yn creu corff o wybodaeth am agweddau tuag at bolisiau economaidd y Parc Cenedlaethol.

Croesawodd y Cynghorydd Mrs E Roberts y ffaith fod 'defnyddwyr gwasanaeth' yn cymryd rhan yn y broses. Cyfeiriodd at Fesur Cenedlaethau'r Dyfodol, a oedd yn canolbwyntio ar y dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y dinesydd. Dywedodd Mr T Jones fod Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi datblygu eu proses craffu i

gynnwys aelodau o'r cyhoedd yn eu hadolygiadau. Cafodd hyn ei groesawu gan yr Aelodau fel ffordd ymlaen ar gyfer adolygiadau Craffu yn y dyfodol.

**5. Ymatebion a dderbyniwyd gan 'gyrff ymbarél'**

Adroddodd y Cadeirydd bod ymatebion wedi dod i law hyd yn hyn gan Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, y Gymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad, a Thwristiaeth Sir Benfro. Byddai nodyn atgoffa yn cael eu hanfon at y 'cyrff ymbarél' eraill hynny a gysylltwyd â hwy i weld a oeddent yn dymuno rhoi ymateb ysgrifenedig neu a fyddai yn hytrach yn well ganddynt gwrdd â'r Pwyllgor i drafod materion.

Awgrymodd Aelodau o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri eu bod yn cysylltu â rhai 'cyrff ymbarél' yn eu hardal hwy, a gofynnodd y Cadeirydd i'r holl ymatebion ysgrifenedig ddod i law erbyn diwedd mis Chwefror 2015.

**6. Tystiolaeth ychanwanegol**

Dywedodd y Cadeirydd fod Aelodau o Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro wedi cyfarfod â swyddogion ac Aelodau o Gyngor Sir Benfro i drafod eu dulliau gweithredu economaidd priodol. Roedd hyn wedi profi i fod yn sesiwn ddefnyddiol iawn, a dywedodd Mr E Williams y byddai'n trefnu sesiwn debyg gyda Chyngor Sir Gwynedd.

Hefyd, ystyriodd yr Aelodau y dylid gwahodd tystiolaeth lafar gan nifer o sectorau, gan gynnwys y sectorau twristiaeth, amaethyddiaeth, manwerthu / siambrau masnach a gweithgareddau awyr agored.

Awgrymwyd y dylai dwy sesiwn gael eu trefnu, un yn Sir Benfro a'r llall yn Eryri, ac y dylai sefydliadau perthnasol / cyrff gael eu gwahodd i fod yn bresennol i roi tystiolaeth. Fe awgrymwyd hefyd bod y Cynulliad a / neu Aelodau Seneddol yn cael eu gwahodd i roi tystiolaeth, yn enwedig gan mai hwy yw'r bobl y mae busnesau yn cysylltu â hwy os oes ganddynt broblem.

Fe GYTUNWYD :

- (a) bod dau gyfarfod yn cael eu trefnu, yn yr ardaloedd perthnasol o'r Parciau Cenedlaethol, a bod sefydliadau / unigolion a nodwyd yn cael eu gwahodd i roi tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor,
- (b) bod yr Aelodau'n mynd at eu Haelodau cyfansoddol perthnasol o'r Cynulliad a / neu Aelodau Seneddol i roi tystiolaeth.

**CYDWEITHGOR CRAFFU AR YR ECONOMI Y PARCIAU  
CENEDLAETHOL  
11 Mawrth 2015**

Presennol:

Cynrychiolwyr o Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro:

Aelodau: Mrs G Hayward (Cadeirydd), Cynghorydd s DGM James, B Kilmister a RM Lewis a Mr AE Sangster.

Swyddogion: Mr T Jones, Prif Weithredwr.

Cynrychiolwyr o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri:

Aelod: Cynghorydd A Gruffydd,

(Swyddfeydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol, Parc Llanion, Doc Penfro:  
10.00yb – 12.35yp a 12.55yp – 3.50yp)

**1. Ymddiheuriadau**

Nid oedd dim ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. Datganiadau diddordeb**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau diddordeb.

**3. Cofnodion**

Cyflwynwyd y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y 30 Ionawr 2015 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

CYTUNWYD y dylai'r cofnodion a gyflwynwyd o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y 30 Ionawr 2015 gael eu cadarnhau a'u llofnodi.

**4. Trefniadau Holi Cwestiynau**

Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau fod rhestr awgrymedig o gwestiynau wedi cael eu dosbarthu i'r Pwyllgor a bod y rhain hefyd wedi cael eu hanfon at y rhai a oedd wedi cael gwahoddiad i roi tystiolaeth i'w helpu wrth iddynt gael eu paratoi. Trafododd yr Aelodau pwy fyddai'n gofyn pob cwestiwn ac ym mha drefn y byddent yn cael eu gofyn.

**5. Cyflwyniadau a Thystiolaeth**

- a) Ms Martina Dunne, Pennaeth Cyfeiriad y Parc a Mr Gary Meopham, Swyddog Stadau, APC Arfordir Penfro

Croesawodd y Cadeirydd y grŵp cyntaf i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor. Esboniodd Mr Meopham, fel Swyddog Stadau mai ei gyfrifoldeb craidd ef oedd rheoli portffolio eiddo yr Awdurdod, fodd bynnag, yr oedd hyn weithiau yn cynnwys gweithgarwch economaidd. Mae'r rhan fwyaf o'r portffolio yn cael ei gynnal ar gyfer amcanion cadwraeth, fodd bynnag, pan yr oedd cyfleoedd economaidd yn dod i'r amlwg, mae'r Awdurdod yn edrych tuag at fanteisio ar hynny. Yn anffodus, nid oedd digon o amser i ofyn cwestiynau i Mr Meopham, a gofynnwyd iddo ddychwelyd ar ddiwedd y dydd ac mae (Cofnod 5e) yn cyfeirio at hyn).

Rhoddodd Ms Dunne gyflwyniad a oedd yn canolbwyntio ar Reoli Datblygu a'r Cynllun Datblygu Lleol a sut y mae ceisiadau cynllunio yn effeithio ar ddatblygu economaidd yn y Parc Cenedlaethol.

Yr oedd y pwyntiau a godwyd yn y sesiwn gyda Ms Dunne fel a ganlyn:

- Yr oedd Gwerthfawrogi y Parciau Cenedlaethol yng Nghymru '(Medi 2013) yn nodi fod bod 1,390 o unedau busnes ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn cyflogi 7,000 o bobl, a bod amgylchedd y Parc Cenedlaethol yn cefnogi 3,532 o'r swyddi hyn yn uniongyrchol a 529 pellach yn anuniongyrchol.
- Ar gyfartaledd, mae busnesau yn y Parciau Cenedlaethol yng Nghymru yn cyflogi 15.06 o bobl, a oedd yn is na chyfartaledd Cymru o 26.92
- Mae lefel cyflogaeth mewn Parciau Cenedlaethol yn debyg i'r hyn sydd yng ngweddill Cymru
- Mae Cyfartaledd Gwerth Ychwanegol Crynswth / poblogaeth ar gyfer y Parciau Cenedlaethol yng Nghymru yn tua £7,000 a oedd yn is na gweddill Cymru lle'r oedd cyfleoedd cyflogaeth fwy datblygedig.
- Awgrymwyd bod y rhesymau dros y ffigurau hyn yn debygol o fod y ffaith bod y Parciau Cenedlaethol yn cynnwys busnesau gwledig amrywiol mewn sectorau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth. Mae llawer o'r busnesau yn llai ac mae yna ddiffyg gweithgynhyrchu, ond mae yna lawer o fusnesau hunangyflogedig ac busnesau 'ffordd o fyw'.
- Yr oedd Cyngor Sir Benfro wedi comisiynu arolwg busnes o sampl o fusnesau yn 2012 a oedd wedi tynnu sylw at y ffaith bod hyder busnes yn gymharol uchel wrth fynd ymlaen ond bod rhwystrau rhag twf yn cynnwys difaterwch o fewn yr economi, ardrethi busnes uchel, cystadleuaeth gan fusnesau mwy a thymhoroldeb
- Nododd y rhan fwyaf o'r ymatebion i gwestiwn ynghylch argaeledd cymorth busnes nad oedd unrhyw gymorth, ac yr oedd swyddogion yn credu fod hyn yn beth eithaf pryderus, ac o bosibl yn dod gan bobl mewn busnesau hunangyflogedig nad oedd yn ymwybodol o'r rhwydwaith cyngor a oedd ar gael.
- Atebodd 7% o fusnesau gan ddweud eu bod angen adeiladau mwy, fodd bynnag, nid oedd unrhyw gyngor lleoliad penodol gan fod yr arolwg yn cynnwys busnesau yn Sir Benfro yn gyffredinol.

- Cynllun Gofodol Cymru oedd y canllaw ar gyfer ysgrifennu'r Cynllun Datblygu Lleol. Roedd tri hyb strategol lle y byddai buddsoddi yn yr ardal yn y dyfodol yn cael ei ganoli - yn yr Aber / Hwlfordd, Abergwaun a Chaerfyrddin. Hefyd mae canolfannau gwledig yn y Parc Cenedlaethol yn Nhrefdraeth, Tyddewi, Dinbych y Pysgod a Saundersfoot. Mae angen i safleoedd cyflogaeth strategol gael eu canolbwyntio mewn canolfannau mwy o faint ac ynni adnewyddadwy yn ardal dyfrffordd Aberdaugleddau. Hefyd mae angen i dwristiaeth / hamdden - ymestyn y tymor a gwella ansawdd y ddarpariaeth.
- Yr oedd Diagram Allweddol o GDLI CSB a oedd yn dangos sut y mae'r Cynllun Gofodol yn trosi i bolisiau'r CDLI. Yr oedd y diagram yn dangos y canolfannau o fewn CSB a'r Parc Cenedlaethol ill dau. Roedd cyflogaeth bellach yn dderbyniol o fewn neu'n gyfagos i ffiniau aneddiadau ac ni fyddai unrhyw ddyraniadau penodol.
- Ceisiadau cynllunio - mae yna ganfyddiad bod yr Awdurdod yn gwrthod popeth. Y gwir amdani yw yn 2012/13 yn gyffredinol cafodd 84% o geisiadau masnachol neu geisiadau busnes eu cymeradwyo. Diweddariad ar gyfer ystadegau 2013/14 - fe gymeradwywyd 92%. Mae llai o dyrbinau yn cael eu cymeradwyo, fodd bynnag, nid oedd hyn yn syndod gan fod llai o gyfleoedd ar gyfer tyrbinau i gyd-weddu o fewn y dirwedd, yn enwedig pan mae'r effaith gynyddol yn cael ei ystyried.
- Mae rhesymau dros wrthod fel arfer oherwydd y manylion: Lleoliad, graddfa, dyluniad, gofynion manwl, amwynder defnyddiau cyfagos.
- Gwaith presennol i ddiweddarau'r papurau cefndir cyflogaeth fel rhan o'r adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol (taflen a gyflwynwyd yn y cyfarfod)
- Yn aros am ganllawiau terfynol gan Lywodraeth Cymru ar Adolygiadau Tir Cyflogaeth. Roedd yr Awdurdod yn gweithio gyda Chyngor Sir Benfro i baratoi elfen arolwg lleol fel rhagflaenydd i'r Adolygiad.
- Mae Polisi Cynllunio Cymru wedi ei ddiweddarau yn ychwanegu ystyriaeth ar gyfer cyfagosatrwydd i anheddiad, yn hytrach na dim ond o fewn. Byddai hyn yn ystyriaeth o bwys mewn unrhyw gais cynllunio. Gallai safleoedd o'r fath fod yn sylweddol - hyd at 2ha - rhaid i ni ystyried yr effeithiau ar y dirwedd.
- Materion eraill i'w hystyried fel rhan o'r adolygiad o'r CDLI oedd cysylltiadau ar y lan (gan gynnwys gallu'r grid) ar gyfer datblygiadau alltraeth; Llaethdai enfawr (cynnig lle ar gyfer adeiladau mawr o fewn y dirwedd) / lagwnau slyri; a Safleoedd dyrannu nad ydynt yn dod ymlaen. (roedd y daflen yn dangos y sefyllfa bresennol o ran dyraniadau yn y CDLI)
- Mae'r Cynllun Gofodol yn yn dal yn gosod y cyd-destun strategol ar gyfer Cynllun yr Awdurdod drwy ddeddfwriaeth, er gwaethaf sôn am Ardaloedd Menter a Rhanbarthau Dinas ymysg gwleidyddion
- Ystyriai Ms Dunne fod polisiau'r Awdurdod yn cynnwys digon o hyblygrwydd i ymdopi â chanllawiau Llywodraeth Cymru newydd neu fentrau, ond mae yna wastad oedi wrth gynhyrchu canllawiau o'r fath.

- Ar hyn o bryd nid oes gan yr Awdurdod yr arbenigedd na'r adnoddau i roi cyngor ar ddatblygu economaidd ac eithrio drwy gyfrwng y rôl cynllunio. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae yna gyswllt a gweithio mewn partneriaeth yn digwydd gyda Chyngor Sir Penfro sy'n darparu'r rôl honno ar hyn o bryd.
- Nid oedd unrhyw amserlen ar gyfer cyhoeddi canllawiau LIC ar Adolygiad Tir Cyflogaeth, roedd yr Awdurdod yn gweithio ar y cyd gyda Chyngor Sir Benfro gan ddefnyddio methodoleg drafft y mae Llywodraeth Cymru wedi ei darparu. Ystyrrir fod polisïau yn seiliedig ar feini prawf fel y ffordd ymlaen yn hytrach na dyraniadau oherwydd cyllid cyfyngedig sydd ar gael ar gyfer cyflenwi safleoedd.
- Fe allai gwefan yr Awdurdod gael ei hailwampio i hyrwyddo sut mae'r Awdurdod yn ymateb i gyfleoedd cyflogaeth a gallai cysylltiadau gael eu darparu i swyddogion cymorth busnes CSB.
- Cymerwyd tlodi cefn gwlad i ystyriaeth, fel un o nifer o faterion, wrth ysgrifennu polisïau, drwy arfarniad o gynaliadwyedd y CDLI
- Byddai'r rhai sy'n gofyn am unedau diwydiannol yn gyntaf yn cael eu cyfeirio at y rhai a adeiladwyd eisoes. Roedd problem gyda chyllido dyraniadau naill ai yn neu y tu allan i'r Parc Cenedlaethol, fodd bynnag, roedd y swyddogion yn hyderus y byddai CSB yn gwneud pobl yn ymwybodol o'r dyraniadau yn y Parc Cenedlaethol oherwydd CSB oedd wedi gofyn i'r dyraniadau gael eu gwneud.
- Mynegwyd rhagofal ynglŷn â'r Byrddau Rheoli Datblygu Strategol arfaethedig oherwydd teimlai swyddogion fod y Parc Cenedlaethol yn gallu cynllunio ar gyfer ei ardal ei hun yn well.
- Roedd swyddogion o'r farn, ar ôl gwneud y Cynllun Datblygu Unedol ar y cyd a Chynllun Datblygu Lleol ar gyfer Parc Cenedlaethol yn unig, bod cynlluniau unigol yn fwy defnyddiol. Gyda'r CDU roedd angen parhaus i esbonio i bobl bod polisïau penodol yn cymhwysu i'r Parc Cenedlaethol yn unig ac eraill i CSB yn unig. Er ei bod yn bwysig i gydweithio a chyfathrebu o ran y strategaeth, ystyriwyd bod y CDLI presennol yn caniatáu ar gyfer gwell ymgysylltiad.
- Gallai fod cyfleoedd ar gyfer secondiad o Gyngor Sir Benfro er mwyn caniatáu swyddogion datblygu economaidd i gael persbectif ehangach ynglŷn â gwaith y Parc Cenedlaethol.
- Mae llawer o waith yn cael ei wneud gan Gyngor Sir Powys o ran ychwanegu gwerth yn y diwydiant bwyd - mae yna weledigaeth - mae nifer o wyliau bwyd yn cael eu mynychu'n dda ac roedd cynnig ar gyfer gwneud rhan o'r ystad ddiwydiannol Llwynhelyg yn emporiwm bwyd.
- Roedd arolygon o ymgeiswyr i'r broses Rheoli Datblygu wedi cael ei gynnal, a byddai'r canlyniadau ar gael i Aelodau; gallai'r rhain roi gwybodaeth ar ba micro-fusnesau sydd angen cymorth i ehangu.
- Os yw'r ddyletswydd economaidd yn rhan o bwrpasau'r Parc Cenedlaethol gallai wneud gwahaniaeth sylfaenol i'r Cynllun Datblygu Lleol, yn dibynnu ar sut y byddai pwrpas o'r fath yn cael ei eirio.

- Yr oedd yr Aelodau yn deall fod rhestr aros ar gyfer unedau diwydiannol yng ngogledd y Sir ac fe holwyd pam nad oedd CSB yn gwneud mwy i fynd i'r afael â hyn; cytunodd y swyddogion i ddarparu dadansoddiad o argaeledd unedau yn y Parc Cenedlaethol yn ôl ardal.
- Nodwyd nad oedd yr holl unedau diwydiannol yn cael eu defnyddio at y diben hwnnw, yr oedd un yng Nghasnewydd, er enghraifft, yn cael ei ddefnyddio ar gyfer storio.
- Byddid angen tystiolaeth cyn i'r Awdurdod newid ei ffocws i annog mwy o fusnesau. Ar hyn o bryd mae'r gwaith yn adweithiol i raddau helaeth.
- Mae adroddiad monitro blynyddol y Cynllun Datblygu Lleol yn edrych ar y cymeradwyaethau hynny sydd wedi cael eu gwneud yn groes i argymhelliad swyddogion, mae'r niferoedd yn isel ar hyn o bryd, fodd bynnag, cydnabuwyd bod yr hawl i benderfyniadau o'r fath gael eu cymryd yn sylfaenol i'r broses ddemocrataidd.

b) Kate McEvoy, The Real Seed Catalogue a David Lewis, Hean Castle Estate, Saundersfoot

Wrth groesawu Ms McEvoy a Mr Lewis, cyflwynodd y Pwyllgor eu hunain yn gyntaf.

Esboniodd Ms McEvoy ei bod yn sylfaenydd ac yn Gyfarwyddwr ar The Real Seed Catalogue sy'n tyfu ac yn cyflenwi hadau llysiâu i arddwyr cartref. Roedd y cwmni wedi dechrau yn 1998 ac yn seiliedig yn Sir Benfro ers 2004; yr oedd yn tyfu'n raddol ac roedd ganddo drosiant yn 2013/14 o £366,000. Mae'r cwmni yn cyflogi chwech o bobl mewn gwaith maes, gwaith swyddfa a phacio hadau. Mae'n gweithredu o swyddfa yng Nghasnewydd ac yn berchen ar 6 acer o dir y tu allan i'r dref. Mae'r cwmni, a oedd ar raddfa fach ac organig, yn cael ei ystyried yn rhanddeiliad allweddol gan Lywodraeth Cymru fel un o dîm o bedwar cwmni sy'n cynhyrchu hadau a gynlluniwyd ar gyfer cael eu tyfu yn yr hinsawdd sydd yng Nghymru. Mae'r cwmni yn ceisio bod yn amgylcheddol gyfeillgar ac yn awr eu gwerthu yn gyfan gwbl drwy eu catalog ar-lein, er bod nifer o hen gatalogau wedi cael eu dosbarthu i'r Pwyllgor er gwybodaeth.

Gan droi at y cwestiynau a ofynnwyd yn y llythyr gwahoddiad, rhoddodd Ms McEvoy yr atebion a ganlyn:

- Nid oedd unrhyw fanteision amlwg i redeg busnes yn y Parc Cenedlaethol, ac mewn gwirionedd o safbwynt busnes nid oedd yn ddefnyddiol - byddai hi'n cynghori pobl eraill i leoli y tu allan. Roedd yn hawdd i recriwtio a chadw staff oherwydd mae'r cwmni yn cynnig cyflogau da ac roedd llawer o ddiweithdra
- Y brif broblem oedd y dull gweithredu amheus a rhwystrol o ran cynllunio. Credai hi y byddai ei chais am ysgubor traddodiadol a thwnelau plastig bach, wedi bod yn rhan o ddatblygu a ganiateir y tu allan i ardal y Parc. Yr oedd hi'n meddwl bod hyd y broses gynllunio yn araf ac roedd yn amhosibl i gael adborth, yn enwedig drwy'r broses cyn



cyflwyno cais. Fel busnes hadau rheoledig maent yn gweithio'n agos gyda DEFRA a theimlai fod y berthynas honno yn llawer mwy cydweithredol. Pan fyddai anghytundeb yn codi, byddai'r sefyllfa yn cael ei rhoi yn ysgrifenedig ac fe fyddai cyfaddawd yn cael ei gyrraedd. Nid oedd unrhyw ansicrwydd yn bodoli yn hynny o beth.

- Hefyd mae'n broblem gorfod parhau i gyflwyno amrywiadau ar gyfer mân waith - mae hyn i gyd yn cymryd amser, ac mae amser yn costio oherwydd mae yna waith i'w wneud. Nid oedd yn ymddangos bod Swyddogion yn deall hyn.
- Mae angen i weithrediad ac i ddiwylliant newid, yn hytrach na'r polisiâu eu hunain. Mae'r polisiâu, fodd bynnag, yn canolbwyntio ar dwristiaeth ac amaethyddiaeth, gyda llai o ddealltwriaeth o fusnesau arbenigol.
- Mae gwybodaeth glir a sicrwydd yn gwbl hanfodol.

Yna, cyflwynodd Mr Lewis waith Ystâd Castell Hean Castle Estate. Roedd hwn yn ystad wledig draddodiadol yn seiliedig o amgylch pentref arfordirol Saundersfoot a oedd wedi bod dan berchnogaeth yr un teulu ers 1897. Yn gyffredinol, roedd o blaid y Parc Cenedlaethol ac roedd ei daid wedi bod yn ladmerydd brwd yng nghreadigaeth Parciau Cenedlaethol. Mae cyfanswm yr arwynebedd tir yn 1250 erw ac yn cwmpasu ystod amrywiol o fusnesau:

- Parc Gwyliau Fferm Scar - parc carafannau gwyliau sefydlog mawr mewn ardal ardderchog lle mae'r galw yn uchel ar gyrion pentref Saundersfoot o fewn pellter cerdded i'r traeth, siopau a thafarndai
- Coedwigaeth a biodanwydd - 350 erw o blanhigfeydd a choetiroedd a reolir, prosesu coed tân a gwerthiant adwerth a system wresogi ardal sy'n llosgi naddion pren ac yn gwasanaethu Castell Hean, adeiladau ystâd a bythynnod sydd i'w comisiynu ym mis Mehefin 2015.
- Y cenfaint 'Hean' o bedigri Herefords - a sefydlwyd yn ddiweddar ac sydd yn anelu at gynhyrchu cig eidion o'r ansawdd gorau un ar gyfer siopau lleol
- Tŷ Netherwood - Maenordy adfeiliedig, wedi'i gofrestru yn radd 2, hyd nes yn ddiweddar fe gafodd ei ddefnyddio fel ysgol breswyl breifat ond gyda chaniatâd cynllunio i drosi i eiddo gwasanaethu gwyliau 'defnydd neilltuedig' gyda 15 ystafell wely. Roedd y prosiect ar y funud wedi cael ei oedi ('on hold!') hyd nes y bydd amser ac arian ar gael.
- Portffolio helaeth o eiddo ar osod: 60 o Fythynod, 3 Fferm, 5 Meysydd Carafannau a 3 eiddo Lletygarwch ac Arlwyo
- Canolfan Traeth Neuadd Coppet - Cwblhawyd ym mis Mai 2014 ac yn cynnwys toiledau cyhoeddus a ystafelloedd newid, Bwyty 'Coast', llogi chwaraeon dŵr a canolfan adwerthu, ciosg hufen iâ a byrbrydau a murlun hanes lleol deongliadol

Roedd ganddo farn wahanol o'r broses gynllunio. Gwnaeth y stad lawer o geisiadau - 25 yn y saith neu wyth mlynedd diwethaf, tri ohonynt a oedd wedi bod yn ddatblygiadau mawr ac roedd ganddo berthynas dda gyda swyddogion. Roedd yn cytuno y gellid gwneud gwelliannau i'r broses ac yn teimlo y gellid ennill llawer trwy gynyddu dealltwriaeth o grwpiau busnes y system gynllunio, drwy ddefnyddio fforymau gyda swyddogion. Byddai hyn yn gwella y canfyddiad o gynllunio ac felly y Parc Cenedlaethol.

Mewn sesiwn holi ar y cyd, cafodd y pwyntiau canlynol eu gwneud gan Ms McEvoy a Mr Lewis:

- Nid oedd yr un ohonynt gyda materion arwyddocaol gyda pholisi Parc Cenedlaethol, ond yn fwy ynghylch sut yr oedd yn cael ei gymhwyso.
- Awgrymwyd y gellid cael addysg uwch o'r gymuned fusnes ynglŷn â materion cynllunio.
- Roedd prosiectau ar raddfa fach yn cael eu hystyried eu bod yn ddatblygiad mawr yn y Parc Cenedlaethol, ac arweiniai hyn at gostau ychwanegol. Fel enghraifft ddiweddar, roedd safle gweladwy, agored gyda llawer o gyfyngiadau hefo ffioedd proffesiynol yn brin o £100,000 i gael ei wario (tua 5% o gyfanswm cost y prosiect) ac nid oedd unrhyw sicrwydd o gael caniatâd ar ddiwedd y broses hon. Cydnabuwyd bod caniatâd cynllunio yn fuddsoddiad, fodd bynnag, roedd angen elfen o sicrwydd cyn y byddai symiau mawr o'r fath yn cael eu gwario.
- Ystyriwyd bod y broses cynllunio yn meddu ar ddiffyg ymddiriedaeth (y byddai ymgeiswyr yn defnyddio adeilad ar gyfer y dibenion a oeddynt yn gwneud cais amdano), sicrwydd yn y canlyniad a chyfathrebu ac roedd yn gostus iawn. Roedd hyn yn troi rhoi busnesau i ffwrdd.
- Roedd ffocws ar dwristiaeth, fodd bynnag roedd swyddi drwy gydol y flwyddyn yn bwysig.
- Cafodd yr Awdurdod ei longyfarch ar y camau a gymerwyd i adolygu ei bolisi ar dai fforddiadwy. Tra cytunwyd nad yw llawer o dai yn ddymunol, roedd angen tai ar y farchnad i dalu am dai fforddiadwy - datblygwyr ar raddfa fawr.
- Roedd ffermio a thwristiaeth yn yrwyr economaidd allweddol. Roedd ffermydd llaeth naill ai angen ehangu neu byddant yn gorfod rhoi'r gorau i weithredu. Ystyriwyd bod lle i swyddogion cynllunio i siarad â ffermwyr i ddatrys materion - roedd angen mwy o ryngweithio.
- Roedd diffyg dealltwriaeth ymysg swyddogion ynghylch busnesau amaethyddol arbenigol - roedd yn anodd i fusnesau garddwriaeth i arddangos hyfywedd ariannol oherwydd nid oes fawr o brofiad ohonynt.
- Roedd llwybr yr arfordir yn cael ei reoli'n dda ac roedd hyn yn dda ar gyfer marchnata busnesau. Hefyd cafodd defnydd yr Awdurdod o gyfryngau cymdeithasol i ail-drydaru (twitter) digwyddiadau ei ystyried yn ddefnyddiol. Roedd profiadau da hefyd wedi eu cael gyda Cheidwaid ac ynghylch arwyddion.

- Gan fod llawer o fusnesau yn delio â CSB ar gyfer elfennau eraill, byddai mewn rhai ffyrdd yn haws i ymdrin â hwy mewn perthynas â chynllunio, er cydnabuwyd bod yr angen am bolisiâu gwahanol ar gyfer y Parc.
- Ystyriwyd bod brand y Parc Cenedlaethol yn ddefnyddiol ond nid yn hanfodol ar gyfer un o'r busnesau, ac yn ddibwys i'r llall.
- Cafodd y dyletswydd i geisio meithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau sy'n byw yn y Parc ei ystyried mor bwysig â'r ddau bwrpas / diben presennol os oeddynt yn dymuno cael Parc Cenedlaethol bywiog. Nid oedd y tirwedd yn wyllt nac yn wag ond yn hytrach yr oedd wedi cael ei lunio gan bobl dros filoedd o flynyddoedd ac yn parhau i esblygu - ni allai y dirwedd gael ei gadw rhag anweithgarwch.
- Ystyriwyd bod staff cynllunio yn deall busnesau prif ffrwd, ond dim ond hefo elfen o ymwybyddiaeth fasnachol. Roedd angen i aelodau werthfawrogi y gost hefyd, er enghraifft, o ran yr angen am dirlunio ychwanegol.
- Fe ystyriwyd nad oedd y gwasanaeth cyn cyflwyno cais yn cyflawni'r hyn y'i bwriadwyd iddo ei wneud. Fe dimlwyd bod y syniad o godi tâl am y gwasanaeth yn ddiddorol, ond roedd yn bwysig nad oedd y cyngor yn newid rhwng yr adeg cyn cyflwyno cais a chflwyno cais cynllunio. Hefyd dylid sicrhau bod cyngor yn cael ei ddarparu mewn modd amserol.
- Y rhwystr mwyaf i ehangu mae'n debyg oedd cynllunio, fodd bynnag, gwnaed y pwynt nad yw pob busnes yn awyddus i ehangu, oherwydd ystyriaethau eraill.
- Cafodd awgrym gan y Gweinidog bod Byrddau Cynllunio yn cynnwys swyddogion proffesiynol (penseiri, cynllunwyr, ac ati) yn ogystal â chynrychiolaeth lleol ei gefnogi.
- Ar gyfer ceisiadau mawr, awgrymwyd bod y swyddogion cynllunio yn rhan o dîm y prosiect, yn mynychu eu cyfarfodydd misol er mwyn rhoi mwy o ddealltwriaeth o'r broses a'r polisiâu i bob ochr. Hefyd bod ceisiadau o'r fath yn cael 30 munud i roi cyflwyniad i'r Pwyllgor cyn gwneud unrhyw benderfyniad a'r hawl i ymateb i wybodaeth ffeithiol gywir.

c) Mr Huw Pendleton, Gwyliau Prydain a Chymdeithas Parciau Cartref a Mr Chris Osborne, Cynghrair Twristiaeth Cymru

Wrth gyflwyno ei hun i'r Pwyllgor, dywedodd Mr Osborne ei fod yn gwisgo nifer o hetiau am ei fod yn rhedeg y Gwesty Fourcroft yn Ninbych y Pysgod, yn Llywydd Siambr Fasnach Dinbych y Pysgod, un o sylfaenwyr Twristiaeth Sir Benfro ac yn Lywydd y Gynghrair Twristiaeth Cymru (a oedd yn cynrychioli tua 8,000 o fusnesau twristiaeth). Ychwanegodd bod ganddo ddylanwad gyda Llywodraeth Cymru a Croeso Cymru ac roedd yn ddylanwadwr weithgar mewn deddfwriaeth a pholisi'r llywodraeth pan y caniatwyd hynny.

Dyweddodd Mr Pendleton ei fod yn Is-Lywydd a Chyfarwyddwr Gorllewin Cymru ar gyfer British Holiday and Home Parks Association, yn Gyfarwyddwr Cynghrair Twristiaeth Cymru a Chadeirydd y Fforwm Carafanau a Gwersylla yng Nghymru. Roedd yn berchen ar dri o feysydd carafannau yn Sir Benfro, gyda throsiant o £3.5 miliwn.

Roedd gan y British Holiday and Home Parks Association 877 o aelodau, gyda 385,000 o leiniau ar draws y Deyrnas Unedig (54,000 yng Nghymru). Roedd 250 o Barciau yng Nghymru gyda 71,000 o welyau. Roedd yr effaith economaidd i Gymru tua £317 miliwn y flwyddyn. Darparodd y Gymdeithas y diwydiant Parc gyda llais er mwyn sicrhau bod ystyriaeth lawn o'i gyfraniad i'r diwydiant twristiaeth yn cael ei gymryd pan fydd newidiadau i ddeddfwriaeth preswyl yn cael ei ystyried. Darparodd y Gymdeithas arweiniad a chynghor drwy ar draws y diwydiant hefyd.

Mewn sesiwn holi ar y cyd, cododd Mr Osborne a Mr Pendleton y materion a ganlyn:

- O safbwynt diwydiant, roedd yn rhaid i harddwch ac isadeiledd y Parc Cenedlaethol gael eu hamddiffyn, ond roedd anghenion y diwydiant i gystadlu â thramor angen cael eu cymryd i ystyriaeth hefyd.
- Nid oedd angen am ystod eang o ddeddfwriaeth cynllunio newydd; dylai'r agwedd gwyliau gael ei gadw, nid preswyl trwy'r flwyddyn mewn parciau gwyliau.
- Roedd angen am amrywiaeth o lety boed hynny yn feysydd / parciau carafannau, gwestai, sefydliadau gwely a brecwast, llety hunan-arlwy, pebyll crwyn, ac ati. Roedd angen i dwristiaeth weithio gyda'i gilydd.
- Roedd disgwyliadau cwsmeriaid yn newid yn barhaus ac roedd angen ragori ar y rhain. Chwaraeodd y Parciau Cenedlaethol rôl dilys mewn gwarchod yr amgylchedd a pharhau y "stori treftadaeth", ond nid os yw hyn yn cyfyngu twristiaeth. Roedd angen dod o hyd i gydbwysedd.
- Dylai pwrpasau Awdurdod y Parciau Cenedlaethol gynnwys yr amgylchedd gynaliadwy ariannol hefyd. Nid oedd y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol mor rymus ag y gallai fod; dylai gynnwys cynaliadwyedd economaidd ac cario pwysau gyfartal â'r ddau bwrpas.
- Roedd angen i'r Parc Cenedlaethol fod yn amgylchedd fywiog a gweithgar. Mor hardd ac yr oedd y dirwedd naturiol, roedd mwy o atyniadau / cyfraniadau i gyflogaeth yn angenrheidiol hefyd. Chwaraeodd ffermio ran enfawr yn economi Sir Benfro, a pe bai fferm fawr yn methu, byddai'n cael effaith fawr ar y gymuned. Roedd twristiaeth yr un fath ac ni ddylai'r Awdurdod gyfyngu ar dwf twristiaeth.
- Heb feysydd carafanau, ni fyddai cymaint o atyniadau, a oedd yn gyfraniad gwerthfawr i'r ardal yn nhermau cyflogaeth a dod ag arian i mewn i'r ardal. Roedd galluogi pobl i brynu carafanau hefyd yn helpu'r economi ac nid oedd yn cymryd stoc tai allan o'r hafaliad lleol.

- Roedd Mr Osborne yn gredwr mawr mewn cyflenwad a galw ac o'r farn na ddylai cynllunio gychwyn, na chreu bloc cyfan gwbl tuag at ddatblygiad yn ei rinwedd ei hun. Roedd cynllunio yn rhan ohono, ond nid cynllunio yw'r stori gyfan. Defnyddiodd llety hunan-ddarpar fel enghraifft, lle yr oedd yn rhwystr o ran cynaladwyedd cymuned. Roedd ardaloedd wedi cael eu gadael i fod yn drefi anialwch y tu allan i'r tymor. Yn y cyfamser, ni allai'r bobl sydd eu hangen i weithio yn y busnes twristiaeth fforddio byw yn yr ardaloedd lle roeddent eu hangen.
- Mae'r Canllaw Cynllunio Atodol y CDLI cyfredol ar golled gwestai yn arf pwysig. Roedd angen y gallu i ddarparu ystod amrywiol o letai i gwmpasu holl ddisgwyliadau a chyllidebau, ac yr oedd y canllawiau yn ceisio atal colled llety gwestai heb ddarparu tystiolaeth nad yw'r busnes yn hyfyw yn gyntaf.
- Roedd angen bod yn arloesol, gwahanol a bywiog i ddarparu ar gyfer disgwyliadau cwsmeriaid, ond roedd datblygiad o'r fath i fod yn y lle iawn ac i fod i gael ei wneud mewn modd sensitif.
- Roedd ymgyrch poster retro Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn wirioneddol gryf, ond roedd angen iddynt gael eu cefnogi gydag arwyddion ffyrdd yn dangos fod pobl yn mynd i mewn / gyrru trwy'r Parc Cenedlaethol. Roedd yn gyfle a fethwyd; dylai busnesau fod yn falch eu bod wedi eu lleoli yn y Parc Cenedlaethol a dylant ddatgan y peth.
- Dylai'r brand y Parc Cenedlaethol gael ei farchnata yn well, er y cyfaddefodd bod Cymru yn ei chyfanrwydd ddim yn cael ei marchnata yn dda chwaith.
- Dywedodd Mr Osborne fod gan y gwesty ddau bwynt gwerthu unigryw - y bobl oedd yn gweithio ynddo a'r olygfa ohono. Ychwanegodd na fyddai yno o ni bai am y Parc Cenedlaethol a rheolaethau gofalus yr Awdurdod ar ddatblygiad. Dangosodd arolygon cwsmeriaid rheolaidd hefyd bod 92% o'i gwsmeriaid wrth eu boddau o ddifri gyda'r cynllun ar gyfer cerddwyr rhwng muriau'r dref, a diolchodd i'r Awdurdod am ei weledigaeth o ran gweithredu'r cynllun.
- Roedd gan dai fforddiadwy ran bwysig i'w chwarae, yn enwedig mewn ystyr busnes. Os na allai pobl fforddio byw yn y Parc Cenedlaethol, ni allent weithio ynddo chwaith. Roedd y ddau ddydd busnes hefyd yn gweld prinder o sgiliau yn ail-y addedd yn yr ardal, ac achosion uwch o bobl o wledydd eraill yn gweithio yn y diwydiant twristiaeth.
- Roedd bywiogrwydd busnes yn gwbl hanfodol; roedd tri llinyn i gynaliadwyedd – llinynau amgylcheddol, cymdeithasol a busnes / economi.
- Roedd arwyddion bod adferiad yn gwneud ymddangosiad dawel yn Sir Benfro.

d) Ms B Prickett a Ms A Grimes, Fforwm Busnes Solfa / Solva Business Forum, a Mr T Baron a Mr N Blockley, Ffederasiwn Busnesau Bach

Dyweddodd Ms Prickett ei bod hi'n berchennog ar fusnes yn Solfa isaf, 'Window on Wales', a oedd yn cyflogi pymtheg o staff trwy gydol y flwyddyn. Yr oedd hi hefyd yn Gadeirydd ar Fforwm Busnes Solfa, lle mae pum deg o aelodau yn gysylltiedig a'r chwe deg dau busnes yn yr ardal. Roedd y Fforwm ymwybodol o pa mor bwysig ydi twristiaeth oherwydd yr oedd yn cael effaith ardrawiadol ar y pentref cyfan. Ychwanegodd bod y Fforwm yn cysylltu'n barhaol gyda'r St Davids Peninsula Group.

Cyflwynodd Ms Grimes ei hun fel Ysgrifennydd Fforwm Busnes Solfa. Yr oedd hi hefyd yn berchennog ar Felin Wlan Solfa, sef yr hynaf yn Sir Benfro ac yr oedd wedi gweithio yn ddi-dor ar hyd yr amser. Roedd y Felin yn agored gydol y flwyddyn ac roedd yn cyflogi gweithwyr llawn amser a rhan amser. Yr oedd 17,000 o bobl wedi ymweld a'i busnes hi. Roedd hi'n aelod o'r ymgyrch dros wlan ac roedd hi wedi cael ei dewis fel un o pump deg o gyfranogwyr mewn digwyddiad yng Nghadeirlan y flwyddyn cynt.

Dyweddodd Mr Blockley bod y Ffederalsiwn Busnesau Bach (FfBB yn cynnwys tri deg tri o ranbarthau a 188 o ganghennau, sy'n edrych ar ol oddeutu 200,000 o aelodau ar draws y DG. Mae yna ryw 7,500 o aelodau ar draws rhanbarth De Cymru, a nhw sy'n gyfrifol am y rheiny, gyda 630 o aelodau yng nghanen Sir Benfro, gyda Mr Baron yn Gadeirydd. Yr oedd y rhan fwyaf o'r aelodau yn chwarae rhan yn y diwydiant twristiaeth.

Aeth Mr Baron yn ei flaen i ddweud bod gan y FfBB rwydwaith gref ar draws Cymru. Nid yw FfSB yn ranbarth o'r DG, ond yn ardal wedi ei datganoli. Mae ganddi ei huned bolisi ei hun sy'n lobbio Llywodraeth Cymru yng Nghaerdydd. Y rheswm am hyn yw'r ffaith bod yr amgylchedd yng Nghymru yn wahanol i weddill y DG. Mae cyflogaeth mewn mentrau bach i ganolig yn uwch yng Nghymru (62% o'i gymharu a llai na 59% yn Lloegr).

Ychwanegodd bod yr FfBB yn cymryd diddordeb gref ym mhob peth a oedd yn effeithio ar dwf BBaCh, a'r rheswm am hynny yw bod y rhan fwyaf o BBaCh yng Nghymru yn allanoli busnes i eraill. Er mwyn darparu enghraifft, dywedodd ei fod o'n berchennog ar faes carafannau lle'r oedd yr adeiladwr lleol yn treulio traean o'i amser yn ymgymryd â gwaith cynnal a chadw. Mae amgylchedd sy'n annog twf bach yn fwy cynaliadwy na phurfa olew, er ei fod yn cyflogi cannoedd o bobl, byddai'r swyddi hynny yn cael eu colli petai'r busnes yn mynd i'r wal.

Dyweddodd Mr Blockley bod y FfBB yn sefydliad sy'n cael ei arwain gan ei aelodau. Fel rheol, mae themau / materion cyffredin yn cael eu codi gan aelodau, ac yna byddai'r FfBB yn lobbio ar eu rhan hwy. Aeth ati i ddweud

ei fod o wedi ymgynghori gyda'r person sy'n gwneud yr un swydd ag o yng Ngogledd Cymru er mwyn darparu safbwyntiau o'r Pwyllgor o'r ddwy ardal dan sylw sy'n hwarae rhan yn y broses adolygu. Cyfeiriodd y Pwyllgor hefyd at ddogfen a gyhoeddwyd gan *FfBB Cymru : Cynllunio yn y Parciau Cenedlaethol / FSB Wales: Planning in National Parks* ac roedd o'n credu y byddai hon o ddiddordeb i'r Pwyllgor.

Mewn sesiwn gwestiynu ar y cyd, fe godwyd y pwyntiau a ganlyn:

- Roedd pwyslais yr Awdurdod fwy ar gadwraeth nac ar ddatblygiad economaidd.
- Yr oedd uned bolisi FfBB Cymru wedi cynnal cyfarfodydd gyda Gweinidogion Cymru ac wedi rhoi argymhelliad ger bron fod pwerau cynllunio yn cael eu symud oddi wrth Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol a'u rhoi i'r awdurdodau cyfansoddol lleol. Os mai felly fyddai hi, fodd bynnag, yna byddai'n rhaid cael cysylltiad agos rhwng Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol a'r awdurdodau lleol, gyda'r olaf yn dod yn ymgynghorai statudol ar geisiadau cynllunio.
- Dylai Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol weithio yn agosach gydag awdurdodau lleol er mwyn hyrwyddo datblygiad economaidd.
- Cwestiynodd Fforwm Busnes Solfa a'i eu lle nhw oedd dod at yr Awdurdod. Roedd y Fforwm o'r farn y gallai'r Ceidwaid lleol ymweld â'r busnesau lleol yn achlysurol er mwyn adeiladu perthynas weithio.
- Roedd pobl yr Awdurdod yn "bobl heb wyneb", gyda rhyngweithiad negyddol gan mwyaf rhyngddyn nhw a busnesau. Y Cediwaid ydi wyneb y Parc Cenedlaethol i'r rhan fwyaf o bobl.
- Mae'r Parc Cenedlaethol yn atyniad twristiaeth enfawr, ond hefyd mae'n Barc lle mae pobl y byw ac yn gweithio.
- Pe bai Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn fwy rhagweithiol, yna ni fyddai'n rhaid iddyn nhw arfer dull gweithredu fel hyn tuag at y busnesau i ofyn beth mae nhw'n ei feddwl. Dylai fod yna ymgynghori cyson yn digwydd.
- Mae'r hyn y mae'r Parc Cenedlaethol yn ei gynyrchioli yn dda yn gyffredinol, ac mae ei bwrpasau yn dda ond mae'n rhaid i bobl fyw a gweithio ynddo. Roedd yn deimlad cyffredinol y byddai'n well gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol pe bai neb yn byw ynddo.
- Mae gan Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn Yr Alban yr economi fel pwrpas, gyda'r un faint o bwysau yn cael ei roi arno, ac fe ystyriwyd fod hyn o fantais. Pe na bai yna economi sy'n ffynnu, lle fyddai twristiaid yn bwyta, cysgu ayyb?
- Mae'r Parc Cenedlaethol yn rhyw beth mae'r rhan fwyaf o bobl ei angen, ond mae angen i ryngweithiad fodoli rhwng ei gymunedau ac Awdurdod Y Parc Cenedlaethol.
- Mae yna fantais amlwg ar wahanol i frand y Parc Cenedlaethol, a budd uniongyrchol yn sgil presenoldeb Llwybr yr Arfordir.

- Mae angen i gymunedau ddatblygu a pheidio a bod wedi rhewi mewn aspig, ond mae'n rhaid cael dealltwriaeth gyda'r ochr cynllunio o bethau nad oes raid i bethau aros yr un fath. Derbyniwyd y dylai cynllunio fod mewn harmoni gyda phwrpasau Awdurdod y Parc Cenedlaethol.
- Roedd yna ddifaterwch ynghylch cael Aelod gynrychiolydd ar gyfer ardaloedd penodol o fewn y Parc Cenedlaethol oherwydd yr oedd yna eisoes geidwaid 'ar y ddaear'; yr oedd yn fwy o fater o adeiladu ymddiriedaeth a pherthynas rhwng busesnau ac Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Byddai dechrau deialog yn help.
- Derbyniwyd nad oedd y ffordd yn Newgale o fewn Cylch gorchwyl Awdurdod y Parc Cenedlaethol, ond fe dynnwyd sylw at y ffaith na fyddai twristiaeth yng ngogledd y Parc Cenedlaethol yn goroesi petai'r ffordd ar gau.
- Byddai unrhyw beth a fyddai'n gallu cael ei wneud i ymestyn y tymor twristiaeth yn beth da. Yr oedd misoedd y gaeaf yn ddistaw iawn ac yr oedd yn rhaid i fusnesau ddibynnu ar dymor yr haf. Dylid gwneud mwy o'r ffaith fod Sir Benfro yn agored trwy gydol y flwyddyn. Yr oedd gwefan a chylchgrawn Awdurdod y Parc Cenedlaethol *Coast to Coast* yn fantais fawr mewn perthynas â hynny.
- Yr oedd angen edrych ar yr isadeiledd, yn enwedig banllydan.

e) Gary Meopham, Swyddog Stadau, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Croesawodd y Pwyllgor Mr Meopham yn ol i'r cyfarfod er mwyn darparu tystiolaeth i'r Aelodau. Codwyd y materion a ganlyn:

- Roedd hi'n bwysig bod yn rhagweithiol, a cheisio gwneud cyn gymaint a phosibl trwy gyfrwng sefydliadau eraill e.e. tanddaearu llinellau trydan yn Strumble Head ac ardaloedd eraill o fewn y Parc Cenedlaethol.
- Weithiau roedd yna ddisgwyliad afresymol ynghylch beth y gallai'r Awdurdod ei wneud.
- Roedd yna adegau pan na allai bethau gael eu gwneud oherwydd fe fyddai'n gosod cynsail neu ni fyddai yn cyd fynd a phwrpasau'r Parc Cenedlaethol.
- Nid oedd unrhyw ardaloedd o dir ym mherchnogaeth Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a fyddai'n gallu cael eu datblygu petai gan sefydliad arall ddiddordeb yn eu symud ymlaen.
- Mae sefydliadau sy'n cymryd risgiau yn gyrru'r economi, maent yn eofn ac mae ganddynt arian. Gallai'r Awdurdod weithio gyda sefydliadau eraill mewn perthynas a hyn, ond byddai'n rhaid i unrhyw benderfyniad gymryd ystyriaeth o bwrpasau'r Parc Cenedlaethol.
- Roedd yna angen am ddull gweithredu fwy cadarn gan Aelodau tuag at y portffolio eiddo.

Diolchwyd i bawb a roddodd dystiolaeth yn y cyfarfod am eu cyfraniad ac fe roddwyd gwybod iddynt y bydd adroddiad ar y broses graffu yn ei chfanrwydd



yn cael ei chyhoeddi mewn da bryd. Byddai unrhyw argymhellion a fyddai wedi eu cynnwys o'i fewn yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol perthnasol er mwyn iddynt hwy eu hystyried.

**CRAFFU PARC CENEDLAETHOL ERYRI  
25 Mawrth 2015**

Presennol:

**Cynrychiolwyr o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri:**

**Aelodau:** Dr. Iolo ap Gwynn (Cadeirydd)  
Cynghorydd Alwyn Gruffydd  
Cynghorydd Sion W. Jones

**Swyddogion:** Mr. G. Iwan Jones, Cyfarwyddwr Gwasanaethau  
Corfforaethol  
Mr. Jonathan Cawley, Cyfarwyddwr Cynllunio a Threftadaeth  
Ddiwylliannol  
Mrs. Anwen Gaffey, Swyddog Gwasanaethau Aelodau

**Ymddiheuriadau :** Cynghorydd E. Caerwyn Roberts, Cynghorydd John  
MacLennan,  
Cynghorydd Elizabeth Roberts.

**1. Trefniadau Holi Cwestiynau**

Dywedodd y Cadeirydd fod rhestr awgrymedig o gwestiynau wedi eu dosbarthu i'r Aelodau a hefyd i'r rhai a oedd wedi cael gwahoddiad i roi tystiolaeth i'w cynorthwyo wrth eu paratoi. Trafododd yr Aelodau pwy fyddai'n gofyn pob cwestiwn ac ym mha drefn y byddent yn eu gofyn.

**2. Cyflwyniadau a Thystiolaeth**

**a) Sector Defnydd Tir**

Dafydd Tomos, George & Tomos, - Penseiri  
Gwynedd Watkin, O.G. Thomas ac Elwyn Roberts, Undeb Amaethwyr  
Cymru  
Rhys Evans, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Croesawodd y Cadeirydd y cyfranogwyr o'r Sector Defnydd Tir i'r cyfarfod a gofyn i bob cynrychiolydd i gyflwyno eu hunain i'r grŵp.

- i) Cynghorodd Dafydd Tomos, o Benseiri George & Tomos, fel pensaer sy'n ymarfer ei grefft mae o wedi gweithio ar amrywiaeth o brosiectau yn y Parc Cenedlaethol dros 10 mlynedd.
- ii) Gwynedd Watkin, fe adroddodd fel Swyddog Gweithredol y Sir, ar gyfer Undeb Amaethwyr Cymru ei fod bob amser wedi cael perthynas waith dda gyda swyddogion o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, sydd wedi bod o fudd i'r gymuned amaethyddol ar ffurf Rhaglenni 5b, Rhaglen Tir Eryri, CAE ac ati.

- iii) Yr oedd O.G. Thomas, Cadeirydd Undeb Ffermwyr Sir Feirionnydd Cymru ac Elwyn Roberts, sy'n ffermio yn Llanfrothen, ac yn Aelodau o Undeb Ffermwyr Cymru yn teimlo rhywfaint yn negyddol tuag at y Parc Cenedlaethol.
- iv) Byddai Rhys Evans, Rheolwr Eryri ar ran yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn ateb cwestiynau fel yr oeddynt yn codi, oherwydd yr oedd wedi camu i mewn funud olaf yn lle Mr. Richard John, yr Ymgynghorydd Pensaerniol nad oedd yn gallu mynychu.

Dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor, yng ngoleuni adolygiad cyfredol Llywodraeth Cymru o Dirweddau Dynodedig yng Nghymru, yn ceisio sefydlu effeithiolrwydd polisiâu y Parciau Cenedlaethol wrth gefnogi busnesau a chreu swyddi mewn busnesau bach a chanolig o fewn y Parc. Byddai unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwella a sylwadau ar fanteision sylfaenol a / neu broblemau o ganlyniad i weithredu o fewn Parc Cenedlaethol yn cael eu croesawu.

Yr oedd y pwytniau a godwyd yn y sesiwn fel a ganlyn:

- Teimlai OGT nad oedd y Parc Cenedlaethol yn gwneud dim i helpu pobl leol i aros yn eu cymunedau gyda mwy o bobl o'r tu allan i'r ardal yn symud i gefn gwlad. Mae'r newid hwn yn annerbyniol gan fod pobl leol wedi amddiffyn yr iaith a'r dirwedd dros y blynyddoedd. Teimlai y bydd yr iaith Gymraeg yn cael ei cholli, ac nid oedd unrhyw waith ar gyfer ein pobl ifanc sy'n arwain at y ffaith eu bod yn symud allan o'u cymunedau oherwydd nid ydynt yn gweld unrhyw ddyfodol iddynt hwy eu hunain. Un enghraifft o hyn oedd colli cyfleoedd gwaith yn sgil yr oedi yn y broses gynllunio Parc Cenedlaethol ar gyfer y prosiect Maes Awyr Llanbedr. Mae'r chwareli hefyd wedi cau ac mae'r dirywiad mewn cyfleoedd cyflogaeth yn yr ardal yn ddifrifol iawn.
- Yn codi wedi hynny, teimlai Swyddogion bod y feirniadaeth yn anghyfiawn oherwydd roedd y Parc Cenedlaethol wedi cymeradwyo y dystysgrif yn y lle cyntaf cyn cymeradwyo'r cais cynllunio. Yr oedd Aelodau'r Awdurdod wedi cefnogi'r cynnig a'r swyddogion wedi gwneud popeth i helpu'r datblygwyr gyda'u cais cynllunio yn Llanbedr.
- Ystyriai RE os yw Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ateb gofynion y ddau bwrpas statudol yna mae hyn yn dderbyniol, os nad ydyw, yna o bosibl, mae angen diwygio y pwrpasau.
- Byddai GW yn hoffi gweld "y ddyletswydd i geisio meithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau sy'n byw o fewn y Parc" yn cael ei huwchraddio i drydydd bwrpas statudol.
- Nododd GW nad yw pocedi o rai ardaloedd yn siarad Cymraeg, ond ar y cyfan roedd hyn yn fach iawn ac mae'r defnydd o'r iaith mewn sawl ardal yn gadarnhaol iawn.
- Dywedodd GW y dylai cynnwys AHNE fel rhan o gylch gwaith y Parc Cenedlaethol yn dibynnu ar a oedd y gyllideb yn cynyddu ar gyfer y

diben hwn. Os nad oedd unrhyw gyllid ychwanegol ar gyfer y Parciau Cenedlaethol, yna ni fyddai'n dderbyniol i ymgymryd â'r rôl.

- Teimlai RE ei bod yn gwneud synnwyr i beidio â dyblygu gwaith Parciau Cenedlaethol ac AHNE.
- Dywedodd OGT er bod rhai swyddi yn cael eu creu yn uniongyrchol gan y Parc Cenedlaethol a sgiliau newydd yn cael eu datblygu i reoli rhododendron ac ati, ar y cyfan nid yw'r math hwn o waith yn cael ei dalu yn dda iawn. Er mwyn cael morgais mae angen y swyddi hyn fod yn barhaol ac yn gyffredinol mae'r teimlad tuag at y Parc yn negyddol ar ôl eu methiant i ddenu y datblygwyr i Lanbedr. Roedd yn croesawu'r datganiad a wnaeth yn glir ac a wnaeth hyrwyddo y ffaith bod "y Parc Cenedlaethol yn agored ar gyfer Busnes".
- Roedd y profiad a gafodd DT o swyddogion cynllunio y Parc Cenedlaethol wedi bod yn un lle'r oeddynt yn barod i helpu ac yn gadarnhaol iawn. Yr oedd Deddfwriaeth cynllunio yn Lloegr yn awr yn wahanol iawn ar ôl llacio'r rheolau i ganiatáu i adeiladau amaethyddol i gael eu hail-ddefnyddio heb yr angen am ganiatâd cynllunio.
- Teimlai GW ei bod yn llawer haws i gysylltu â swyddogion o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i drafod materion cynllunio o'i gymharu â chysylltu â swyddogion o Gyngor Gwynedd, a all ar brydiau fod yn anodd iawn.
- Teimlai GW fod gwerth mawr yn y "brand" ar gyfer Parc Cenedlaethol Eryri. Dylai Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri aros fel ag y mae er mwyn diogelu'r ardal hon sy'n cynnwys tir a môr ac ni ddylai'r AOHNE ddim ond gael eu cynnwys os oes cyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu.
- Cododd OGT bryderon y dylai'r ardaloedd o fewn ffin y Parc Cenedlaethol fod yn fwy prydferth a chael eu cynnal a'u cadw yn dda. Nid oedd hyn yn wir achos mae llawer o lwybrau troed ar gau oherwydd gwaith cynnal a chadw gwael. Awgrymodd Aelod y gallai hyn fod yn rhywbeth y gallai'r Cynghorau Cymuned ymgymryd ag o yn eu hardaloedd eu hunain, gan weithio gyda'r Parciau Cenedlaethol.
- Cynghorodd swyddogion fod Cymdeithas Eryri yn grŵp lobiö ac yn gorff ar wahân i'r Awdurdod.
- Teimlai RE y dylai'r Awdurdod gyfathrebu'n well ac efallai yn arwain fforwm busnes i hyrwyddo cyfleoedd sydd ar gael i fusnesau yn y Parc Cenedlaethol. Enghreifftiau o fusnesau llwyddiannus oedd Tree Tops, Antur Stiniog, Zip Wire, Yr Urdd.
- Dywedodd DT gan nad oedd unrhyw gyfleoedd i sefydlu meysydd carafanau newydd yn y Parc Cenedlaethol, y dylid cael rhywfaint o hyblygrwydd ar gyfer busnesau presennol i dyfu a tynnodd sylw at y gwahaniaeth rhwng meysydd carafannau statig a theithiol.
- Cytunodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Threftadaeth Ddiwylliannol ei bod yn anodd i ffurfio polisïau sy'n diogelu ac hefyd yn fwy hyblyg. Dywedodd fod y Cynllun Datblygu sy'n cael ei adolygu eleni yn caniatáu ystyriaeth bellach o bolisïau presennol ac os ydynt angen cael eu

newid, bydd hyn yn cael ei ystyried yn ystod yr adolygiad. Mae adroddiadau Monitro wedi nodi cynnydd yn y nifer o geisiadau am lety mwy arbenigol nad ydynt yn cael eu gwasanaethu, megis pebyll crwyn a chodennau ar safleoedd newydd ar raddfa gymharol fach. Mae rhai cynigion ar raddfa fwy mewn lleoliadau coedlannol er mwyn manteisio ar lwybrau beiciau cyfagos hefyd wedi cael eu trafod ac mae'n tynnu sylw at yr angen i ddiwygio'r polisi neu gyflwyno polisi newydd i ddelio â mathau amgen o letai nad ydynt yn garafannau.

- Cytunodd RE ei bod yn anodd i gael y cydbwysedd yn iawn.
- Teimlai OGT yn y gorffennol bod caniatâd cynllunio wedi cael ei roi ar gyfer meysydd / safleoedd carafanau i gael siopau a gwasanaethau ar eu safleoedd ac yn awr anaml y mae ymwelwyr â'r ardal yn ymweld â threfi a phentrefi cyfagos ac nid ydynt yn darparu unrhyw gyfoeth i'r economi leol.
- Nododd RE fod yr isadeiledd ym Meirionnydd yn wael yn yr un modd ac yr oedd argaeledd Band Eang. Roedd hyn y tu allan i gylch gwaith y Parc Cenedlaethol ond mae'n rhwystr sy'n sefyll yn y ffordd o ran datblygwyr yn symud i mewn i fuddsoddi mewn busnesau newydd.
- Awgrymodd GW y dylai'r Parc Cenedlaethol ystyried caniatáu cyfleoedd busnes i ffermwyr ar ffurf parcio ceir ar raddfa fach ar gyfer 5 i 20 o gerbydau. Gallai'r rhain gael eu tirlunio ac fe fyddai'n darparu cyfleoedd i ffermwyr i ennill incwm ychwanegol.
- Argymhellodd GW y dylai'r Awdurdod chwilio am ffynonellau incwm eraill, megis y gronfa Cynllun Datblygu Gwledig newydd. Teimlai GW nad oedd busnesau yn ymwybodol o'r cynlluniau sydd ar gael ac fe allai swyddogion o'r Awdurdod gynnig hyn fel gwasanaeth i sicrhau grantiau bach a manteisio ar gyfleoedd fel y rhaglen Leader.
- Cynghorodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Threftadaeth Ddiwylliannol ei fod yn eistedd ar y Grwpiau sy'n ymwneud â'r CDG (RDP) gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Gwynedd.
- Nododd GW ei siom bod Undeb Amaethwyr Cymru wedi mynegi safbwyntiau o'r fath negyddol am y Parciau Cenedlaethol, nad oedd yn adlewyrchu mewn unrhyw ffordd ei brofiad ef o Barc Cenedlaethol Eryri a'i swyddogion. Cytunodd DT hefyd fod delio â swyddogion yr Awdurdod bob amser wedi bod yn brofiad cadarnhaol.
- Gofynnodd RE a ddylai'r Parc Cenedlaethol ddefnyddio ei statws i ddylanwadu ar Manweb, a oedd yn ei farn ef, yn manteisio ar y ffermwyr a thirfeddianwyr pan fydd gwasanaethau yn cael eu gwerthu. Mae eu ffioedd yn ormodol ac efallai y bydd y Parc Cenedlaethol yn gallu helpu gyda'r broblem hon.
- Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Threftadaeth Ddiwylliannol ei fod o'n cael cyfarfodydd chwarterol gyda'r darparwyr ynni ac mae'r costau uchel iawn yn gwneud unrhyw fudd ar gyfer y dyfodol yn anfforddiadwy.

- Byddai GW hefyd yn hoffi gweld "siop un stop" rhwng y Parciau Cenedlaethol, a Chyfoeth Naturiol Cymru a chyrrff statudol eraill i'w gwneud yn haws cyfathrebu.

Diolchodd y Cadeirydd i'r cynrychiolwyr o'r Sector Defnydd Tir am eu mewnbwn ac am eu parodrwydd i ni gysylltu eto i gynorthwyo'r Awdurdod o bryd i'w gilydd.

b) **Sector yr Awyr Agored**

Martin Doyle, Prif Weithredwr, Canolfan Chwaraeon Mynydd Plas y Brenin Mountain Sports Centre

Huw Antur Edwards, Yr Urdd, Glan-Llyn

Tracey Evans, Prif Weithredwr, Y Bartneriaeth Awyr Agored

Croesawodd y Cadeirydd y cyfranogwyr o'r Sector Hamdden Awyr Agored i ddarparu tystiolaeth i'r Pwyllgor Craffu. Dywedodd fod y Pwyllgor, yng ngoleuni'r adolygiad cyfredol gan Lywodraeth Cymru o Dirweddau Dynodedig yng Nghymru, yn ceisio sefydlu effeithiolrwydd polisiau Parc Cenedlaethol wrth gefnogi busnesau a chreu swyddi mewn busnesau bach a chanolig o fewn y Parc.

Cyflwynodd pob cynrychiolydd eu hunain i'r grŵp a rhoddodd y cyfranogwyr gyflwyniad byr o'u rôl gydag awgrymiadau ar gyfer gwella a sylwadau ar fanteision a / neu broblemau sylfaenol yn sgil gweithredu o fewn Parc Cenedlaethol.

- i) Martin Doyle, Prif Weithredwr of Plas y Brenin, - darparodd fanylion ynghylch ei gefndir a'i ddi-ddordebau. Dywedodd ei fod wedi bod yn arweinydd mynydd ers 1988 ac yn un sy'n ymwneud ag addysg yn y mynyddoedd ers y 1980au canol. Symudodd Mr Doyle i Eryri yn 1992, yn rhan o'r Uwch Dîm Rheoli ar gyfer Plas y Brenin ers 1994, ac mae o wedi bod yn Brif Weithredwr am y 10 mlynedd diwethaf. Ers symud i Eryri, yr oedd Mr Doyle wedi gweld llawer o newidiadau ym maes hamdden awyr agored, yn enwedig o ran yr amrywiaeth o weithgareddau sydd ar gael yn awr. Dylai hamdden awyr agored gael ei gydnabod fel sbardun pwysig yn yr economi.

Mae Plas y Brenin yn ganolfan hyfforddi ar gyfer chwaraeon mynydd, yn bennaf ar gyfer oedolion, ond yn gweithio gyda phlant ac oedolion ifanc. Mae'n darparu cyrsiau preswyl ac yn sefydliad mawr gyda 90 o weithwyr. Mae gan Plas y Brenin 80 o welyau yn yr adeilad, ystafelloedd gyda dau wely, pob un yn en suite a 36 o welyau mewn 2 o dai bynciau. Mae Plas y Brenin yn darparu 35,000 o ddiwrnodau o dan gyfarwydd y flwyddyn ar gyfer bobl leol

ac ymwelwyr i ddisgyblaethau megis dringo, mynydda, caiacio, beicio ac yn y blaen ac mae Plas y Brenin yn dysgu y bobl sy'n dysgu dechreuwyr ac yn darparu arferion gorau ar gyfer y sawl sy'n dysgu eraill, arweinwyr a hyfforddwyr. Maent yn gweithio'n agos gyda'r Cyngor Mynydda Prydeinig, Beicio Prydain, Canŵio Prydain, Cyfeiriannu Prydain a'r cyfatebol yng Nghymru. Mae Plas y Brenin yn gweithredu yng Ngogledd Orllewin Cymru ac maen nhw'n dibynnu ar gydweithredu gyda thirfeddianwyr / rheolwyr. Mae Plas y Brenin hefyd yn helpu i gefnogi cymunedau lleol ac mae'n cefnogi'r Bartneriaeth Awyr Agored yn ogystal â gweithio gyda'r YHA. Nod y Ganolfan yw helpu pobl i ddatblygu hunan gynhaliaeth wrth iddynt fwynhau gweithgareddau hamdden tawel a darparu hyfforddiant yn y sgiliau hyn iddynt ymgymryd â gweithgareddau eu hunain. Mae'r Parc Cenedlaethol wedi chwarae rhan gadarnhaol o ran cael mynediad i gefn gwlad sydd o ddiddordeb a budd mawr i'r sector hon. Mae Swyddogion y Parc Cenedlaethol, y Fforymau Mynediad a'r Gwasanaeth Wardeinio yn darparu cymorth da. Er ei fod wedi ei ymgorffori yn y gyfraith, mae mynediad i gefn gwlad yn dal yn gorfod cael ei gyflenwi ac mae'r adeilad ar gopa yr Wyddfa a'r ganolfan ymwelwyr yng Nghwm Idwal yn dangos sut mae'r Parc Cenedlaethol wedi trawsnewid lleoliadau eiconig. Byddai Mr Doyle yn croesawu gwelliannau ym Mhen y Pass, lle mae diffyg capasiti i ateb y galw. Roedd angen gwelliant sylweddol yn y ddarpariaeth parcio ceir, o bosibl creu meysydd parcio llai gerllaw heb amharu ar yr ardal. Nid oedd ganddo unrhyw broblemau gyda thaliadau yn cael eu codi / cynyddu ac roedd o'r farn bod y gwaith a wnaed ym Mhen y Gwryd wedi arwain at golli capasiti.

Roedd y Parc Cenedlaethol wedi gweithio'n galed i ddatrys materion fel canŵio yn rhan uchaf yr afon Conwy ac yn Ysbyty Ifan. Fe allai'r Awdurdod weithredu fel "brocer gonest" er mwyn cael cytundebau yn eu lle ac ar gyfer gwella perthynasau. Roedd hefyd angen i'r Parc Cenedlaethol i ddarparu presenoldeb gweladwy i ymwelwyr ac yr oedd y rhaglen wirfoddoli wardeinio yn ddiweddar wedi bod yn adeiladol iawn.

Amlinellodd Mr Doyle rhai pethau negyddol, megis mynediad at ddŵr, sydd angen cael y gydnabyddiaeth fel ei fod yn cyfateb i fynediad at dir, er fe nodwyd bod y Ddeddf CGaHT wedi helpu yn hynny o beth. Fe ddylai'r Parciau Cenedlaethol chwarae rhan arweiniol yn y maes hwn ac, am fod cynnydd mawr wedi digwydd mewn beicio mynydd ac mae'n hynny'n digwydd ar hyn o bryd mewn ardaloedd coedwigol fe allai'r Parciau Cenedlaethol helpu i agor hen draciau a fyddai'n gwneud llwybrau gwych. Mae angen

cael ymrwymiad i ymestyn a gwella mynediad ar gyfer beicio a ganiateir ar lwybrau fel yr hyn sydd yn bodoli yn yr Alban. Roedd angen creu meysydd parcio bach ar ben ffordd, er enghraifft yn Gerlan, i ddarparu mynediad i'r Carneddau gogleddol sydd ar hyn o bryd yn achosi rhwystredigaeth i bawb. Nid oes gwrthwynebiad tuag at dalu am barcio ceir gan fod hyn yn awr yn un o ffeithiau bywyd.

Ei brofiad ef o Adran Gynllunio y Parc Cenedlaethol oedd bod cyngor anffurfiol da ar gael gan swyddogion bob amser, ond y broses ei hun sydd yn araf ac yn anodd, sydd wedyn yn parlysu cynnydd ar gyfer yr ymgeisydd. Mae angen cael rhywfaint o le i gyflymu'r broses. Fe wnaeth y Cyfarwyddwr Cynllunio a Threftadaeth Ddiwylliannol gadarnhau bod Llywodraeth Cymru wrthi'n ymgynghori ar y broses gynllunio.

- ii) Canolfan breswyl ar gyfer Urdd Gobaith Cymru - mae Glan-Ilyn wedi bod yn ganolfan addysg awyr agored am 65 mlynedd gyda'r ffocws ar roi cyfleoedd i bobl ifanc Cymru i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored trwy gyfrwng y Gymraeg, gyda'r ffocws ar yr iaith. Mae canran uchel o blant Cymru wedi mynychu Glan-Ilyn ar ryw adeg yn eu bywydau. Mae'r ganolfan wedi gweithio gyda phlant o 8 oed i oedolion yn eu 80au, er bod y sylfaen cwsmeriaid wedi newid, gydag ysgolion yn awr yn ffocws fawr iawn. Bu 13,000 o rai yn preswylio yng Nglan-Ilyn yn ystod y 12 mis diwethaf gan wneud cyfanswm o 28,000 o nosweithiau. Mae'r cyrsiau fel arfer yn para am 3 diwrnod ac ar adegau penodol, megis diwrnodau newid, gall fod oddeutu 400 o bobl yn y ganolfan. Bu newidiadau yn y dull o gyflwyno addysg awyr agored ac yn ddiweddar mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o gyfleusterau y tu allan i'r ganolfan, ee ymweliadau â Llanuwchllyn a Llangywair, gwneud gwaith ymchwil amgylcheddol, gan gynnwys mynd a grwpiau i fyny'r Wyddfa, a chynnal gweithgareddau dŵr ar Lyn Tegid.

Mae gan Glan-Ilyn hyd at 60 o weithwyr dros gyfnodau prysur yn ogystal â 75 sy'n gweithio yn ganolog ac wedi eu lleoli yng Nglan-Ilyn. Mae hyn yn gwneud y ganolfan yn un o'r cyflogwyr mwyaf yn yr ardal gyda'r holl staff yn siaradwyr Cymraeg. Mae Glan-Ilyn yn darparu rhaglen hyfforddiant ar gyfer pobl ifanc 18 i 20 mlwydd oed sy'n gweithio yn y ganolfan am 12 mis, ac ar ddiwedd y flwyddyn yn ennill cymhwyster. Mae rhai o'r hyfforddeion yn cael cynnig cyflogaeth yng Nglan-Ilyn ac eleni mae 6 o bobl ifanc yn mynychu'r cwrs dan hyfforddiant. Mae llawer o hyfforddwyr sy'n siarad Cymraeg wedi cael eu hyfforddi yng Nglan-Ilyn. Mae'r ganolfan hefyd yn cyflogi 15 o hyfforddwyr llawn amser gyda thimau o 3 yn mynd allan i'r gymuned leol i gyflwyno gweithgareddau. Mae gan y



ganolfan yng Nghaerdydd drwydded awyr agored a'r gobaith ar gyfer y dyfodol yw cael rhwydwaith o ganolfannau ledled Cymru.

Mae gan Glan-Ilyn berthynas dda gyda'i gymdogion a'r gymuned leol ac mae'n gweithio'n agos gyda darparwyr llety yn yr ardal yn ogystal â Choleg y Bala. Mae'r holl ganolfannau yn gweithio gyda'i gilydd ac yn cyfrannu at yr economi leol. Mae gan Glan-Ilyn berthynas dda gyda'r Parc Cenedlaethol fel perchnogion y Llyn, a gyda'r Gwasanaeth Warden, sydd ar adegau wedi cael cymorth ar y Llyn gan staff Glan-Ilyn. Mae'r Wardeiniaid ar y Llyn hefyd yn rhoi cyflwyniadau rheolaidd i fyfyrwyr ar waith y Parc Cenedlaethol ac ar y bywyd gwylt a natur yr ardal. Mae Glan-Ilyn wedi derbyn arian gan y Parc Cenedlaethol i ddatblygu canolfan ragoriaeth; hefyd mae'r ganolfan yn gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu llwybr troed i gysylltu Glan-Ilyn gyda'r pentref.

Ar y cyfan, mae'r profiad o weithio gyda'r Parc Cenedlaethol wedi bod yn gadarnhaol, er bod delio â'u hadran gynllunio yn ymddangos yn broses hirfaith ac fe allai fod yn gyflymach. Mae bellach yn teimlo fod mwy o bartneriaeth yn bodoli nac oedd yn y gorffennol.

- iv) Tracy Evans, Prif Weithredwr, Mae hi wedi gweithio gyda'r Bartneriaeth Awyr Agored ers dros 10 mlynedd ac mae hi'n un o'r swyddogion gwreiddiol. Sefydlwyd y Bartneriaeth ar gefn y clwy'r traed a'r genau. Dangosodd ymchwil gan Brifysgol Bangor mai dim ond 4% o'r darparwyr gweithgareddau awyr agored llawn amser oedd yn siarad Cymraeg ac o'r ardal leol. Mae'r ffigur hwn bellach wedi codi i 25% ac mae'r Bartneriaeth Awyr Agored wedi cael ei chofrestru yn ddiweddar fel Elusen gyda 6 o ymddiriedolwyr, gydag un ohonynt, sef Ifer Gwyn yn gweithio i Awdurdod y Parc Cenedlaethol ac mae yntau o fudd i'r Bartneriaeth. Mae'r Bartneriaeth wedi gweithio gyda dros 30,000 o bobl, sy'n cynnwys grwpiau cymunedol ac mae dros 1,500 wedi ennill cymhwyster, gan roi opsiynau gyrfa a sgiliau trosglwyddadwy. Mae 80% o ddarparwyr gweithgareddau awyr agored yn awr yn siarad Cymraeg sy'n dangos symudiad mawr dros y 10 mlynedd ddiwethaf.

Mae Swyddogion Datblygu y Bartneriaeth yn gweithio gydag ysgolion lleol i drefnu cystadlaethau megis caiacio ayb Mynediad i ddŵr ar Afon Dwryd, ac er bod hyn wedi bod yn broses gymhleth, mae hyn wedi cael ei gyflawni yn awr. Mae'r Bartneriaeth yn elusen fach sy'n dibynnu ar gyllid grant. Byddai datblygu prosiectau gwirfoddoli gyda'r Gwasanaeth Wardeinio o bosibl drwy gyfrwng cynllun ceidwad ifanc a chynlluniau hyfforddi eraill

gyda'r Parc Cenedlaethol yn gallu bod o fudd i'r ddwy ochr. Mae llwybr Gwryfai ym Meddgelert o fudd mawr i'r Bartneriaeth yn yr un modd ac y byddai datblygu isadeiledd beicio mynydd. Yn ogystal â'r cymorth ariannol gan y Parc Cenedlaethol tuag at yr Wyl Gweithgareddau Awyr Agored, byddai cydweithio ar gynlluniau prentisiaeth ar gyfer gweithgareddau awyr agored a chynlluniau hyfforddi hefyd yn cael ei groesawu. Roedd y Bartneriaeth Awyr Agored yn bartner parod ar gyfer Awdurdod y Parc Cenedlaethol.

Roedd y pwyntiau ychwanegol a godwyd yn y sesiwn fel a ganlyn:

- teimlai'r grŵp fod rôl Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn amlwg, ond mae materion mynediad yn bryder a dylai'r rôl gael ei chryfhau gyda'r Parc Cenedlaethol, gan weithredu fel partner, anogwr a helpwr. Mae hyrwyddo mynediad yn rhan allweddol na ddylid ei wanhau.
- teimlai'r grŵp y dylai'r trydydd pwrpas gynnwys gwella sgiliau lleol fel rhan o'r ddyletswydd. Hefyd rôl gryfach i gefnogi cyflogaeth ac ati, fel sbardun economaidd i adeiladu seilwaith gwell.
- roedd y grŵp yn feirniadol o ran mynediad at ddŵr, oedi o ran cynllunio ac nid yw cyfleusterau parcio ceir yn ddigonol.
- Nododd HAE y byddai yr adolygiad o'r Cynllun Datblygu eleni yn caniatáu ar gyfer rhoi ystyriaeth bellach i'r polisiau presennol, yn arbennig y polisi ar wersylla. Yr oedd Glan-Ilyn wedi bod o dan anfantais oherwydd y polisi presennol ac yn croesawu'r cyfle i'w ddiwygio.
- teimlai'r grŵp fod "brand" Parc Cenedlaethol Eryri yn bwysig iawn i'w sector hwy
- Teimlai MD y byddai cynnwys AHNE fel rhan o gylch gwaith y Parc Cenedlaethol yn gwneud synnwyr gan fod yna gysylltiadau amlwg. Hefyd, mae'r mynyddoedd hir yn rhedeg i lawr canol Cymru yn AoHNE ac roedd yn atyniad i bobl tra bo Mynyddoedd y Cambria yn ddi-ddosbarth ar hyn o bryd. Wrth i hamddena ddod yn fwy poblogaidd, bydd angen i ledaenu pobl yn bellach ac yn ehangach.
- Cytunodd y grŵp bod Swyddogion Cynllunio y Parc Cenedlaethol yn ddefnyddiol iawn ac yn gadarnhaol er fe nodwyd yr oedi yn y broses gynllunio.
- Gofynnodd MD a oedd gan y swyddogion cynllunio bwerau wedi eu dirprwyo oherwydd bod y broses cynllunio mor hirfaith. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Threftadaeth Ddiwylliannol mai dim ond nifer fach iawn o geisiadau sy'n cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio a Mynediad gyda'r mwyafrif yn cael eu trin drwy gyfrwng y cynllun dirprwyo i swyddogion.
- Byddai TE yn hoffi gweld mwy o waith partneriaeth gyda'r Gwasanaeth Wardeinio ar ffurf Cynllun Ceidwaid Ifanc a phrosiectau tebyg. Dywedodd y swyddogion y byddai Amcanion Gwella sydd newydd eu

mabwysiadu yn caniatáu i'r Awdurdod gyfrannu at a chefnogi cynlluniau o'r fath.

- Byddai TE yn hoffi gweld y 3 Pharc Cenedlaethol yng Nghymru fel partneriaid yng Ngwobrau Awyr Agored y Bartneriaeth Awyr Agored.
- Roedd y grŵp yn cytuno ar y cyfan y byddai datblygu gweithio mewn partneriaeth gyda'r Parc Cenedlaethol o fudd i bawb, yn enwedig o ran cyrsiau addysgol, gwirfoddoli, gwaith y Gwasanaeth Wardeinio ayb Diolchodd y Cadeirydd i'r cynrychiolwyr o'r Sector Hamdden Awyr Agored am eu mewnbwn ac am eu parodrwydd i weithio gyda'r Awdurdod. Byddai adroddiad o'r canlyniadau ar y canfyddiadau craffu yn cael ei gyhoeddi maes o law ac fe fyddai yr holl gyfranwyr yn derbyn copi.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.55

## ATODIAD D6

### CYDWEITHGOR CRAFFU AR YR ECONOMI Y PARCIAU CENEDLAETHOL 17 Ebrill 2015

Presennol:

Cynrychiolwyr o Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro:

Aelodau: Mrs G Hayward (Cadeirydd), Cynghorydd B Kilmister a Mr AE Sangster.

Swyddogion: Mrs Janet Evans, Rheolwr Gweinyddol a Gwasanaethau Democrataidd.

Cynrychiolwyr o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri:

Aelodau: Dr I ap Gwyn a'r Cynghorydd A Gruffydd.

Swyddogion: Mr. G. I Jones, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol ,  
Mr. J Cawley, Cyfarwyddwr Cynllunio a Threftadaeth  
Ddiwylliannol .

(Aberystwyth Park Lodge, Aberystwyth: 10.30yb – 1.00yp)

#### 1. **Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldebau gan y Cynghorwyr DGM James, SW Jones, RM Lewis, EC Roberts, J MacLennan a E Roberts, a Meistri Tegryn Jones ac Emyr Williams, Prif Weithrddwyr Awdurdod Parciau Cenedlaethol Arfordir Penfro ac Eryri yn y drefn honno.

#### 2. **Datganiadau diddordeb**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau diddordeb.

#### 3. **Cofnodion**

Cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2015 a 25 Mawrth 2015 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

Fe GYTUNWYD y dylid cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2015 a 25 Mawrth 2015.

#### 4. **Adolygiad o'r gwaith a wnaed a'r dystiolaeth a dderbyniwyd hyd yn hyn**

a) Cynhaliwyd cyfarfod 11 Mawrth 2015 (APC Arfordir Penfro )

Mynegwyd y farn bod Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (yn APC) angen cael ei adolygu oherwydd nad yw bellach yn mynd i'r afael ag anghenion a chyfeiriad economaidd mwyach fel y bwriadwyd pan gafodd ei fabwysiadu, a bod angen i'r pwynt hwn gael ei wneud yn yr adroddiad. Nododd swyddogion o APC Eryri eu bod ar fin cychwyn ar adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol, fodd bynnag, arhosir am arweiniad gan Lywodraeth Cymru ynghylch sut y dylai hyn gael ei wneud. Ychwanegodd y swyddog fod Eryri hefyd yn cynnal adolygiad o'u Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol hwy, fodd bynnag yr oedd cynllun APC Arfordir Penfro wedi cael ei adolygu'n ddiweddar ac mae fersiwn newydd wedi ei fabwysiadu erbyn hyn. Dywedodd aelodau o'r ddau Awdurdod bod y mater o gynllunio wedi cael ei godi gan bob busnes a gafodd eu cyfweld a'r gobaith oedd y byddai cynllun datblygu symlach yn deillio o'r adolygiadau.

Fe gytunwyd yn gyffredinol bod dyletswydd cyfredol Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol i feithrin lles economaidd a chymdeithasol y cymunedau sy'n byw ynddynt fod yn gydradd â'r dibenion presennol. Y gobaith oedd y byddai'r adroddiad craffu ar gael mewn pryd ar gyfer Llywodraeth Cymru i ystyried ei gasgliadau yn y cyswllt hwn fel rhan o'r Adolygiad cyfredol o Dirweddau Dynodedig.

Cydnabuwyd nad oedd gan yr Awdurdodau yr adnoddau i gyflawni datblygu economaidd ar hyn o bryd, ac os bydd y ddyletswydd yn dod yn bwrpas yna byddai hyn yn golygu y byddai'n rhaid naill ai cael adnoddau ychwanegol neu well gweithio mewn partneriaeth fel y gellid cyflawni hyn. Mae nifer o'r rhai a gyfwelwyd, y ddau mewn cyfarfod blaenorol ac mewn cyfweiliadau wyneb-yn-wyneb, yn teimlo ar hyn o bryd nad oedd gan staff cynllunio Arfordir APC Penfro yr amser a'r arbenigedd ar hyn o bryd i ymdrin â materion datblygu economaidd, yn enwedig o ran prosiectau ar raddfa fawr.

Awgrymodd Aelod arall bod hyn hefyd yn tanlinellu'r broblem bod yr Awdurdodau yn adweithiol yn hyn o beth, yn hytrach nag yn rhagweithiol, ac roedd angen i hyn gael ei ystyried. Ymatebodd swyddogion fod hyn yn anochel gyda dull gweithredu / ymagwedd a arweinir gan bolisi a hyd nes y bydd gan yr Awdurdodau gylch gorchwyl datblygu economaidd priodol, mai dim ond mynd hyn a hyn y gallai'r CDLlau - ni allai pobl gael eu gorfodi i gyflwyno ceisiadau cynllunio. Yn y cyfamser, roedd potensial i weithio'n agosach gyda Chynghorau Sir ac o bosibl i swyddogion cynllunio hefyd ymgysylltu'n agosach gyda swyddogion arbenigol o fewn yr Awdurdod gydag ee twristiaeth neu amaethyddiaeth.

Nodwyd bod un o gasgliadau'r ymarferiad yn debygol o fod yr angen am fwy o dystiolaeth ystadegol o'r gweithgaredd economaidd sydd yna mewn Parciau Cenedlaethol.

Yr oedd y profiadau sy'n wahanol o ran Stad Castell Hean a'r Real Seed Catalogue wedi awgrymu i'r Pwyllgor fod y busnesau hynny a oedd yn fwy cyfarwydd â'r system gynllunio neu a oedd â mynediad at gyngor proffesiynol yn ymddangos i gael gwell profiad. Felly, roedd yn ymddangos bod gan addysg a darparu arweiniad ar gyfer micro fusnesau ran i'w chwarae. Cytunodd y swyddogion bod angen efallai mwy o hyfforddiant wrth baratoi ceisiadau cynllunio oherwydd ni fyddai gan unigolion neu gwmnïau pensaernïol llai y gefnogaeth yn fewnol i fynd i'r afael â chymhlethdodau'r system gynllunio lle byddai gan ymgynghoriaethau mwy o faint y gefnogaeth honno. Yr oedd y ddau APCau wedi gweithio gyda Chynghorau Cymuned ac asiantau cynllunio gyda graddau amrywiol o lwyddiant, fodd bynnag roedd lle ar gyfer mwy o gyfathrebu gyda'r grwpiau hyn yn ogystal â'r cyhoedd a'r gymuned fusnes ehangach. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod amser staff i ddarparu lefelau uwch o gyngor ar sail unigol yn gyfyngedig. Awgrymwyd y gallai mwy o wybodaeth gael ei ddarparu ar wefannau'r Awdurdodau.

#### b) Cynhaliwyd cyfarfod 25 Mawrth 2015 (APC Eryri)

Nodwyd eto bod yr unigolion hynny a oedd â gwell dealltwriaeth o waith yr Awdurdod yn fwy cefnogol. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd gwaith yr Awdurdodau wrth ddarparu isadeiledd ar raddfa fach megis mesydd parcio gwledig, cynnal a chadw'r llwybrau, ac yn y blaen a gwerth brand y Parc Cenedlaethol. Roedd yn bwysig i hyrwyddo'r gwaith da hwn a chodi ymwybyddiaeth o'r hyn a oedd yn cael ei wneud i hybu twf economaidd drwy gyfrwng gwaith amgylcheddol. Un enghraifft oedd y rhaglen i waredu â Rhododendron yn Eryri.

Yn anffodus, yr oedd rhai o'r cyfranogwyr yn y cyfarfod wedi beirniadu Awdurdod y Parc Cenedlaethol am y dirywiad economaidd a oedd yn cael teimlo ar draws y wlad ac am bethau, megis y diffyg swyddi ar gyfer pobl ifanc, lle mai dim ond ychydig neu ddim rheolaeth sydd gan yr Awdurdod dros faterion o'r fath. Yr oedd, fodd bynnag, yn teimlo bod y cyfranogwyr yn gadael yn fwy gwybodus ynglŷn â rôl yr Awdurdod.

Yr oedd yr ail sesiwn wedi canolbwyntio ar y sector hamdden awyr agored, ac fe nodwyd cyfraniad y canolfannau i'r economi leol fel rhywbeth pwysig, o ran eu cyflogaeth uniongyrchol ac o ran y buddion i'r gymuned ehangach. Roedd gan Sir Benfro lai o ddarparwyr ar raddfa fawr ac roedd y sector yn cynnwys nifer o weithrediadau ar raddfa fach. Roedd eu neges nhw ar y cyfan yn gadarnhaol oherwydd yr oedd brand y Parc Cenedlaethol wedi eu helpu i ddenu ymwelwyr. Roedd y canolfannau yn Eryri hefyd yn gwella yr agweddau a oedd a wnelo'r iaith ac agweddau diwylliannol yr economi.

#### c) Y Broses Graffu

Fe gytunwyd bod y broses wedi cymryd gormod o amser, yn rhannol oherwydd cwmpas eang yr ymarfer a gynhaliwyd, a nodwyd y dylai ymarferion craffu yn y dyfodol fod wedi eu canolbwyntio yn well. Fodd bynnag, roedd y ffaith bod yr adolygiad yn cael ei gynnal gan ddau Awdurdod wedi gwneud y logisteg yn fwy cymhleth. Cytunodd yr Aelodau hefyd y dylid fod wedi dilyn a glynu wrth derfynau amser llymach. Awgrymwyd yn ogystal y dylai mwy o wybodaeth ystadegol fod wedi cael ei chasglu ar y dechrau er mwyn darparu llinell sylfaen a gallai hyn fod wedi arwain at faes pwnc wedi'i dargedu'n well.

#### **5. Ystyried a oedd angen rhagor o wybodaeth / tystiolaeth**

Fe gytunwyd bod gan y Pwyllgor gorff rhesymol o dystiolaeth i seilio ei argymhellion arno a'i bod yn bwysig bod yr holl argymhellion yn seiliedig ar dystiolaeth. Gallai'r rhain gynnwys argymhellion bod gwaith pellach yn angenrheidiol. Fodd bynnag, ar gyfer astudiaethau craffu yn y dyfodol teimlai un Aelod y dylai fod yna ymchwil fwy annibynnol ar ei gyfer ac fel y cyfryw y bydd rhaid cymryd gofal o ran y modd y bydd yr adroddiad yr oedd y Pwyllgor hwn wedi ei gynhyrchu yn cael ei ddefnyddio; nid oedd y cysyniad hwn yn cael ei dderbyn ymysg pob un o'r Aelodau. Gwnaed y pwynt hefyd bod barn gwleidyddion yn cael eu ceisio am mai hwy yw'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau allweddol a byddai eu cefnogaeth yn angenrheidiol wrth fynd i'r afael â rhai o'r materion a nodwyd.

#### **6. Strwthur yr Adroddiad Terfynol**

Ar sail y dystiolaeth a gafwyd fel rhan o'r broses hon, teimlwyd y dylai'r adroddiad fod yn bositif ac y dylid tanlinellu bod y rhai sy'n byw ac yn gweithio yn y Parciau Cenedlaethol yn gyffredinol yn gwerthfawrogi ac yn teimlo balchder ynddynt. Dylai natur gydweithredol y prosiect gael ei danlinellu hefyd. Teimlwyd y dylai'r cyd-destun bwysleisio rôl y Parc Cenedlaethol fel un o'r sefydliadau o fewn eu hardaloedd a oedd yn gweithio i gynnal cymunedau lleol a phwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth gydag eraill i wneud hyn. Y gobaith oedd y byddai cyfleoedd i feithrin y partneriaethau hynny.

O ran y pwyntiau allweddol a'r argymhellion, yr oedd pwysigrwydd y ddyletswydd economaidd presennol yn dod yn bwrpas ar gyfer y Parc Cenedlaethol wedi cael ei gefnogi gan bawb, ond mae'r geiriad arfaethedig wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd gan y Panel sy'n rhan o'r Adolygiad o Dirweddau Dynodedig angen ei gryfhau. Cytunwyd y buasai angen adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol yng ngoleuni unrhyw newid ym mhwrpasau yr Awdurdodau. Mae angen mwy o weithio mewn partneriaeth hefyd, yn bennaf gyda'r Cynghorau Sir, a hefyd mwy o gyfranogiad a pherthynas agosach â chyrrff eraill megis Cynghorau Cymuned, cyrff twristiaeth a sefydliadau busnes - o bosibl drwy gyfrwng fforwm busnes. Mae angen l swyddogion hefyd fod yn fwy ymwybodol o fusnes yn eu gwaith o ddydd i ddydd. Yn ogystal, roedd angen i'r

Aelodau ymgymryd â rôl fwy llysgenhadol ac fe fydd angen mwy o hyfforddiant ac anogaeth er mwyn cyflawni hyn.

Dygwyd allan beth yw pwysigrwydd y Parciau Cenedlaethol a'u hardaloedd cyfagos wrth gyflwyno profiad da i ymwelwyr hefyd, ynghyd â'r dystiolaeth y gallai'r diwydiant gyflenwi gyrfa dda i bobl ifanc gyda'r sgiliau cywir. Teimlwyd fod y drefn o farchnata brand y Parc Cenedlaethol yn dda, fodd bynnag gellid gwneud gwelliannau wrth hyrwyddo eu llwyddiannau a'u cyflawniadau.

Wrth ddiolch i bawb am eu cyfraniad, dywedodd y Cadeirydd y byddai'n ceisio cydosod y wybodaeth mewn adroddiad a dosbarthu hwn ar gyfer sylwadau yn electronig. Y gobaith oedd y byddai'r adroddiad yn cael ei gwblhau yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor a fyddai'n digwydd drwy gyfrwng cynhadledd fideo ar brynawn y 6ed o Fai. Unwaith y bydd yr adroddiad wedi cael ei gytuno gan yr Awdurdodau, y gobaith oedd yr ymgysylltir â gwleidyddion i sicrhau fod cynnydd yn cael ei wneud.



CYDWEITHGOR CRAFFU AR YR ECONOMI Y PARCIAU CENEDLAETHOL  
6 Mai 2015

Presennol:

Cynrychiolwyr o Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro:

Aelodau: Mrs G Hayward (Cadeirydd), Cyngorwyr DGM James a B Kilmister, a Mr AE Sangster.

Swyddogion: Mr Tegryn Jones, Prif Weithredwr a Mrs Janet Evans, Rheolwr Gweinyddol a Gwasanaethau Democrataidd.

Cynrychiolwyr o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri:

Aelodau: Dr I ap Gwynn, Cyngorydd s A Gruffydd, J MacLennan, C Roberts a Mrs E Roberts.

Swyddogion: Mr. G I Jones, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a Mr. J Cawley, Cyfarwyddwr Cynllunio a Threftadaeth Ddiwylliannol.

(Trwy gyfrwng cynhadledd fideo rhwng Parc Llanion, Doc Penfro a Phenrhyndeudraeth: 2.00yp – 3.00yp)

1. Ymddiheuriadau  
Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldebau gan y Cyngorwyr E Edwards (APCE) ac RM Lewis (APCAP), a Mr Emyr Williams, Prif Weithredwr Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.
2. Datganiadau diddordeb  
Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau diddordeb.
3. Cofnodion  
Cyflwynwyd y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y 17 Ebrill 2015 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

Fe **GYTUNWYD** yn ddarostyngedig i gywiriad i'r ffordd yr oedd enw Dr Iolo ap Gwynn wedi cael ei sillafu, y dylid cyflwyno'r cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y 17 Ebrill 2015 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

#### 4. **Adroddiad drafft o ganfyddiadau**

Cyfeiriodd y Cadeirydd yr Aelodau at ei adroddiad drafft hi o'r canfyddiadau a'r argymhellion a gynhwysir ynddo. Diolchodd i Mr AE Sangster am ei gefnogaeth a'i gyngor yn ystod y cyfnod drafftio.

Cafwyd trafodaeth hir ynghylch agweddau cyffredinol ac agweddau mwy penodol o'r adroddiad, gan gynnwys trafodaeth ar a ddylai'r adroddiad gael ei gyhoeddi ar gyfer defnydd mewnol yn unig fel llinell sylfaen ar gyfer comisiynu ymchwil allanol pellach i waith Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol.

Derbyniodd yr Aelodau fod yna newidiadau a oedd angen cael eu gwneud i'r adroddiad, a bod angen i enghreifftiau / cyfeiriadau pellach gael eu hymgorffori cyn y gallai'r adroddiad gael ei gwblhau.

Fe **GYTUNWYD** bod yr Awdurdodau perthnasol yn rhoi sylw pellach / tystiolaeth fel bod adroddiad drafft terfynol yn gallu cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf o'r Pwyllgor i'w gadarnhau.

## ATODIAD D8

### CYDWEITHGOR CRAFFU Y PARCIAU CENEDLAETHOL AR YR ECONOMI

8 Gorffennaf 2015

Presennol:

Cynrychiolwyr o Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro:

Aelodau: Mrs G Hayward (Cadeirydd), Y Cynghorydd B Kilmister a Mr AE Sangster.

Swyddogion: Mr Tegryn Jones, Prif Weithredwr a Mrs Janet Evans,  
Rheolwr Gweinyddol a Gwasanaethau Democraidaidd.

Cynrychiolwyr o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri:

Aelodau: Dr I ap Gwynn a'r Cynghorydd Mrs E Roberts.

Swyddogion:

Mr E Williams, Prif Weithredwr, Mr G I Jones, Cyfarwyddwr  
Gwasanaethau Corfforaethol a Mr J Cawley, Cyfarwyddwr  
Cynllunio a Threftadaeth Ddiwylliannol.

(Trwy gyfrwng cynhadledd fideo rhwng Parc Llanion, Doc Penfro a  
Phenrhyndeudraeth: 2.00yp – 3.15yp)

#### 1. **Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldebau gan y Cynghorwyr DGM James a RM Lewis (APCAP) a'r Cynghorwyr J MacLennan a C Roberts (APCE).

#### 2. **Datganiadau diddordeb**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau diddordeb.

#### 3. **Cofnodion**

Cyflwynwyd y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y 6 Mai 2015 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

**CYTUNWYD** y dylai'r cofnodion a gyflwynwyd o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y 6 Mai 2015 gael eu cadarnhau a'u llofnodi.

#### 4. **Canfyddiadau o'r adroddiad drafft**

Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau ei bod, yn y cyfarfod diwethaf, wedi cyflwyno ei adroddiad drafft o'r canfyddiadau ar gyfer rhoi sylwadau arno. Y farn oedd bod angen sylw pellach / tystiolaeth ar rai pwyntiau a godwyd yn yr adroddiad a'i fod wedi cael ei gytuno yn derfynol bod yr Awdurdodau perthnasol yn darparu manylion o'r fath fel adroddiad terfynol yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod nesaf i'w gadarnhau. Roedd yr adroddiad drafft diwygiedig ger bron yr Aelodau y diwrnod hwnnw yn cynnwys y sylwadau a wnaed yn y cyfamser, ond roedd y Cadeirydd o'r farn bod rhai elfennau sydd angen eglurhad yn parhau i fod o hyd. Gofynnodd am sylwadau'r Aelodau ar y pwyntiau a godwyd, ond gyda golwg ar gwblhau'r adroddiad y diwrnod hwnnw. Trafododd yr Aelodau yn fanwl yr adroddiad drafft ger eu bron, gan awgrymu newidiadau, ail-eirio, ac ati. Derbyniwyd bod rhai newidiadau sydd angen cael eu gwneud cyn y gall y ddogfen derfynol gael ei chyhoeddi.

Fe **GYTUNWYD** bod prif weithredwyr y ddau Awdurdod yn gweithio gyda'i gilydd i ymgorffori'r awgrymiadau a wnaed gan Aelodau a swyddogion yn y cyfarfod, a bod yr adroddiad drafft terfynol yn cael ei gyflwyno i gyfarfod o Awdurdod y Parc Cenedlaethol perthnasol nesaf ar gyfer trafodaeth.

## ATODIAD E1

Trafodaeth gyda Paul Davies AC a'r Cynghorydd Sir David Howlett

Hwlffordd Dydd Llun 2<sup>il</sup> Mawrth 2015

Yn gyffredinol, cred Paul bod gan y rhan fwyaf o bobl farn eithaf cadarnhaol am y Parc Cenedlaethol a'r ffordd y mae'n gweithredu, er ei fod yn cael galwad bob hyn a hyn gan etholwr yn mynegi pryderon am effaith yr APC ar eu cyflogaeth a bywoliaeth yn yr ardal a hefyd ar reoli busnesau llwyddiannus yn y Parc - yn bennaf ynghylch materion cynllunio.

Yn gyffredinol ystyrir gan y cyhoedd bod yr APCAP yn fwy llym yn ei bolisiau a'i rwystrau na CSP, a chyn belled ag y mae busnes yn y cwestiwn nid yw APCAP yn cael ei ystyried yn gefnogol. Rhoddodd fel enghraifft y sŵn a wnaed y llynedd gan y Ffederasiwn Busnesau Bach gyda'u harolwg. Roedd yn derbyn y gallai'r arolwg fod wedi bod braidd yn amheus yn y ffordd y cafodd ei gynnal, ond roedd yn bwydo'r canfyddiad presennol ac ni chafodd ei wrthwynebu yn dda iawn gennym ni na'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol eraill.

Mae hefyd yn derbyn y farn nad yw ein polisi cynllunio efallai bob amser yn gywir ond yn hytrach bod yna fwlch rhwng canfyddiad a realiti (er enghraifft, yn hytrach na'i fod yn rhwystro'r rhan fwyaf o geisiadau cynllunio, gŵyr Paul bod dros 85% yn cael eu cymeradwyo). Mae'n credu y dylai APCAP fod yn fwy rhagweithiol wrth ymdrin â chwalu'r mythau hyn. Nid ydym yn esbonio nac yn hyrwyddo'r hyn rydym yn ei wneud i gefnogi'r economi leol.

Mae yna hefyd broblem o ran amrywiad rhwng Tegryn a'r Cyfarwyddwyr a rhai o'r staff ar y ddaear, gyda'r rhai cyntaf yn gallu cymryd golwg ehangach a mwy pragmatig (ac mae gan Paul berthynas ddefnyddiol a chadarnhaol iawn gyda Tegryn) ond mae'r staff y mae'r rhan fwyaf o aelodau'r cyhoedd yn ymwneud â hwy yn fwy llym, ac yn disgyn yn ôl ar bolisi a gweithdrefnau yn hytrach na mabwysiadu dull partneriaeth i geisio ateb sy'n dderbyniol i'r ddwy ochr pan fo problemau yn dod i'r amlwg. Ni ddylai'r ateb diodyn fod yn "NA" ond yn hytrach "nid y ffordd honno, ond gadewch i ni weld os oes ffordd arall".

Mae'n gweld fod busnesau yn cael trafferth wrth gynllunio'n effeithiol ar gyfer eu hanghenion i'r dyfodol oherwydd yr anhawster i ddeall beth fydd barn APCAP o'r hyn y mae'n ei ddisgwyl, a'r hyn a fydd yn ei ganiatáu, gan fusnesau. Felly, mae angen delio â'r APCAP yn enwedig ar faterion cynllunio oherwydd ei fod yn cael ei weld fel rhwystr i dwf.

Mae'n gefnogol iawn i symud y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol i fod yn bwrpas statudol.

Mae ganddo bryderon o ganlyniad i achosion y mae wedi delio â hwy o ran ein polisiau tai fforddiadwy a hygyrchedd. Mae'r cyntaf yn rhy ddrud a chyfyngol ac yn atal datblygiadau rhag digwydd ar gyfer unigolion a chan unigolion. Mae'r olaf yn wirion o ran caniatáu tai fforddiadwy neu adeiladau i'r economi dwristiaeth, ond nid

ar gyfer tai cyffredin, arferol. Mae hyn eto yn milwrio yn erbyn pobl leol wrth iddynt geisio parhau i fyw a gweithio yn yr ardal.

Mae'n gweld bod gan APCAP rôl hanfodol i'w chwarae mewn cefnogi'r economi twristiaeth hanfodol bwysig, ac at ei gilydd mae'n gwneud hynny'n dda. Gellid gwneud gwelliannau, fodd bynnag, trwy adeiladu ar y marchnata gwych a wnaed eisoes ac ail-alinio polisiau i gefnogi'n well datblygiad busnesau yn y sector fel y crybwyllwyd uchod.

## ATODIAD E2

Trafodaeth gyda Simon Hart AS 10.00 am 27<sup>ain</sup> Chwefror 2015

15 Heol St Ioan,  
Hendy-gwyn  
Sir Gaerfyrddin

[Simon.hart.mp@parliament.uk](mailto:Simon.hart.mp@parliament.uk)  
01994 342002

- Mae gan y Parc Cenedlaethol brofiad hir o helpu i hyrwyddo'r ardal fel cyrchfan i dwristiaid
- Yn ddigyfaddawd wrth ddiogelu tirlun (ac yn iawn i fod felly)
- O'r herwydd, weithiau yn ymddangos wedi'i ddatgysylltu o weithgaredd economaidd ac arloesi
- Clod i ddull Tegryn Jones, y Prif Swyddog Gweithredol, o ymdrin â'r tensiwn rhwng gweithgarwch economaidd ac Egwyddor Sandford
- Dylai staff fod yn fwy hyblyg
- Yn credu y bu newid mewn ymagwedd yn ddiweddar
- Mater o bolisi Tai Fforddiadwy a rheolau Hygyrchedd yn broblemus i ddatblygwyr a busnes yn gyffredinol
- Ni wnaed gymaint o gwynion iddo yn y misoedd diwethaf
- Yn cymeradwyo dull mwy synhwyrol a gynrychiolir gan geisiadau Huff House a Chastell Hean
- Mae angen i'r Parc ymgysylltu'n fwy effeithiol â'r cyhoedd ac esbonio yr hyn sy'n bosibl
- Dylai fod yn agored ac yn hygyrch, gan egluro polisiau i fusnesau.
- Yn credu y dylai'r ddyletswydd bresennol ar yr economi ddod yn bwrpas.

## ATODIAD E3

### Trafodaeth gyda Stephen Crabb AS – Hwlffordd Dydd Gwener 6<sup>ed</sup> Mawrth 2015

Cychwynnodd Stephen drwy ddweud ei fod yn gweld APCAP fel brand pwerus, cryf iawn sydd yn ased bendant i Sir Benfro.

Fodd bynnag, mae hyn yn cael ei wrthbwysu i raddau helaeth gydag APCAP yn aml yn arddangos diffyg sensitifrwydd gwirioneddol tuag at y bobl sy'n byw yn y Parc. Byddai'n gefnogol i gael rhywfaint o atebolrwydd uniongyrchol, er enghraifft cael newid yr aelodau a enwebwyd gan GSP am aelodau a etholwyd yn uniongyrchol fel sy'n digwydd, mae'n credu, yn yr Alban.

Mae APCAP yn dda am gyflwyno gweledigaeth "cerdyn post" o'r Parc, ac yn ei farn ef mae hwn yn gryfder ac yn wendid.

Roedd yr ymgyrch bosteri retro er enghraifft, yn "wych" ond roedd yn cael ei gwrthbwysu gan y rhwystredigaethau cyffredin a brofwyd gan lawer o bobol o fân benderfyniadau a diffyg gwirioneddol o unrhyw gamau amlwg o ran cefnogi busnesau a'r economi yn y Parc. Mae'r economi yn newid, ond nid yw'r Parc yn newid ei agwedd tuag at fodloni ei ofynion newydd.

Rhoddodd dystiolaeth o hyn gyda rhai enghreifftiau lle ei fod, ar ran etholwyr, wedi bod yn "tynnu gwallt ei ben" mewn brwydrau gyda swyddogion unigol fel arfer yn yr adran gynllunio (oherwydd ynghylch materion cynllunio y mae'n cael y rhan fwyaf o gwynion), gan eu bod yn anhyblyg ac yn hynod anghydnaws a digymwynas, heb ddim o'r synnwyr cyffredin y cred Stephen a ddylai fod yn llawer mwy amlwg yn y modd y mae'r APCAP yn delio â phobl a busnesau.

Ymhlith yr enghreifftiau a roddodd oedd pysgotwr a oedd eisiau storfa ar gyfer tractor, mater ym marn Stephen a allai fod wedi cael ei ddatrys yn llawer cyflymach petai'r swyddog/ion heb "ystyfnigo"; ffenestr newydd yn lle hen un yn Nhrefdraeth a gafodd ei gwrthwynebu a'i hoedi yn yr un modd, ond lle'r oedd APCAP yn y pen draw wedi newid ei feddwl; a datblygiad busnes newydd arfaethedig yn Llanismel a "gymerodd flynyddoedd i'w ddatrys" ayb.

Er ei fod yn cydnabod bod yr adran gynllunio wedi gwella dros y blynyddoedd diwethaf, mae'n dal o'r farn bod angen mwy o bragmatiaeth a synnwyr cyffredin ac mae hefyd yn hynod o gefnogol i rôl economaidd-gymdeithasol y Parc gael ei chydabod yn ffurfiol fel pwrpas statudol.

Mae ein polisi tai fforddiadwy yn nonsens yn y ffordd y mae'n cynyddu costau i unigolion sydd am adeiladu tai iddynt eu hunain neu i'w teulu i barhau i fyw a gweithio yn yr ardal.

Nid yw ei ymwneud ag uwch swyddogion yn debyg i'w rhai mae'n cael cwynion amdanynt gan etholwyr, sy'n delio ag unigolion ar lefelau is yn y sefydliad.

Ar lefelau uwch, mae tystiolaeth o'r bragmatiaeth a synnwyr cyffredin y mae'n teimlo a ddylai fod yn amlwg drwy'r Awdurdod cyfan. Mae wedi cael nifer o drafodion



gydag Tegryn er enghraifft, ac er y bydd bob amser yn amddiffyn ei swyddogion, mae'n dod drosodd fel rhywun proffesiynol, caboledig a phragmataidd (y nodwedd hynod werthfawr honno).

## ATODIAD E4

### Ymateb Twristiaeth Sir Benfro.

#### "Sut allai Awdurdod y Parc Cenedlaethol, o ran ei bolisïau, gefnogi'n well y busnesau yn y Parc i ffynnu ac ehangu?"

Twristiaeth Sir Benfro yw'r gymdeithas fasnach fwyaf blaenllaw yn Sir Benfro i fusnesau sy'n ymwneud â'r economi twristiaeth ac ymwelwyr neu sydd â diddordeb yn yr economi hwnnw. Mae ein haelodaeth yn dod o bob sector o fewn y diwydiant a hefyd yn darparu rhychwant daearyddol da drwy'r sir.

Rydym yn deall nad Awdurdod y Parc Cenedlaethol sy'n cyflenwi datblygu economaidd fel swyddogaeth sylfaenol, a bod unrhyw ganlyniadau economaidd yn cael eu hystyried yn 'sgil-gynnyrch' i bob pwrpas o gyflenwi dyletswyddau mewn perthynas â chadwraeth, mynediad a hamdden.

Wedi dweud hynny, mae cyfran sylweddol o'r gwaith a wneir gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn creu budd economaidd i fusnesau o fewn a thu allan i ffiniau'r Parc.

Mae'r gwaith a wneir gan y Parc i gyflawni'r prif swyddogaethau cadwraeth a mynediad yn cyfrannu at fusnesau lleol mewn nifer o ffyrdd. Mae nifer sylweddol o'n haelodau yn ddarparwyr llety sy'n darparu ar gyfer ymwelwyr â'r sir, llawer ohonynt yn dewis Sir Benfro fel eu cyrchfan ar y sail ei bod mewn Parc Cenedlaethol arfordirol, gydag enw da am gynnal a chadw'r dirwedd yn dda. Mae'r busnesau hyn mewn llawer o achosion yn adeiladu eu gweithgaredd marchnata eu hunain ar gryfder y Parc Cenedlaethol ac atyniad gweithgareddau fel cerdded wrth hyrwyddo eu cynnyrch i gwsmeriaid posibl.

O fewn y Cynllun Datblygu Lleol mae dau nod wedi'u diffinio'n glir mewn perthynas ag economi'r sir:

- 1) Helpu i greu a chynnal economi leol amrywiol, hyfyw a chynaliadwy sydd o fudd i bob rhan o'r gymuned.(Polisi 42 a Pholisi 43)
- 2) I ddenu nifer cynaliadwy o bobl ar bob adeg o'r flwyddyn i fwynhau rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol.(Polisi 35)

Hyd yma mae'r Parc Cenedlaethol wedi gwneud yn dda yn erbyn y nodau hyn, boed hynny drwy gyflenwad parhaus o waith cadwraeth a mynediad, ystyried ceisiadau cynllunio neu gymryd rhan ym Mhartneriaeth Cyrchfan Sir Benfro. Yn ogystal, ychwanegodd llwyddiant ysgubol yr Ymgyrch Poster Pen-blwydd 60<sup>ain</sup> yn sylweddol at yr economi twristiaeth yn y sir, ac mae'n parhau i wneud hynny wrth i'r delweddau a ffotograffau cysylltiedig gael eu defnyddio a'u hadnabod yn eang.

Rydym yn ffodus yma yn Nhwrstiaeth Sir Benfro i fod wedi datblygu perthynas waith dda gydag Awdurdod y Parc. Rydym yn gallu cyfathrebu gwaith yr Awdurdod i'n haelodau a sut y gallant wneud y gorau o'r cyfleoedd y mae'r gweithgaredd hwn yn ei roi i'w busnesau.

Mae twristiaeth yn sector economaidd allweddol yng Nghymru, ac yn enwedig felly yma yn Sir Benfro. Fodd bynnag, mae'r gefnogaeth a roddir i'r sector yn dod o dan bwysau cynyddol yn erbyn cefndir o doriadau ariannol o fewn Cyngor Sir Penfro ac i raddau llai Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Ar hyn o bryd nid oes gan yr un corff rwymedigaeth statudol i ddarparu cefnogaeth i'r economi twristiaeth, ond o gofio pwysigrwydd y sector yn lleol o ran creu swyddi, y swyddi cyffredinol a gefnogir, a'r cwmpas ar gyfer twf a datblygiad, byddai'n ddoeth ystyried a ddylai fod mwy o bwyslais ar ymrwymiad cryf i ddatblygu economaidd.

Mae'r gwaith a wneir ar hyn o bryd gan Awdurdod y Parc eisoes yn darparu nifer o fanteision economaidd fel 'sgil-gynnyrch'. Petai pwrpasau sylfaenol y Parc yn ymestyn i gynnwys trydydd pwrpas, sef cyflwyno datblygiad economaidd, byddai cyfle da i ychwanegu'n sylweddol at yr economi lleol. Er enghraifft, byddai gweithgaredd marchnata cyrchfan a gynhyrchir yn benodol gan y Parc Cenedlaethol yn rhoi manteision mwy i fusnesau twristiaeth leoli o fewn ffin y Parc gan y byddent yn gallu manteisio ar ymgyrchoedd o'r fath trwy eu gweithgarwch eu hunain a chysylltu'n uniongyrchol â hwy, ond ar hyn o bryd, ymdrechion unigolion preifat sy'n gyfrifol am weithgarwch marchnata o'r fath.

Mae Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro yn 'frand' cryf ac uchel ei barch, ac mae'r hunaniaeth sydd felly'n gysylltiedig ag ef yn bwysig ar gyfer gweithgarwch marchnata cyrchfan yn y dyfodol. Mae'r wobr gan y National Geographic yn 2010 yn atgyfnerthu hyn: "arfordir ardderchog a ddiogelir o safbwynt ecolegol a daearegol. Mae twristiaeth cadwraeth morol ac ar y tir yn apelio at bob oedran. Mae'r arferion stiwardiaeth cyfredol yn cynnal ansawdd a hygyrdd". Mae'r dyfodol yn parhau i fod yn ansicr yng ngoleuni argymhellion Comisiwn Williams, ac fel y cyfryw mae'n eithaf posibl ar ryw adeg y bydd Sir Benfro yn peidio â bodoli fel Awdurdod. Er mwyn i fusnesau barhau i fwynhau'r manteision sy'n gysylltiedig â marchnata cyrchfan o dan frand Sir Benfro, bydd yn hanfodol bwysig bod Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn gallu atgyfnerthu hynny drwy weithgarwch sy'n benodol yn cefnogi'r economi lleol. Er nad yw'r Parc yn cynnwys y cyfan o'r sir, mae'n rhanddeiliad allweddol yn yr hunaniaeth hon, ac yn hynny o beth mae ganddo'r potensial i wneud cyfraniad sylweddol i weithgarwch economaidd, twf busnes a datblygiad yn awr ac mewn blynyddoedd i ddod.

## ATODIAD E5

Karen Anthony  
Cyfarwyddwr Polisi Cymru, CLA  
Tŷ Cymru  
Parc Menter Llanandras  
Llanandras  
LD8 2UF

Diolch i chi am y cyfle i wneud sylwadau ar yr ymarfer craffu hwn. Rwy'n ymddiheuro am yr oedi a achoswyd pan anfonwyd yr hysbysiad o'r ymarferiad at ein Cyfarwyddwr blaenorol.

Yn ystod y raddfa amser fer sydd bellach ar gael i ni, mae ein ymholiadau wedi cael eu cyfyngu i raddau helaeth i aelodau ein pwyllgorau rhanbarthol, sydd ond yn sampl gynrychioliadol o'r aelodaeth.

O fewn cyfyngiadau hynny, roedd ymateb y mwyafrif llethol yn un o siom nad oedd y craffu hwn yn gyffredin i bob Parc Cenedlaethol yng Nghymru. Fel y cofiwch efallai, cynhaliodd CLA Cymru a'r 3 PC rai seminarau gwybodaeth ar y cyd yn gynnar yn 2013. Roedd yr ymateb o bob un yn gadarnhaol yn bennaf ac mae'r adroddiadau diweddaraf o'r ymgysylltu â Sir Benfro ac Eryri yn gadarnhaol. Er bod gennym ambell adroddiad o anawsterau, maent yn cael eu datrys yn bennaf drwy ymgysylltiad cynnar a pharodrwydd ar y ddwy ochr i wneud yr hyn sydd orau. Yn y 2 barc sydd dan archwiliad, mae aelodau yn adrodd bod yr angen i ddeall anghenion busnes yn cael ei gefnogi gan barodrwydd i wrando a chynghori. Mae aelodau bob amser wedi derbyn na fydd pob datblygiad yn cael caniatâd, ond mae ymgysylltiad a dealltwriaeth gynnar o anghenion wedi cael ei werthfawrogi gan fwyaf. Yn anffodus nid yw profiad aelodau yn cefnogi'r un lefel o gydweithio gydag awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Rwyf wedi dod yn ymwybodol o un mater sy'n ymwneud â'r agwedd at orfodi, ond byddaf yn codi hynny ar wahân, yn hyderus y bydd yn cael ei datrys yn gyfeillgar.

Petai angen, byddwn yn hapus i roi adborth llafar i'ch adolygiad, ond yn teimlo ar hyn o bryd bod y berthynas â'r ddau barc hwn yn golygu ein bod fel corff cynrychioliadol yn gallu cysylltu yn ôl yr angen ar sail achos wrth achos.

Cofion cynnes  
Karen

## ATODIAD E6

### Ymateb NFU Cymru i Adolygiad Craffu ar y Cyd Awdurdodau Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a Pharc Cenedlaethol Eryri

Mae NFU Cymru yn croesawu'r cyfle i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i Adolygiad Craffu ar y Cyd Awdurdodau Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a Pharc Cenedlaethol Eryri sy'n ceisio sefydlu pa mor llwyddiannus yw polisïau a gwaith y Parc Cenedlaethol yn cefnogi busnes.

Mae NFU Cymru yn hyrwyddo ffermio yng Nghymru ac mae'n cynrychioli ffermwyr ledled Cymru ac ar draws pob sector. Ein nod yw sefydlu'r amodau cefndir i fusnesau fferm allu bod yn broffidiol a datblygu.

Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd y diwydiant ffermio fel asgwrn cefn Cymru wledig, mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod bywiogrwydd a photensial ardaloedd gwledig yn cysylltu'n agos â phresenoldeb sector ffermio gystadleuol a deinamig sydd hefyd yn chwarae rhan bwysig mewn cynhyrchu gweithgareddau economaidd ychwanegol.

Mae'r ystod o nwyddau a gwasanaethau a ddarperir gan amaethyddiaeth yng Nghymru yn ddigyffelyb o'i gymharu ag unrhyw ddiwydiant arall. Yn gyntaf ac yn bennaf oll rydym yn darparu bwyd o ansawdd diogel, uchel ac rydym yn gonglfaen y sector bwyd a diod Cymru sydd werth £4 biliwn; ochr yn ochr â hyn, fel ffermwyr, rydym wedi creu, gofalu a rheoli tirwedd gwerthfawr Cymru sydd nid yn unig yn cefnogi ystod amrywiol o rywogaethau, cynefinoedd ac ecosystemau, ond sydd hefyd yn darparu cefndir sylweddol ar gyfer ein sector twristiaeth, sydd werth tua £1.6bn bob blwyddyn.

Byddai NFU Cymru yn tynnu sylw at yr angen i gydnabod y ffaith nad yw tirwedd Cymru o fewn y Parciau Cenedlaethol ac yn ehangach yn 'naturiol'. Mae'n ganlyniad i ganrifoedd o ffermio a gweithgareddau eraill gan ddyd. Mae hefyd yn bwysig deall mai'r tir amaethyddol sydd wedi ei greu, ei siapio ac a gynhelir gan ffermwyr yw'r gyfran fwyaf o bell ffordd o'r arwynebedd tir o fewn yr ardaloedd dynodedig.

Cred NFU Cymru ei bod yn hollbwysig bod y Parciau Cenedlaethol yn cael eu hystyried yn amgylcheddau byw, gweithiol sy'n esblygu'n gyson. Fel y cyfryw, rydym yn awyddus i weld polisïau Parc Cenedlaethol sy'n ystyried ac yn cofleidio'n gyfartal linyddau economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol cynnaladwyedd.

Bu NFU Cymru yn galw ers amser am daro cydbwysedd priodol rhwng y pwysau sydd ynghlwm â gwarchod y dirwedd a'r gymuned a datblygu busnes o fewn y Parciau Cenedlaethol. Ein barn ni yw bod y Parciau Cenedlaethol i raddau wedi tan-bwysleisio'r agweddau economaidd-gymdeithasol, gan roi blaenoriaeth i gadwraeth tirwedd yn anad dim arall, ac na roddwyd sylw digonol i les cymdeithasol ac economaidd y rhai sy'n byw ac yn gweithio o fewn yr ardaloedd hyn.

Ein barn yw mai'r rhinweddau a nodweddion pwysicaf yn yr ardaloedd dynodedig yw'r bobl a'r cymunedau sy'n byw a gweithio ynddynt, yn arbennig, y rhai yn y sectorau diwydiannau'r tir, sydd â rôl hanfodol wrth lunio a chynnal y dirwedd. Yr unigolion a'r busnesau hyn sy'n darparu dimensiwn diwylliannol i brofiad ymwelwyr, yn ogystal â'r rhesymeg economaidd sy'n sail i ansawdd y dirwedd.

Yr ydym, felly, yn pwysleisio'r angen i roi mwy o ffocws economaidd i'r penderfyniadau a gymerir mewn perthynas â datblygiad. Byddem yn tynnu sylw at y ffaith y bydd moderneiddio a buddsoddi yn y technolegau diweddaraf mewn ffermio yn hanfodol wrth symud ymlaen. Hefyd mae ffermydd wedi'u lleoli'n dda a dylid eu hannog yn weithredol i harneisio adnoddau naturiol sydd ar gael i gynhyrchu ynni adnewyddadwy.

Hefyd, o gofio bod ffermwyr yng Nghymru yn gweithredu mewn marchnadoedd nwyddau byd-eang ac yn cael eu cyflwyno'n gynyddol i ansefydlogrwydd y farchnad, dylai datblygiadau sy'n caniatáu iddynt arallgyfeirio eu hincwm a chynyddu gwytnwch busnes gael eu cefnogi yn weithredol hefyd ac nid cael eu mygu o fewn ffiniau'r Parc. Yn ein barn ni, mae angen i'r Parciau Cenedlaethol gefnogi datblygiad adeiladau fferm segur a ffermdai adfeiliedig mewn modd rhagweithiol. Byddem yn pwysleisio er efallai fod yr adeiladau hyn wedi cyflawni eu pwrpas defnyddiol mewn termau amaethyddol, gellir eu datblygu a gallant barhau i sicrhau manteision economaidd ac esthetig.

Byddem hefyd yn mynegi pryder bod datblygiad o fewn y Parc Cenedlaethol yn aml yn costio mwy yn sgil yr angen i newid lleoliad adeiladau, yr angen am gladin cerrig ayb. Wrth symud ymlaen, byddem yn pwysleisio'r angen am well rheolaeth ar ymwelwyr, gyda rhywfaint o gydnabyddiaeth o fewn y polisi bod yna derfyn ar faint o ymwelwyr y gall ardaloedd 'pot mêl' ymdopi â hwy. Rydym yn pryderu tra bod ymdrech sylweddol yn cael ei gwneud i hyrwyddo Parciau Cenedlaethol fel cyrchfannau i ymwelwyr, yn aml nid yw'r seilwaith ymwelwyr priodol yn cyd-fynd â hyn, gyda chyllidebau ar gyfer 'wardeinio' a gwelliannau i lwybrau yn cael eu herio'n gynyddol. Ein barn ni yw y dylai mynediad i ymwelwyr bwysleisio mwynhad tawel ar droed i ardaloedd mynediad CROW a dim mwy na hynny.

Yn olaf, byddem yn mynegi rhywfaint o bryder bod y Parciau Cenedlaethol yn gweithredu dylanwad cynyddol y tu hwnt i'w ffiniau ffisegol, drwy, er enghraifft, wrthwynebu datblygiadau adnewyddadwy y gellir eu gweld o'r Parc Cenedlaethol.

I gloi, byddem yn amlygu'r ffaith bod NFU Cymru yn cefnogi system gynllunio sy'n cyflawni amcanion cenedlaethol, lleol a chymunedol drwy gefnogi datblygiadau priodol. Yn ganolog i'r weledigaeth hon mae system gynllunio sy'n dangos dealltwriaeth drylwyr a gwerthfawrogiad o rôl amaethyddiaeth, nid yn unig o safbwynt ffermwyr fel cynhyrchwyr bwyd a phrif reolwyr tir, ond hefyd gan roi sylw dyledus i'r berthynas economaidd hanfodol rhwng ymddangosiad y cefn gwlad a'r angen i gael busnesau proffidiol i'w gynnal.

Mae'n hanfodol bod ffermydd a busnesau mewn ardaloedd dynodedig yn gallu ymateb i amcanion ehangach y Llywodraeth ac amcanion Polisi'r UE trwy, er enghraifft, fuddsoddiadau mewn prosiectau ynni adnewyddadwy a seilwaith fferm ar gyfer slyri a storio tail angenrheidiol i fodloni gofynion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Ni ddylai ffermwyr yn yr ardaloedd hyn wynebu costau uwch na ffermwyr mewn ardaloedd eraill o ran llunio cais cynllunio manylach, nac yn wir orfod derbyn 'amodau' ychwanegol gyda chaniatâd cynllunio.

Mae NFU Cymru yn croesawu Adolygiad Craffu ar y Cyd Awdurdodau Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a Pharc Cenedlaethol Eryri. Byddem yn pwysleisio nad yw tirweddau dynodedig yn 'naturiol', ond yn hytrach eu bod yn ganlyniad i ganrifoedd o ffermio a gweithgareddau eraill gan ddyn. Heb amaethyddiaeth gynaliadwy a chymunedau lleol iach i fod yn sail iddynt, ni fyddai'r tirweddau hyn yn cael eu cynnal.

## ATODIAD E7

Nodiadau o gyfarfod rhwng APC Eryri ac adran Datblygu Economaidd Gwynedd

### **A ydych wedi ymdrin yn ffurfiol ag Awdurdod y Parc Cenedlaethol? Os felly, rhwch ddisgrifiad byr o'r canlyniad**

- Agwedd wedi newid yn ddiweddar, llai negyddol
- Yn llawer yn fwy parod i drafod a datblygu syniadau, gan gynnwys rhai heriol
- Awdurdod wedi bod yn ddefnyddiol wrth ddatblygu'r prosiect "Canolfannau rhagoriaeth Eryri"
- Dim mwy anodd delio â materion cynllunio yn y Parc nag adran gynllunio Gwynedd

### **Sut all y Parc Cenedlaethol wneud mwy i helpu busnesau yn y Parc ffynnu ac ehangu?**

- Seilwaith – ddim yn meddwl fod y seilwaith yn ddigonol yn y Parc - mae'r rhan fwyaf o stadau diwydiannol ar ffin y Parc - bylchau amlwg mewn perthynas â Dolgellau a'r Bala
- Rhan fwyaf o fusnesau bach mewn ardaloedd gwledig yn fusnesau "ffordd o fyw" - ond pan mae angen ehangu'r busnes o'r eiddo presennol, nid yw'r seilwaith yn caniatáu ar ei gyfer
- Angen nodi mwy o dir ar gyfer safleoedd datblygu bach yn y Cynllun Datblygu Lleol
- Angen i'r y Cynllun Datblygu Lleol gydnabod a chyfeirio at yr "Ardal Fenter" ddynodedig ym Meirionnydd

### **Yn eich barn a'ch profiad, a yw'r ffaith bod eich busnes wedi ei leoli mewn Parc Cenedlaethol wedi bod o fantais i'ch busnes ai peidio?**

- Yn gyffredinol, ystyrir bod y dynodiad yn rhoi mantais i fusnesau, yn enwedig yn y sector twristiaeth
- Mae manteision marchnata i'r dynodiad ar gyfer busnesau

## ATODIAD E8

### NODYN O GYFARFOD AR Y CYD APCAP A CSB AR DDATBLYGU ECONOMAIDD A CHRAFFU

#### Cynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Aberdaugleddau ar 5 Rhagfyr 2014

Presennol:

Cynrychiolwyr o Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro:

Aelodau: Mrs G Hayward, y Cynghorwyr DGM James, B Kilmister a RM Lewis a Mr AE Sangster

Swyddogion: Mr T Jones, Prif Weithredwr

Cynrychiolwyr o Gyngor Sir Benfro:

Aelodau: Cynghorydd K Lewis, siaradwr Cabinet dros gymunedau a'r sector wirfoddol

Swyddogion: Dr S Jones, Cyfarwyddwr Datblygu, Mr M White, Pennaeth Adfywio a Ms C George, Cydlynnydd Partneriaeth a Chefnogi Craffu – Economi a'r Amgylchedd

#### Y prif bwyntiau a godwyd

1. Mae Pwyllgor Arolygu a Chraffu'r Economi CSB wedi ymgymryd â llawer o waith ar y pwnc hwn. Mae penderfyniadau CSB yn seiliedig ar dystiolaeth / ystadegau gan Lywodraeth Cymru a ffynonellau eraill, er nad yw'n ymagwedd seiliedig ar dystiolaeth mor gryf ag y gallai fod (nid oes gan CSB uned ymchwil bwrpasol i dreulio'r holl ddata sydd ar gael). "Mae diffyg meddwl cydgysylltiedig yng Nghymru rhwng awdurdodau lleol a sefydliadau ymchwil, colegau, ac ati a allai helpu yn hyn o beth" (SJ).
2. Cyflawnwyd proffil economaidd Sir Benfro ddiwethaf yn 2008; mae'r proffil yn y broses o gael ei adolygu. Yn anffodus, nid oes unrhyw ymchwil penodol ar y Parc Cenedlaethol wedi cael ei wneud.
3. Mae ystadegau Gwerth Ychwanegol Crynswth (GYC) yn dangos bod gan Sir Benfro GYC isel (59.7) o'i gymharu ag Abertawe (74.9) a Chaerdydd (100 +). Mae GYC Prydain ar gyfartaledd yn 100.
4. Mae yna lawer o fusnesau mawr a busnesau bach / micro yn Sir Benfro, ond nid oes llawer o fusnesau canol eu maint. Mae mwy o swyddi rhan-amser nag y byddai CSB yn dymuno eu gweld hefyd.
5. Mae'r mudwyr sy'n symud i mewn o'r tu allan i'r ardal yn tueddu i fod yn gyfoethog mewn arian parod, felly nid ydynt yn faich economaidd. Mae angen dod o hyd i ffyrdd i'w hannog i fuddsoddi mewn busnesau. Roedd Indycube (?) wedi agor yn ddiweddar yn Nhŷ Ddewi lle gall pobl sydd â syniadau rannu gofod i ddatblygu'r syniadau hynny



gydag eraill. Mae ganddynt hefyd gysylltiadau â ffrydiau ariannu. Mae yna fannau tebyg yn Arberth a Doc Penfro.

6. Mae'r mynegai diweddar ar amddifadedd yng Nghymru yn dangos bod Sir Benfro ymysg y 12 ward uchaf sy'n cael eu cyfrif fel yr amddifadedd gwaethaf o'r 22 awdurdod lleol. Gellir priodoli hyn i raddau helaeth i'r pcedi o amgylch yr Aber, ond hefyd i amddifadedd gwledig.
7. Mae'r amcanestyniad poblogaeth yn mynd i fyny, ond mae'n ansicr a yw hynny yn y demograffig cywir.
8. Mae'r diffyg cyfleoedd cyflogaeth yn cael effaith ar yr iaith Gymraeg am fod hynny'n gyrru pobl ifanc allan o'r ardal i chwilio am waith (KL). Gofynnodd i APCAP gymryd hyn i ystyriaeth. Holodd TJ a oes unrhyw enghreifftiau lle mae CSB wedi gwneud yn well o ran gwella datblygiad economaidd. Atebodd KL ei fod yn fater pwysig i CSB hefyd, a bod y Cyngor yn gorfod edrych ar ffyrdd o wella'r sefyllfa.
9. "Nid yw polisi trafndiaeth gynaliadwy APCAP yn darparu cyfleoedd teg i drigolion - mae APC yn llawer mwy cadarn ar weithredu polisi na CSB" (RML). "Mae CDLI APCAP yn hen ffasiwn, ac amgylchiadau wedi newid ers ei fabwysiadu" (BK). "Mae 'anhyblygedd' y CDLI yn cael effaith negyddol ar wireddu'r potensial ar gyfer datblygiad economaidd" (EAS). Crybwyllodd CG bod y CDLI yn un o'r rhwystrau l Fesur Cenedlaethau'r Dyfodol, a bod angen iddo gadw i fyny i fodloni gofynion y Mesur. "Mae TAN 23 yn caniatáu i awdurdodau cynllunio lleol i roi mwy o bwys ar ddatblygu economaidd" (SJ). Cytunodd RML, gan nodi y dylai dyletswydd economaidd-gymdeithasol APCAP gael yr un pwysau â'i bwrpasau.
10. Gofynnodd TJ a oes unrhyw wahaniaeth rhwng CDLI APCAP a CDU CSB. Atebodd SJ fod CSB yn blaenoriaethu ceisiadau cynllunio sydd gan oblygiadau datblygu economaidd neu oblygiadau tai. Dadleuodd BK y bydd CSB yn ffafrio datblygu economaidd o fewn ardal y Cyngor yn gyntaf, yn hytrach nac o fewn y Parc Cenedlaethol. Cyfaddefodd SJ bod hyn fwy na thebyg yn wir, er na wneir hynny yn ymwybodol. Ychwanegodd MW bod dulliau ar gyfer datblygu posibl yn Ninbych y Pysgod neu Gasnewydd, er enghraifft, a fydd yn cael eu cyfeirio at APCAP; Fodd bynnag, mae llawer yn geisiadau ar gyfer safleoedd datblygu mwy o faint. Aeth ymlaen i ddweud bod APCAP yn cael ei arwain gan "lywiad cul" - mae'r cyd-destun cynllunio statudol yn gyfreithiol, ond yn gulach - tra bo gan y Cynllun Gwella Strategol "Gyd-destun sydd yn fwy cytbwys".
11. Mae twristiaeth yn bwysig, ond nid yw cyfraddau gwag yn bopeth; mae angen sicrhau bod y troedfeddi sgwâr manwerthu cywir ar gael mewn perthynas â phoblogaeth hefyd. Mae CSB wedi diwygio ffiniau manwerthu cynradd ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol sy'n dod i'r amlwg, felly maent wedi crebachu mewn manau. Fodd bynnag, yr oedd y sylfaen dystiolaeth yn dibynnu ar ystadegau 2008/09, felly mae amgylchiadau wedi newid eto ers hynny. Mae angen mecanwaith cynllunio mwy hyblyg i ddarparu newidiadau o'r fath.
12. Mae Timau Tref wedi cael eu sefydlu gan Gyngor Sir Penfro i lunio cynlluniau gweithredu ar gyfer eu hardaloedd.

13. Byddai CSB yn hoffi buddsoddi mwy mewn gwaith partneriaeth ar y cyd, ond nid oes ganddynt yr adnoddau i wneud hynny. Ar hyn o bryd mae CSB yn gweithio gyda Choleg Sir Benfro ar brosiect STEM (gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg) i geisio gwella sgiliau menter ac fe hoffent weld canolfan 6ed dosbarth ar gyfer rhagoriaeth gyda menter fel sail rhesymeg ar ei chyfer.
14. Yr oedd CSB wedi mabwysiadu dull gweithredu wedi ei dargedu; mae yna or ddibyniaeth ar rai sectorau ac mae angen canolbwyntio mwy ar y môr ac ar ynni adnewyddadwy. Mae gan CSB ddyhead i greu parc busnes bwyd yn y sir. Mae Canolfan Arloesedd y Bont / Bridge Innovation Centre yn graidd o ran arallgyfeirio ac yn dechrau gwireddu prosiectau; y gobaith yw cael mentrau canolig eu maint sy'n tyfu'n gyflym i gau'r bwlch. Byddai KL yn hoffi gweld APCAP yn chwarae mwy o ran gyda'r agwedd hon.
15. Yr oedd SJ yn credu bod Cynllun Cyrchfan Sir Benfro yn rhoi'r sir ar flaen y gad o ran ardaloedd rheoli cyrchfannau eraill.
16. Mae CSB yn yn ystyried y Model Gwella Busnes Ardal, lle mae busnesau mewn ardal benodol yn cyfrannu ardoll bach tuag at wella eu hamgylchedd masnachu ac yn helpu i ateb yr heriau sydd a wnelo siopa ar gyrion tref, y rhyngwyd a materion eraill sy'n benodol i'r ardal honno. Mae Bournemouth wedi cyflwyno model o'r fath.
17. Mae Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Economi CSB wedi edrych ar safleoedd cyflogaeth, lle gwnaed y pwynt bod gan APCAP rôl i sicrhau bod digon o safleoedd ar gael i annog / hyrwyddo datblygiad economaidd. Byddai CSB yn yn hoffi gweld y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn dod yn drydydd pwrpas ar gyfer y Parc Cenedlaethol.
18. "Mae hi'n bwysig creu cyflogaeth, yn enwedig o ran economeg wledig. Dylai APCAP ganiatáu / annog clystyrau bach (2-3 o fusnesau) i ddatblygu mewn ardal - byddai hyn yn creu mwy o effaith na 2-3 busnesau ar wahân (ee Nine Wells, Solfach neu Tŷ Ddewi)"(KL).
19. "Rôl APCAP yw annog busnesau bywiog gwerth uchel yn seiliedig ar gysylltedd band eang da" (KL).
20. "Mae APCAP o fudd enfawr i'r economi ymwelwyr" (SJ).
21. Nid oes gan APCAP fynediad uniongyrchol at arian grant yr UE, ond maent yn gweithio mewn partneriaeth gyda Chyngor Sir Penfro (a chyrrff eraill) er mwyn cael mynediad at arian Ewropeaidd. "Mae angen sicrhau nad oes unrhyw ddyblygu yn digwydd; Nid yw APCAP am gymryd briff economaidd ei hun, ond yn hytrach, gweithio mewn partneriaeth ag eraill"(TJ).

## Detholiad o Gyngor Sir Penfro, y CDLI ac Economi Sir Benfro – Tudalen 51

### Rhagfyr 2010

**(Sylwer nad yw rhifau'r paragraffau yr un fath â'r gwreiddiol.)**

#### Casgliadau

- 1.1 Mae'r Cyngor wedi adnabod yr angen i dynnu ynghyd y dystiolaeth wahanol a ddefnyddiwyd i sefydlu a yw'r dull polisi strategol a chyffredinol i ddarpariaeth tir cyflogaeth drwy'r CDLI am y cyfnod o fabwysiadu hyd at 2021 yn ddigon cadarn i gwrdd ag anghenion presennol ac amgylchiadau economaidd newidiol.
- 1.2 Mae cryn **ansicrwydd** dros gyfeiriad, cwmpas a graddfa datblygiad economaidd, yn arwain at ystod eang o senarios ar gyfer yr economïau ynni rhyngwladol, y DU, Cymru a Sir Benfro yn y dyfodol. Rhaid i'r CDLI ymateb i'r ansicrwydd hwn gyda fframwaith gadarn o bolisiâu strategol ar gyfer datblygu economaidd wedi'i ategu gan ddyraniad safleoedd a meini prawf polisi cryf.
- 1.3 **Bydd tir a nodwyd ar gyfer defnydd cyflogaeth angen buddsoddiad sylweddol** mewn seilwaith a gwasanaethau. Mae pryder bod llai o gyllid sector cyhoeddus yn rhwystro buddsoddiad sector preifat ac yn cyfyngu ar faint o dir sydd ar gael yn effeithiol ar gyfer datblygu. **Dylai mwy o ffocws ar bolisi cynllunio sy'n seiliedig ar feini prawf sicrhau hyblygrwydd i ymdrin ag anghenion cyflogwyr/ datblygwyr oherwydd cyfyngiadau amgylcheddol ac eraill.**
- 1.4 Mae busnesau yn chwilio am eiddo fforddiadwy ac mae'r angen i adeiladu i safon BREEAM Ardderchog yn ychwanegu at costau adeiladu. Mae'r premiymau hyn yn cael eu trosglwyddo trwy gyfrwng rhenti uwch ayb., ac mae busnesau'n ei chael yn anodd ei fforddio. Mae hyn yn arbennig o wir gyda busnesau peirianeg a thebyg lle mae drysau mawr yn cael eu gadael ar agor er mwyn cael mynediad ac awyru, a rhai o fanteision safonau ardderchog BREEAM o insiwleiddio yn cael eu colli.
- 1.5 Mae bygythiadau posibl i'r economi gyda newidiadau byd-eang yn yr economi olew a gyda dwy **burfa Sir Benfro** ar werth, wrth i gwmnïau olew mawr ystyried tynnu'n ôl o'r gweithgareddau derbyn<sup>7</sup>.
- 1.6 Mae cyfleoedd penodol ar gyfer yr economi lleol ar ffurf **Ynni Adnewyddadwy** (yn enwedig y gwaith o ddatblygu Technolegau Ynni Morol), **Twristiaeth o Ansawdd, Bwyd-amaeth a gweithgynhyrchu arbenigol**. Gall y gweithgareddau hyn yn ysgogi buddsoddiad newydd a chreu cyflogaeth ar safleoedd gyda'r nodweddion lleoliad angenrheidiol, a bydd angen bod yn hyblyg o fewn y system gynllunio i ystyried achosion unigol yn ôl eu teilyngdod.
- 1.7 Yn ystod y cyfnod y CDU ar y Cyd, mae argaeledd tir cyflogaeth wedi newid yn sylweddol o ganlyniad i ddefnydd graddfa fawr ar gyfer prosiectau ynni mawr yn South Hook, Waterston a safle Gorsaf Bŵer Penfro. Mae hyn yn gwrthdroi tueddiadau y deng mlynedd blaenorol pan ddaeth safleoedd tir llwyd mawr ar gael. Fodd bynnag mae Blackbridge a Threcŵn yn dal i gynrychioli "asedau cyfle" sylweddol i ddatblygiad sy'n gofyn am eu nodweddion lleoliad prin.
- 1.8 **Mae angen cyfuniad o bolisi dyraniadau tir cyflogaeth a pholisi sy'n seiliedig ar feini prawf i fodloni gofynion defnydd tir ar gyfer mentrau gwledig gwasgaredig ac i**

<sup>7</sup> mae cyfanswm o 6 o'r 9 o burfeydd Prydeinig ar werth ar hyn o bryd

**sicrhau y gall y tir cyflogaeth priodol gael ei ddwyn ymlaen i gwrdd ag anghenion lleoliad-benodol, amrywiol ac anrhagweladwy mentrau gwledig.**

- 1.9 Bydd gwybodaeth fanwl ar seilwaith a chyfyngiadau gwasanaeth ar gael mewn canllawiau cynllunio atodol.
- 1.10 Mae goblygiadau defnydd tir economi Sir Benfro **yn rhoi cymysgedd o ofynion** ar y CDLI, gan gofleidio dyraniadau defnydd tir penodol, polisïau diogelu tir cyflogaeth presennol, adnoddau mwynau a'r amgylchedd a threftadaeth ddiwylliannol a pholisïau sy'n seiliedig ar feini prawf, sy'n darparu'r sail ar gyfer sicrhau'r raddfa gywir a math o ddatblygiad yn y lleoliadau priodol yn unol â'r hierarchaeth aneddiadau a gofynion unigryw yr economi, gan gynnwys ar bennau cyferbyniol y sbectwm:
- ar gyfer nifer fach o safleoedd datblygu mawr, gan gynnwys datblygiadau ynni a datblygiad sy'n gysylltiedig â phorthladdoedd, a all ddod ymlaen dros gyfnod hir o amser a fydd angen datblygu prosiect helaeth ac
  - ar gyfer datblygiadau ar raddfa fechan ar draws cefn gwlad Sir Benfro.
- 1.11 Mae gofynion cynllunio gwastraff y Cynllun Datblygu Lleol yn cydnabod addasrwydd rhai dyraniadau tir cyflogaeth ar gyfer rhai mathau o drin gwastraff a nodir y meini prawf ar gyfer dyrannu ar gyfer mathau eraill.
- 1.12 Mewn perthynas ag ynni adnewyddadwy mae'r Cyngor Sir wedi nodi'r angen<sup>8</sup> am:
- safleoedd ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy annibynnol,
  - gofynion i ynni adnewyddadwy gael ei ymgorffori i safleoedd datblygu mawr a
  - cydleoli defnyddiau ynni gwastraff/ffynonellau ynni adnewyddadwy gyda defnyddwyr ynni,
  - datblygu'r potensial yn Sir Benfro ar gyfer gwasanaethu'r diwydiant ynni adnewyddadwy ac Ymchwil a Datblygu cysylltiedig ar y tir ac ar y môr.
- 1.13 **Yn gyffredinol, ychydig o ddefnydd a wnaed o safleoedd a ddyrannwyd yn y CDLI ar y Cyd a gwan yw'r dystiolaeth bod dyrannu safle mewn ardal wledig yn effeithiol o ran darparu ar gyfer anghenion mentrau gwledig. Mae rhai cwestiynau sylweddol am y ffordd y mae swyddogaethau economi wledig yn gweithredu, ac mae economi sy'n seiliedig ar feini prawf yn cael ei ffafrio fel un mwy ymatebol i'r cyfleoedd penodol sy'n codi.**
- 1.14 Mae gwasgfa barhaus ar amaethyddiaeth, gyda phatrymau arferion a newidiadau mewn ffermio, rhwng y rhai sy'n dwysáu graddfa'r gweithrediadau, a'r rhai sy'n lleihau dwysedd a sicrhau gwerth ychwanegol drwy ansawdd a 'milltiroedd bwyd lleol'. Bydd cynyddu pwysau ar y farchnad dai yn Sir Benfro gan dwristiaeth a'r rhai sy'n gwneud dewisiadau ffordd o fyw yn sicrhau heriau cyflogaeth a thai parhaus i bobl ifanc, gyda chymudo o chwith sylweddol a chyffredinolrwydd o swyddi tâl isel/ rhan amser/ tymhorol.
- 1.15 Mae strwythur poblogaeth sy'n heneiddio, o'i ystyried ochr yn ochr â phwysau parhaus ar bobl ifanc i adael Sir Benfro ar gyfer addysg/ cyflogaeth a thai yn debygol o barhau gyda thwf yr economi wledig i'r dyfodol sy'n briodoledig i dwristiaeth, gofal iechyd personol a gwasanaethau gwledig. Mae'r awdurdod yn cydnabod pwysigrwydd dewis yn y farchnad dai a thai fforddiadwy o fewn economi Sir Benfro.
- 1.16 Mae gan economi Sir Benfro hanes o fregusrwydd o ran cau gweithfeydd mawr, rhywbeth a achosir gan ddylanwadau a phenderfyniadau allanol. Mae angen adolygu gofynion tir a seilwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn cwrdd ag anghenion cyflogwyr a buddsoddwyr. Bydd cynnig Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddefnyddio proses y Cynllun Gofodol i nodi gofynion seilwaith yn helpu i dynnu sylw at berfformiad y farchnad eiddo masnachol, ei llwyddiannau a'i methiannau.

---

<sup>8</sup> Cyngor Sir Penfro: CDLI Papur Cefndir ar Ynni Adnewyddadwy 2010

- 1.17 Mae'r awdurdod wedi gweithio gyda sefydliadau eraill yn y sector preifat a chyhoeddus er mwyn sicrhau bod y Cynllun Datblygu Lleol drafft yn diwallu anghenion busnesau, buddsoddwyr a thrigolion.
- 1.18 **Mae'r Awdurdod wedi ymrwmo i ddarparu gwytnwch yn y CDLI yn wyneb yr ansicrwydd economaidd digynsail. Mewn ymateb i'r ansicrwydd hwn, bydd y CDLI yn integreiddio hyblygrwydd, trwy nodi amrywiaeth o safleoedd cyflogaeth o ran maint a lleoliad, gan roi pwyslais arbennig ar nodi dyraniadau i ddatblygu twf economaidd mewn datblygiadau ynni a datblygiadau sy'n gysylltiedig â phorthladdoedd o amgylch Dyfrffordd Aberdaugleddau, gan ddarparu cyfleoedd ar gyfer twf cyflogaeth yn agos at y prif ganolfannau poblogaeth a darparu ar gyfer anghenion penodol mentrau gwledig drwy ddyraniadau â ffocws a gefnogir gan bolisiau cryf sy'n seiliedig ar feini prawf.**

Tabl 1

Math	Sylwadau	Canolfannau <sup>9</sup>	Addasiadau	Adeiladu Newydd ger Canolfannau	Cefn Gwlad	Addasiadau
		Adeiladu newydd		Adeiladu newydd	Adeiladu newydd	
<b>Datblygiad Mawr (yn cynnwys Gosodiadau Peryglus, ceisiadau'r Weinyddiaeth Amddiffyn, echdynnu mwynau)</b>	<p>Prawf Datblygiad Mawr - gall Polisi Cynllunio Cymru ganiatáu datblygiadau o'r fath mewn amgylchiadau eithriadol. e.e.,</p> <p>Gwaith Gwres a Phŵer Cyfunol Aberdaugleddau</p> <p>Chwarel Pant-gwyn, estyniad i'r man cloddio mwynau.</p>	<input checked="" type="checkbox"/>		<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
<b>Polisi Cynllunio Cenedlaethol</b>	Chwarel Trefigin - echdynnu i ardal cloddio mwynau.					
<b>Gweithdai / Unedau Diwydiannol (hyd at 2 hectar) Polisi 42</b>	<p>Polisi Cenedlaethol <b>o fewn neu wrth ymyl</b></p> <p>Yn berthnasol i Ganolfannau a nodwyd yn y Parc Cenedlaethol</p>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>

<sup>9</sup> Dinbych-y-Pysgod – Canolfan Gwasanaethau Lleol a Thwristiaeth, Tyddewi, Trefdraeth, Saundersfoot, - Canolfan Leol

Canolfannau Gwledig: Amroth, Angle, Bosherton, Broad Haven, Dale, Dinas Cross, Felindre Farchog, Herbrandston, Jameston, Lawrenny, Little Haven, Maenorbŷr, Gorsaf Maenorbŷr, Marloes Niwglwl, Pontfaen, Solfach, Llanismel, Trefin, Cosheston, Hook\*, Houghton\*, Llangwm\*, Milton\*, New Hedges, Pleasant Valley\*, Roch\*, Square and Compass, Summerhill

\*Yn gorwedd yn bennaf o fewn awdurdodaeth gynllunio'r Cyngor Sir

Math	Sylwadau	Canolfannau <sup>9</sup>	Addasiadau	Adeiladu Newydd ger Canolfannau	Cefn Gwlad	Addasiadau
		Adeiladu newydd		Adeiladu newydd	Adeiladu newydd	
<b>Polisi Cynllunio Cenedlaethol</b>	<p>Enghraifft unedau presennol yn Nhrefdraeth, Tyddewi.</p> <p>Ar gyfer busnes, diwydiannol, storio cyffredinol a dosbarthu.</p>					
<b>Cyfleusterau Rheoli Gwastraff Lleol (Polisi 27)</b>	<p>Lle mae'r cais yn gwasanaethu'n bennaf anghenion cymunedau yn y Parc Cenedlaethol.</p> <p>Canolfannau Ailgylchu, gorsafoedd trosglwyddo gwastraff, safleoedd tirlenwi, cyfleusterau compostio.</p>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	
<b>Addasu Adeiladau yng Nghefn Gwlad (Polisi 7d)</b>	<p>Maen prawf hygrychedd yn berthnasol mewn addasiadau cefn gwlad oni bai ei bod yn uned gwaith fyw.</p> <p>Enghreifftiau: llety pysgotwyr a man storio a chynnal a chadw cwch - Solfach - uned waith fyw.</p> <p>Addasu 2 ysgubor i stiwdio gwaith coed / gweithdy - Pencaer</p>					<input checked="" type="checkbox"/>
<b>Arallgyfeirio ar Ffermydd (Polisi 7c)</b>	<p>Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn dibynnu ar Bolisi Cynllunio Cymru ar gyfer cyd-destun polisi o ran arallgyfeirio ar ffermydd</p> <p>Enghreifftiau o'r caniatâd a roddwyd:</p>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>

<b>Math</b>	<b>Sylwadau</b>	<b>Canolfannau<sup>9</sup></b>		<b>Adeiladu Newydd ger Canolfannau</b>	<b>Cefn Gwlad</b>	
		<b>Adeiladu newydd</b>	<b>Addasiadau</b>		<b>Adeiladu newydd</b>	<b>Addasiadau</b>
	<p>Llety tŷ bync</p> <p>Llety Gwyliau</p> <p>Dim maen prawf hygyrchedd Dim angen cyfyngu i ddefnyddiau yn gysylltiedig â ffermio.</p> <p>Enghreifftiau - Fferm Musselwick ger Marloes - addasu adeiladau allanol i 5 uned llety gwyliau;</p>					
<b>Pyllau Benthyc / Cerrig Adeiladu Lleol Polisi 23 &amp; 24</b>	<p>Diwydiant adeiladu lleol yn elwa ar ddeunyddiau o ffynonellau lleol.</p> <p>Pyllau Benthyc Nolton / Trac Ceffylau Druidston</p>			<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
<b>Atyniad i dwristiaid neu gyfleuster hamdden sydd angen lleoliad gwledig Polisi 35</b>	<p>Canllawiau Cynllunio Atodol ar y mathau o ddefnyddiau adloniadol sy'n briodol mewn gwahanol rannau o'r Parc Cenedlaethol.</p>			<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
<b>Polisi Datblygu Effaith Isel 47</b>	<p>Cyflogaeth cynhaliaeth.</p> <p>Canllawiau Cynllunio Atodol Effaith Isel yn Gwneud Cyfraniad Positif</p>			<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
<b>Adeiladau Fferm Newydd i</b>	<p>Enghreifftiau - Tynnu ymaith 4 adeilad ad-hoc a charafán a chael 1 adeilad</p>			<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	



Math	Sylwadau	Canolfannau <sup>9</sup>  Adeiladu newydd	Addasiadau	Adeiladu Newydd ger Canolfannau	Cefn Gwlad  Adeiladu newydd	Addasiadau
<b>ddibenion amaethyddol (Polisi 7h)</b>	<p>newydd storio amaethyddol/ sied tractor yn eu lle - Llanrhian.</p> <p>Canllawiau Cynllunio Atodol Lleoliad a Dyluniad Adeiladau Fferm</p> <p>Canllawiau Cynllunio Atodol ar lagynau slyri ??</p>					
<b>Cyfleusterau Ar y Lan a chysylltiadau Ynni Adnewyddadwy (Polisi 17) a (Polisi 33)</b>	<p>Wedi'i anelu tuag at yr arfordir datblygedig. Gall lleoliadau sy'n dechnegol ymarferol ar gyfer cysylltiadau ar y tir i ddefnydd ynni adnewyddadwy oddi ar y lan fod angen lleoliadau ar yr arfordir sydd heb ei ddatblygu. Mae eraill yn cynnwys gorsafoedd bad achub, glanfeydd, pontynau a llithrfeydd.</p> <p>Enghreifftiau gorsaf bad achub Tyddewi.</p> <p>Caniatâd ar gyfer cysylltiad grid i Uned Ffrwd Delta Swnt Dewi.</p>					
<b>Porthgain, Saundersfoot, Solfach a Harbwr Dinbych-y-Pysgod (Polisi 18)</b>	<p>Cefnogi datblygiad sy'n cynnal gweithgarwch harbwr.</p> <p>Enghreifftiau: Datblygiad defnydd cymysg ar safle Jones a Teague yn Saundersfoot - gan gynnwys defnydd masnachol a phreswyl.</p>					

Math	Sylwadau	Canolfannau <sup>9</sup>		Adeiladu Newydd ger Canolfannau	Cefn Gwlad	
		Adeiladu newydd	Addasiadau		Adeiladu newydd	Addasiadau
<b>Ynni Adnewyddadwy (Polisi 33)</b>	<p>Tyrbinau gwynt ar raddfa fechan wedi'u cymeradwyo yn Fferm Hendre Tyddewi, Fferm Landway Jameston, Fferm Shipping Hill, Beavers Hill, Fferm Norchard a Thornhill, Maenorbŷr, Glasdir Farm Nanhyfer, Rainbolts Hill Roch, Fferm Pearson a Fferm Windmill Sain Ffraid, Fferm Trewarren Llanismel, Cherinlee Broad Haven.</p> <p>Araeau Solar wedi'u cymeradwyo ar Wersyll Merrion Y Weinyddiaeth Amddiffyn a Upper Porthmawr Tyddewi, wedi'u cymeradwyo ar adeiladau rhestredig megis Castell Sain Ffraid ac wedi'u hymgorffori i gynlluniau tai megis Tŷ Solar yng Nglanrhyd a nifer o geisiadau gan ddeiliaid tai ac adeiladau amaethyddol lle na ddosberthir hyn fel datblygu a ganiateir.</p> <p>Biomass wedi'i gymeradwyo yn Hope Cove Druidstone mewn ysgubor ger y tŷ annedd, estyniad ar dai i gartrefu boeler newydd yn Broomhill Farm Martletwy a nifer o ganiatadau ar gyfer ffliwiau lle na ddosberthir hyn fel datblygu a ganiateir.</p> <p>Cynllun hydro dŵr ffo afon wedi'i</p>					

Math	Sylwadau	Canolfannau <sup>9</sup>  Adeiladu newydd	Addasiadau	Adeiladu Newydd ger Canolfannau	Cefn Gwlad  Adeiladu newydd	Addasiadau
	<p>gymeradwyo ym Mhontfaen (100kw) cynhyrchu digon o drydan i bweru tua 80 o gartrefi bob blwyddyn.</p> <p>Pympiau gwres aer wedi'u cymeradwyo ar safle datblygu Teggars Brewery yn Saundersfoot (ar gyfer Tesco), Royal Playhouse Sinema yn Ninbych-y-Pysgod, nifer o geisiadau gan ddeiliaid tai wedi'u cymeradwyo lle na ddosberthir hyn fel datblygu a ganiateir.</p> <p>Cysylltiadau grid Llanw wedi'u cymeradwyo ar gyfer cyfleuster profi Swnt Dewi yn St Justinians.</p> <p>Canllawiau Cynllunio Atodol ar Ynni Adnewyddadwy Canllawiau Cynllunio Atodol ar Effeithiau Cronnus Tyrbinau</p>					
<b>Economi Ymwelwyr (Polisi 38 &amp; 39, 40 &amp; 41) Gwersylla Datblygiadau carafán neu chalet</b>	<p>Dim cynnydd o ran nifer.</p> <p>Peth uwchraddio yn cael ei ganiatáu.</p> <p>Dymchwel blociau toiledau nad ydynt yn cael eu defnyddio a gosod 2 lain carafán sefydlog ychwanegol o fewn safle presennol yn Niwgwyl.</p> <p>Newid o 40 llain pabell i 20 llain carafán</p>	☒	☒	☒	☒	☒

Math	Sylwadau	Canolfannau <sup>9</sup>	Addasiadau	Adeiladu Newydd ger Canolfannau	Cefn Gwlad	Addasiadau
		Adeiladu newydd			Adeiladu newydd	
	<p>teithiol a 20 o bebyll yn Moreton, Saundersfoot</p> <p>Y nod yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- ymestyn y tymor trwy gydol y flwyddyn heb gael effaith andwyol ar y dirwedd.</li> <li>- Gwella ansawdd</li> </ul> <p>Gwelliannau amgylcheddol a gefnogir</p>					
<b>Diogelu rhag colled gwestai (Polisi 36)</b>	<p>Profion yn cael eu cynnwys ar gyfer eu rhyddhau i ddefnyddiau eraill yn y polisi</p> <p>Hen safle Gatehouse Royal Dinbych-y-Pysgod - ailddatblygu yn parhau i ddarparu ar gyfer llety gwesty gyda datblygiad preswyl a masnachol.</p> <p>Royal Hotel yn Broad Haven – addasu i gartref gofal.</p>					
<b>Diogelu safleoedd cyflogaeth presennol (Polisi 43)</b>	Profion yn cael eu cynnwys ar gyfer eu rhyddhau i ddefnyddiau eraill yn y polisi					
<b>Polisi 49 (Manwerthu yn y Parc)</b>	Cefnogi mewn amrywiaeth o Ganolfannau.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>			

Math	Sylwadau	Canolfannau <sup>9</sup>  Adeiladu newydd	Addasiadau	Adeiladu Newydd ger Canolfannau	Cefn Gwlad  Adeiladu newydd	Addasiadau
<b>Cenedlaethol)</b>	<p>Depo Post Brenhinol, Dinbych-y-Pysgod. Y tu allan i Ganol Tref ond nid yn cael ei ystyried yn niweidiol i'w bywiogrwydd neu hyfywedd. Bydd y datblygiad yn cynnwys darparu siop gyfleustra newydd.</p> <p>Annedd preswyl ac estyniad i'r siop bresennol yn Jameston.</p> <p>Derbynfa, swyddfa a siop newydd yn lle'r hen rai yng Nghastell Amroth.</p>					
<b>Polisi 50 Canolfannau Siopa Trefi a'r Ardal</b>	<p>Mae ystod o ddefnyddiau yn cael eu cefnogi</p> <p>Datblygu Royal Gatehouse - defnydd cymysg yn cynnwys gofod llawr gwaelod manwerthu newydd o tua 450m<sup>2</sup> a disgwylir iddo gael ei ddefnyddio ar gyfer nwyddau cymharol.</p> <p>Ailddatblygu Cambrian Hotel yn Saundersfoot i ddefnydd cymysg yn cynnwys 6 uned manwerthu ychwanegol gyda gofod llawr cyfunol o oddeutu 768m<sup>2</sup> Cynigir defnyddiau A1, A2 ac A3.</p> <p>Mae'r Siop Tesco Express newydd yng</p>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>			

Math	Sylwadau	Canolfannau <sup>9</sup>	Addasiadau	Adeiladu Newydd ger Canolfannau	Cefn Gwlad	Addasiadau
		Adeiladu newydd		Adeiladu newydd	Adeiladu newydd	
	<p>Nghanolfan Ardal Saundersfoot wedi'i chwblhau yn awr ac yn cael ei defnyddio, cymeradwywyd dan Mae'r siop yn darparu tua 347m<sup>2</sup> o arwynebedd llawr cyfleustra ychwanegol.</p> <p>Canolfan Gofal Iechyd Naturiol yng Nhrefdraeth – defnyddio polisi i amddiffyn yn erbyn colli uned fanwerthu yn y Ganolfan i ddefnydd preswyl.</p>					
<b>Polisi 51</b>	Cefnogi o fewn neu'n gyfagos i Ganolfannau	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>		
<b>Canolfannau Gardd</b>						
<b>Polisi 55 &amp; 56 Telathrebu Gwifrau Pŵer a Phiblinellau</b>	<p>Polisiau yn seiliedig ar feini prawf</p> <p>Prosiect Seilwaith Symudol wedi nodi safleoedd o fewn y Parc Cenedlaethol - efallai y bydd angen mastiau newydd.</p> <p>Nifer o geisiadau blaenorol eisoes wedi'u cymeradwyo ar gyfer datblygu telathrebu (polion telegraff, llinellau, cypyrddau band eang ayb).</p>					

**Tabl 2 – Detholiad o'r Papur Cefndir Cyflogaeth – diweddariad - drafft**

**PCC (7<sup>fed</sup> Argraffiad) a gofynion TAN23 r**

	<b>Gofyniad PCC</b>	<b>Ystyriaeth gychwynnol</b>	<b>Casgliadau</b>
1.	<p>Wrth gymhwyso'r ystyriaethau hyn a ffactorau eraill, dylai awdurdodau lleol geisio sicrhau bod datblygu economaidd yn digwydd yn y manau mwyaf priodol yn hytrach na rhwystro a dadlau yn erbyn datblygiad o'r fath.</p>	<p>Mae polisiâu'r Cynllun Datblygu Lleol yn caniatáu ar gyfer ystyried ystod o ddefnyddiau mewn lleoliadau priodol. (Polisiau 2 i 7; Polisiau 15, 17, 18, 30, 34, 35, 37, 42, 43, 49, 50 a 51). Mae'r gwasanaeth cyn ymgeisio a gynigir gan yr Awdurdod yn caniatáu ar gyfer trafod ag ymgeiswyr, gan gynnwys y potensial i geisiadau a allai gael eu gwrthod am resymau lleoliadol i safleoedd amgen.</p>	<p>Nid oes angen newid i'r Cynllun i ddarparu ar gyfer y gofyniad polisi cenedlaethol hwn.</p>
2.	<p>Dylai cynlluniau a phenderfyniadau fod yn seiliedig ar dystiolaeth gyfredol a phenodol i'r ardal leol gan ddangos addasrwydd y cyflenwad tir cyflogaeth presennol. Dylai awdurdodau gynnal a pharhau i adolygu Adolygiad Tir Cyflogaeth. Dylai hyn gael ei baratoi ar sail isranbarthol lle bo hynny'n bosibl.</p> <p>Dylai'r CDLI fod yn seiliedig ar sylfaen dystiolaeth gyfredol a phriodol i gefnogi dewisiadau polisi a dyraniadau tir ar gyfer datblygu economaidd.</p> <p>Dylai cynlluniau datblygu adlewyrchu'r gwaith gydag awdurdodau cyfagos a rhanddeiliaid perthnasol i gynllunio'n strategol ar gyfer darpariaeth tir cyflogaeth.</p> <p>Dylai'r Cynllun Datblygu Lleol geisio darparu'r swm cywir o dir a chymysgedd ansoddol o safleoedd i gwrdd â'r galw yn y farchnad ar gyfer defnydd datblygu economaidd.</p>	<p>Y strategaeth ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol yw gwneud darpariaeth cyflogaeth ar raddfa fechan yn y Parc Cenedlaethol. Nid yw ceisiadau ar raddfa fawr yn cael eu hystyried yn gydnaws â dynodiad y Parc Cenedlaethol. Gwelir datblygiadau cyflogaeth ar raddfa fach fel datblygiad sy'n cynnwys llai na 2 hectar o dir ar gyfer busnes, diwydiannol cyffredinol neu storio a dosbarthu.</p> <p>Nid yw canllawiau Llywodraeth Cymru ar y fethodoleg i gynnal Adolygiadau Tir Cyflogaeth wedi eu cyhoeddi eto. Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol o fewn grŵp cynllunio rhanbarthol de-orllewin Cymru. Fel yr Awdurdod cyntaf i fabwysiadu ei Gynllun Datblygu Lleol mae wedi cyrraedd y diwygiad 1af o flaen yr awdurdodau eraill yn y grŵp. Fel yr awdurdod lleiaf, mwyaf gwledig ac anghysbell gydag egwyddorion y Parc Cenedlaethol yn arwain pob datblygiad, nid yw'r Awdurdod hwn yn y sefyllfa orau i arwain ar Adolygiad Tir Cyflogaeth ar gyfer y grŵp ehangach. Fodd bynnag, gellir cynnal adolygiad o'r tir a dyraniadau cyflogaeth presennol yn y Parc Cenedlaethol yn erbyn y dystiolaeth o angen. Mae gwaith yn cychwyn ar adolygiad lleol ar y cyd â Chyngor Sir Penfro tra'r ydym yn aros am ganllawiau LIC. Os yw hyn yn cael ei gwblhau mewn pryd, bydd yn cael ei ddefnyddio i lywio'r Adolygiad Cynllun hwn; fel arall bydd Adolygiadau eraill o'r Cynllun yn y dyfodol yn cael eu harwain gan yr astudiaethau rhanbarthol ehangach.</p>	<p>Angen adolygu'r holl ddyraniadau cyflogaeth yn y Cynllun Datblygu Lleol.</p> <p>Mae'r Awdurdod yn gweithio gyda Chyngor Sir Penfro i baratoi elfen arolwg lleol fel rhagflaenydd i adolygiad tir cyflogaeth. Dylai'r adolygiad gael ei gwblhau o fewn yr Adolygiad o'r Cynllun hwn, yna gall y canlyniadau gael eu cymryd i ystyriaeth. Fel arall, bydd angen iddo gael ei gynnwys yn yr Adroddiadau Monitro Blyneddol o'r Cynllun a'i gynnwys mewn adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol yn y dyfodol.</p>

3.	Dylai awdurdodau lleol annog twf hunangyflogaeth a microfusnesau mewn ardaloedd gwledig trwy fabwysiadu dull cefnogol a hyblyg i weithio gartref.	Mae'r dull polisi yn caniatáu ar gyfer ystyried ceisiadau sy'n dod ymlaen. (Polisiau 2-7, 15, 30, 42) Mae dyraniadau amrywiol ar gyfer defnydd cymysg, gan gynnwys gweithdai ac unedau byw / gweithio a fyddai'n cefnogi microfusnesau a gweithio gartref.	Nid oes angen newid i'r cynllun i ddarparu ar gyfer y gofyniad polisi cenedlaethol hwn.
4.	Dylai'r Cynllun Datblygu Lleol, cyn belled ag y bo'n ymarferol, nodi gweledigaeth economaidd ar gyfer yr ardal, gan gynnwys asesiad eang o newid mewn cyflogaeth a ragwelir fesul sector eang a defnydd tir.	Nodir hyn ym mharagraffau 4.179-4.182 y Cynllun. Bydd yr Adolygiad Tir Cyflogaeth a ragwelir yn helpu i asesu a yw'r weledigaeth yn debygol o gael ei chyflawni.	Nid oes angen newid i'r cynllun i ddarparu ar gyfer y gofyniad polisi cenedlaethol hwn.
5.	Dylai'r CDLI ddarparu targedau ar ddarpariaeth tir i ddefnydd cyflogaeth (B1-B8), yn dangos newid net mewn tir / arwynebedd llawr ar gyfer swyddfeydd a diwydiant / warws ar wahân, a diogelu'r safleoedd hyn rhag datblygiadau amhriodol.	Nid yw canllawiau Llywodraeth Cymru ar y fethodoleg i gynnal Adolygiadau Tir Cyflogaeth wedi eu cyhoeddi eto. Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol o fewn grŵp cynllunio rhanbarthol de-orllewin Cymru. Fel yr Awdurdod cyntaf i fabwysiadu ei Gynllun Datblygu Lleol mae wedi cyrraedd y diwygiad 1af o flaen yr awdurdodau eraill yn y grŵp. Fel yr awdurdod lleiaf, mwyaf gwledig ac anghysbell gydag egwyddorion y Parc Cenedlaethol yn arwain pob datblygiad, nid yw'r Awdurdod hwn yn y sefyllfa orau i arwain ar Adolygiad Tir Cyflogaeth ar gyfer y grŵp ehangach. Fodd bynnag, gellir cynnal adolygiad o'r tir a dyraniadau cyflogaeth presennol yn y Parc Cenedlaethol yn erbyn y dystiolaeth o angen. Mae gwaith yn cychwyn ar adolygiad lleol ar y cyd â Chyngor Sir Penfro tra'r ydym yn aros am ganllawiau LIC. Os yw hyn yn cael ei gwblhau mewn pryd, bydd yn cael ei ddefnyddio i lywio'r Adolygiad Cynllun hwn; fel arall bydd Adolygiadau eraill o'r Cynllun yn y dyfodol yn cael eu harwain gan yr astudiaethau rhanbarthol ehangach .	Mae'r Awdurdod yn gweithio gyda Chyngor Sir Penfro i baratoi elfen arolwg lleol fel rhagflaenydd i adolygiad tir cyflogaeth. Dylai'r adolygiad gael ei gwblhau o fewn yr Adolygiad o'r Cynllun hwn, yna gall y canlyniadau gael eu cymryd i ystyriaeth. Fel arall, bydd angen iddo gael ei gynnwys yn yr Adroddiadau Monitro Blynyddol o'r Cynllun a'i gynnwys mewn adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol yn y dyfodol.
6.	Dylai'r CDLI gynnwys polisiau sy'n ymwneud â datblygiadau i'r dyfodol ar safleoedd cyflogaeth presennol i'w diogelu rhag datblygiad amhriodol: <ul style="list-style-type: none"> <li>• annog adfywio ac aildefnyddio safleoedd sydd yn dal yn addas ac yn angenrheidiol ar gyfer cyflogaeth::</li> <li>• rheoli rhyddhau safleoedd cyflogaeth diangen i ddefnyddiau eraill.</li> </ul>	Mae Polisi 42 y CDLI yn diogelu safleoedd cyflogaeth presennol ar gyfer defnydd cyflogaeth barhaus a Pholisi 43 yn nodi'r mathau o ddefnyddiau derbyniol lle y gellir cyfiawnhau colli cyflogaeth.	Nid oes angen newid y CDLI i gwrdd â'r gofyniad polisi cenedlaethol hwn.



7.	Dylai'r CDLI gynnig lleoliadau penodol ar gyfer y diwydiannau angenrheidiol hynny sydd yn niweidiol i amwynder ac a all fod yn ffynhonnell llygredd.	Nid oes unrhyw geisiadau penodol wedi dod ymlaen yn gofyn am ddyraniad tir o'r math hwn. Bydd unrhyw geisiadau dyfaliadol sy'n dod ymlaen yn cael eu hystyried yn erbyn polisiau generig y Cynllun a'i gysylltiadau i Bolisi Cynllunio Cymru.	Nid oes angen newid y CDLI i gwrdd â'r gofyniad polisi cenedlaethol hwn.
8.	Dylai'r CDLI geisio hyrwyddo a hwyluso datblygiad a fydd yn darparu adfywio ffisegol.	Mae nifer o safleoedd wedi eu dyrannu yn y CDLI ar dir ailddatblygu neu dir llwyd. Mae dau o'r safleoedd - Safle Gatehouse (gan gynnwys y Delphi) Apartments yn Ninbych-y-Pysgod a safle'r Cambrian yn Saundersfoot - yn cael eu hadeiladu ac yn cyflwyno datblygiadau cymysg yn cynnwys tai, tai fforddiadwy, masnachol a gofod manwerthu. Hefyd wedi'i ddyrannu mae Sergeant's Lane yn Ninbych-y-Pysgod, sy'n lôn lled-adfeiliedig yng nghanol tref Dinbych-y-Pysgod. Gobeithir y bydd caniatâd cynllunio a roddwyd ym Mehefin 2014 ar gyfer un o'r unedau sydd i'w hailddatblygu yn gatalydd ar gyfer ailddatblygu pellach yma. Mae'r Cynllun hefyd yn caniatáu ar gyfer ailddatblygu o fewn ardaloedd harbwr yn Ninbych-y-Pysgod, Saundersfoot, Solfach a Phorthgain.	Nid oes angen newid y CDLI i gwrdd â'r gofyniad polisi cenedlaethol hwn.
9.	Wrth ddiogelu safleoedd presennol a darparu safleoedd newydd, dylai'r CDLI flaenoriaethu safleoedd sy'n darparu cyfleoedd gwaith a hyfforddiant priodol i gymunedau difreintiedig.	Mae graddfa'r cyfleoedd ar gyfer safleoedd cyflogaeth adeiladu o'r newydd yn y Parc Cenedlaethol yn gyfyngedig ac yn gyffredinol heb eu datblygu oherwydd costau seilwaith waharddol. Mae'n well ystyried y mater hwn drwy'r Adolygiad Tir Cyflogaeth ehangach.	Mae'r Awdurdod yn gweithio gyda Chyngor Sir Penfro i baratoi elfen arolwg lleol fel rhagflaenydd i adolygiad tir cyflogaeth. Dylai'r adolygiad gael ei gwblhau o fewn yr Adolygiad o'r Cynllun hwn, yna gall y canlyniadau gael eu cymryd i ystyriaeth. Fel arall, bydd angen iddo gael ei gynnwys yn yr Adroddiadau Monitro Blynyddol o'r Cynllun a'i gynnwys mewn adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol yn y dyfodol
10.	Dylai'r CDLI ganolbwyntio ar ddatblygiad sy'n denu nifer fawr o bobl, gan gynnwys manwerthu a swyddfeydd, yng nghanol dinasoedd, trefi a phentrefi.	Mae'r dyraniadau defnydd cymysg a defnydd cyflogaeth mwyaf wedi eu lleoli yn yr aneddiadau mwyaf y Parc Cenedlaethol - sef Dinbych-y-pysgod, Saundersfoot, Trefdraeth, Tyddewi a Broad Haven. Mae ceisiadau manwerthu hefyd yn cael eu cyfeirio i'r Canolfannau hyn (polisi 50)	Nid oes angen newid y CDLI i gwrdd â'r gofyniad polisi cenedlaethol hwn.
11.	Dylai'r CDLI gynnwys polisiau sy'n seiliedig ar feini prawf i ddelio â datblygiadau sydd heb eu dyrannu yn benodol yn y cynllun datblygu a helpu i ymateb i newid annisgwyl.	Mae Polisi 42 yn nodi lle gallai ceisiadau hapfasnachol ar gyfer datblygiadau cyflogaeth gael eu caniatáu yn y Parc Cenedlaethol, gan gymryd i ystyriaeth graddfa, lleoliad a'r potensial ar gyfer cyfuno defnydd cyflogaeth gyda defnyddiau eraill. Mae hefyd yn diogelu tir ar gyfer ceisiadau cyflogaeth.	Nid oes angen newid y CDLI i gwrdd â'r gofyniad polisi cenedlaethol hwn.

1.	Ystyried a gwneud darpariaeth ar gyfer anghenion yr economi cyfan ac nid i Ddosbarthiadau Defnydd B yn unig.	<p>Mae'r polisiau CDLI yn caniatáu ar gyfer ystyried pob math o ddatblygiad. Mae hefyd yn cynnwys nifer o ddyraniadau ar gyfer defnydd masnachol, cymysg, manwerthu, cymunedol a phreswyl - yn Ninbych-y-Pysgod, Saundersfoot, Trefdraeth, Tyddewi a Broad Haven. Yn Mehefin 2014 mae dau o'r safleoedd a ddyrannwyd yn cael eu hadeiladu ac mae traean gyda chaniatâd cynllunio i ddatblygu rhan o'r safle ar gyfer defnydd cyflogaeth.</p> <p>Er bod dau o'r dyraniadau hyn yn cael eu hadeiladu, mae digon o gyfle yn parhau i fod o fewn y safle sy'n weddill i ddarparu ar gyfer amrywiaeth o ddefnyddiau. Mae'r polisiau yn y CDLI yn caniatáu ar gyfer ystyried ceisiadau cynllunio a gyflwynir am ystod o ddefnyddiau. Bydd Polisi 42 o'r Cynllun angen ei addasu yn unol â diwygiadau i Bolisi Cynllunio Cymru (para 7.3.2) i leoli defnyddiau cyflogaeth o fewn neu gerllaw ffiniau aneddiadau diffiniedig.</p>	<p>Diwygio Polisi 42, maen prawf b i ddarllen</p> <p><i>Cyfeirio cynigion cyflogaeth ar raddfa fach i leoliadau <b>mewn neu gerllaw</b> Canolfannau neu adeiladau priodol i'w haddasu yng nghefn gwlad a nodwyd y Cynllun Datblygu Lleol (Gweler polisi 7d). Gall arallgyfeirio ar ffermydd fod o gymorth hefyd. (Gweler polisi 7c).</i></p>
2.	Dylai'r CDLI gynnwys polisiau ar y posibiladau ar gyfer datblygu economaidd newydd i mewn a gerllaw aneddiadau gwledig a dynodi safleoedd addas. Mewn ardaloedd gwledig anghysbell ac aneddiadau llai dylai dull seiliedig ar feini prawf gael ei ystyried	<p>Mae Polisi 42 o'r Cynllun yn bolisi seiliedig ar feini prawf sy'n nodi sut y bydd ceisiadau ar gyfer datblygu economaidd newydd yn cael eu hystyried, gan gynnwys dyrannu tir a chyfeirio ceisiadau cyflogaeth ar raddfa fach i leoliadau mewn Canolfannau neu adeiladau priodol dynodedig i'w haddasu yng nghefn gwlad. Bydd hyn angen ei ddiwygio i adlewyrchu'r newid ym Mholisi Cynllunio Cymru i ganiatáu datblygiadau 'gerllaw' Canolfannau ac i ganiatáu ar gyfer dull seiliedig ar feini prawf ar gyfer ceisiadau mewn ardaloedd gwledig anghysbell ac aneddiadau llai.</p>	<p>Diwygio Polisi 42, maen prawf b i ddarllen</p> <p><i>Cyfeirio cynigion cyflogaeth ar raddfa fach i leoliadau <b>mewn neu gerllaw</b> Canolfannau neu adeiladau priodol i'w haddasu yng nghefn gwlad a nodwyd y Cynllun Datblygu Lleol (Gweler polisi 7d). Gall arallgyfeirio ar ffermydd fod o gymorth hefyd. (Gweler polisi 7c).</i></p> <p><i>Dull seiliedig ar feini prawf ar gyfer aneddiadau llai ac ardaloedd gwledig anghysbell.</i></p>

3.	Dylai'r CDLI gynnwys polisiau i annog arallgyfeirio ar ffermydd a chyfleoedd datblygu gwledig newydd.	Mae polisiau'r Cynllun yn caniatáu ar gyfer amrywiaeth o gyfleoedd datblygu gwledig drwy ddyraniadau safle a pholisiau generig sy'n caniatáu ystyriaeth o fentrau cyflogaeth o fewn ac yn gyfagos at Ganolfannau ac yng nghefn gwlad trwy ailddefnyddio adeiladau priodol. Mae'r Cynllun yn dibynnu ar Bolisi Cynllunio Cymru i arwain cynigion ar arallgyfeirio ar ffermydd. Byddai troednodyn i Bennod 7 o Bolisi Cynllunio Cymru yn helpu i egluro'r dull polisi.	Croesgyfeirio at Adran 7.3 o Bolisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 7) i'w fewnosod yn para 4.53 y Cynllun Datblygu Lleol.  Dylai Para 4.184 o'r Cynllun gael ei symud i ddechrau'r adran cyflogaeth ac aralleirio i adlewyrchu adran wedi'i ddiweddarau o Bolisi Cynllunio Cymru, fel a ganlyn::  <i>Mae Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 7 yn cynnwys datganiadau clir ar bolisi rheoli datblygu cenedlaethol ar fusnes a datblygu economaidd mewn ardaloedd gwledig. Cyfeiriwch at Bennod 7 - Datblygu Economaidd.</i>
4.	Dylai'r CDLI nodi parthau gwarchod o amgylch sefydliadau sy'n dal sylweddau peryglus a diogelu gallu'r sefydliadau sy'n bodoli eisoes i weithredu neu ehangu drwy atal datblygiad cynyddol o ddefnyddiau bregus yng nghyffiniau safleoedd o'r fath.	Mae yna nifer o barthau gosodiadau peryglus yn neu wrth ymyl y Parc Cenedlaethol. Nid yw'r rhain yn cael eu dangos ar y Map Cynigion ar hyn o bryd.  Nid oes unrhyw ddyraniadau yn cael eu gwneud ar gyfer datblygiad sylweddau peryglus neu weithgareddau a allai fod yn llygrol yn y Cynllun Datblygu Lleol. Bydd y prawf datblygiadau mawr yn darparu'r cyd-destun polisi sylfaenol ar gyfer ystyried ceisiadau i ddatblygu sylweddau peryglus.	Diwygio'r Map Cynigion i barthau gosodiadau peryglus o fewn y Parc Cenedlaethol yn unol â'r gofyniad Polisi Cynllunio Cenedlaethol.  <b>DS Dull CSP oedd cyhoeddi nodyn ymgynghorol ar wahân yn hytrach na defnyddio map cynigion y CDLI.</b>
5.	Nid yw perchnogion o dir a ddyrannwyd ar gyfer defnydd cyflogaeth Cynulliadau i'r De o Dyddewi yn dymuno gwerthu na rhyddhau tir na dod ag ef ymlaen ar gyfer datblygiad eu hunain.	Cafodd y tir ei ddyrannu yn y Cynllun Datblygu Lleol yn unol â'r cyngor a ddarparwyd gan Gyngor Sir Penfro mewn perthynas â'r galw yn yr ardal. Ers mabwysiadu'r Cynllun, ni fynegwyd unrhyw ddi-ddordeb mewn datblygu'r tir. Er bod yr angen am adeiladau bach yn parhau i fod, mae'r costau sy'n gysylltiedig â datblygu safleoedd tir glas gyda'r seilwaith angenrheidiol yn afresymol i'r cwmnïau lleiaf. Nid oes	Dileu dyraniad EA748 o'r Map Cynigion.  Dileu dyraniad EA748 o'r rhestr o ddyraniadau yn Nhabl 3 testun y Cynllun Datblygu Lleol a diwygio'r cyfanswm ffigyrau yn unol â hynny.

		unrhyw geisiadau hysbys i ariannu datblygiadau o'r fath yn breifat na'ngyhoeddus. Yn ogystal, mae'r tirfeddianwyr wedi cynghori'n ddiweddar y byddent yn gwrthwynebu datblygiad y tir hwn. Mae'r tir yn felly yn annhebygol iawn o gael eu datblygu a dylai'r dyraniad gael ei ddileu o'r Cynllun.	Diwygio Polisi 42 y Cynllun drwy ddileu maen prawf a) ac ailrifo'r meini prawf dilynol yn unol â hynny.
6.	Mae trafodaethau wedi cychwyn gyda tirfeddianwyr Safle MA776 yn Broad Haven sydd wedi'i ddyrannu ar gyfer datblygiad cymysg preswyl, gweithdai a chyfleusterau cymunedol. Mae Cyngor Sir Penfro wedi datgan nad yw'r gweithdai yn debygol o fod yn hyfyw	Mae angen am adeiladau bach ledled Sir Benfro. Er bod y tir wedi ei glustnodi ar gyfer hyn mewn sawl lleoliad yn y Parc Cenedlaethol, cydnabyddir nad yw costau cyfalaf darparu unedau bach yn hyfyw. Nid oes digon o dystiolaeth i gadarnhau gwrthwynebiad i safleoedd defnydd cymysg fel hwn yn Broad Haven. Mae'n bwysig nad yw hyn yn achosi oedi gyda'r safleoedd sy'n cael eu dwyn ymlaen i'w ddatblygu at ddibenion hyfyw eraill fel defnydd preswyl. Ystyrir ei bod yn briodol felly dileu'r gofyniad am weithdai ar y safle hwn.	Diwygio dyraniad safle MA776, i'r Gogledd-ddwyrain o Marine Road, Broad Haven i gynnwys defnyddiau preswyl a chyfleuster cymunedol yn unig.  (Efallai y bydd angen newidiadau pellach i ddileu'r gofyniad cyfleuster cymunedol yn amodol ar gadarnhad gan CSP).

**Tabl 3 Safleoedd a Ddyrannwyd ar gyfer Defnydd Busnes/Cyflogaeth yn y Cynllun Datblygu Lleol - materion cyfredol - darn o'r Papur cyfredol – detholiad o'r Papur Cefndir Cyflogaeth - y drafft diweddaraf**

Cyf	Lleoliad	Maint (HA)	Tir llwyd /glas	Y sefyllfa bresennol
MA706	Upper Park Road, Dinbych-y-Pysgod	0.01	Tir llwyd	Yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd fel rhan o ddatblygiad masnachol/preswyl cymysg ehangach.
MA707	White Lion Street/ Deer Park, Dinbych-y-Pysgod	0.49	Tir llwyd	Yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd fel rhan o ddatblygiad masnachol/preswyl cymysg ehangach.
MA232	Ger Parc Busnes Trefdraeth	0.79	Tir glas	Dyrannwyd ar gyfer unedau byw / gweithio. Caniatâd cynllunio i ddefnyddio'r safle cyfan ar gyfer ffatri hufen iâ wedi dod i ben yn 2014. Nid oes gan y tirfeddianwyr unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd ar gyfer y safle.
MA777	Cefn y Cambrian, Saundersfoot	0.30	Tir llwyd	Yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd fel rhan o ddatblygiad masnachol/preswyl cymysg ehangach.
EA748	I'r De o Gynulladau Tyddewi	0.93	Tir glas	Dyrannu ar gyfer defnydd cyflogaeth. Dim diddordeb yn y safle hwn gan ddatblygwyr. Mae tirfeddianwyr wedi cynghori y byddent

Cyf	Lleoliad	Maint (HA)	Tir llwyd /glas	Y sefyllfa bresennol
				yn anfodlon rhyddhau tir ar gyfer datblygu.
MA746	Rhwng Glasfryn Road a Pharc Millard, Tyddewi	0.74	Tir glas	Dyrannwyd ar gyfer unedau byw / gweithio. Dim diddordeb yn y safle hwn gan ddatblygwyr. Tirfeddianwyr barod i werthu ar gyfer datblygu ond nid oes ganddynt gynlluniau eu hunain i ddod â safleoedd ymlaen.
MA776	G-Dd Marine Road, Broad Haven	2.29	Tir glas	Dyrannu ar gyfer cyfleusterau preswyl / gweithdai / cymuned gymysg. Tirfeddianwyr mewn trafodaeth cyn cyflwyno cais gyda'r APC a gyda Chyngor Sir Penfro ynghylch mynediad i'r safle. PCC yn cyngori nad yw'r gweithdai yn gais ymarferol. Yn aros am wybodaeth gan CSP am yr angen am gyfleusterau cymunedol. Tirfeddianwyr yn awyddus i ddatblygu safle yn gyfan gwbl ar gyfer defnydd preswyl yn absenoldeb gofynion eraill.

- PCNP Settlements
- PCNPA Mixed use Allocation
- PCNPA Employment Allocation
- PCC Settlements
- PCC Employment allocations
- PCC Strategic Employment Land
- ▭ Port and Energy Related Development
- ▭ Wales Spatial Plan Hubs



